# Ymgynghoriad: Cod Deunydd Ar-lein y BBC

## Rhoi diweddariadau i Gytundeb Fframwaith y BBC ar waith

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 2 Gorffennaf 2026
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 27 Awst 2026

I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn, ewch i [ofcom.org.uk](ofcom.org.uk)

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ....... 3
2. Cefndir yr ymgynghoriad hwn ....... 6
3. Rheolau Arfaethedig Cod Deunydd Ar-lein y BBC ....... 8
4. Gweithdrefnau ....... 35


## Atodiad


A1. Fframwaith Statudol ....... 44
A2. Cod Deunydd Ar-lein y BBC (Drafft) ....... 48
A3. Cymhwyso'r Cod Tegwch ....... 49
A4. Gweithdrefnau ....... 58
A5. Asesiadau o'r effaith ....... 59
A6. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ....... 68
A7. Egwyddorion ymgynghori Ofcom ....... 71
A8. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ....... 72
A9. Cwestiynau'r ymgynghoriad ....... 73

# 1. Trosolwg

1.1 Mae Ofcom wedi bod yn rheoleiddio safonau cynnwys ar gyfer gwasanaethau teledu, radio ac ar-alw y BBC o dan y Cod Darlledu ers 2017. Hyd yma, nid yw Ofcom wedi cael y pŵer i orfodi rheolau ar gyfer deunydd ar-lein y BBC.[1]

1.2 Mae cynulleidfaoedd yn defnyddio mwy a mwy o gynnwys ar-lein yn hytrach na gwasanaethau darlledu traddodiadol.[2] Yng ngoleuni'r newid hwn, roedd Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o Siarter y BBC yn 2024 yn argymell ymestyn pwerau Ofcom i reoleiddio deunydd ar-lein y BBC. Bydd y newid hwn yn galluogi Ofcom i ddal y BBC i gyfrif yn fwy effeithiol, gan gynnwys ar faterion fel didueddrwydd dyladwy.[3]

**Cynnwys yr ymgynghoriad hwn**

1.3 O ganlyniad i'r pwerau newydd hyn, mae Ofcom yn cynnig cyflwyno Cod Deunydd Ar-lein newydd y BBC ("y Cod"). Bydd y rheolau hyn yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC (fel sy'n cael ei ddiffinio'n fanylach ym mharagraffau 3.4 i 3.6) a rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw. Bydd y Cod yn sefydlu trefn newydd ar gyfer rheoleiddio deunydd ar-lein y BBC a fydd yn disodli'r Trefniant Ar-lein presennol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd safbwyntiau rhanddeiliaid ar y Cod arfaethedig newydd.

1.4 Ar gyfer cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, mae Cod Tegwch eisoes mewn grym o dan y Cod Darlledu, y mae'n rhaid i'r BBC ei ddilyn. Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn gofyn am safbwyntiau ar sut rydym yn bwriadu cymhwyso'r Cod Tegwch i ddeunydd ar-lein y BBC.

1.5 Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys ein gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC, sef:

a) ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys;
b) ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd; ac
c) ystyried sancsiynau am achosion o dorri safonau cynnwys yng ngwasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw a deunydd ar-lein y BBC.

1.6 Bydd Ofcom yn cyhoeddi canllawiau i'r Cod yn nes ymlaen, a fydd yn egluro sut bydd yn rhoi'r rheolau arfaethedig ar waith yn ymarferol.

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

**Cod Deunydd Ar-lein y BBC (Drafft)**

Ar gyfer Cod Deunydd Ar-lein drafft y BBC, rydym wedi ystyried llawer o'r un rheolau a safonau sylfaenol sy'n berthnasol i wasanaethau teledu a radio o dan y Cod Darlledu.

Rydym wedi ceisio bod yn gyson â'r Cod Darlledu. Fodd bynnag, pan fo angen, mae'r rheolau wedi cael eu teilwra i adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng cynnwys darlledu a deunydd ar-lein y BBC. Rydym wedi ystyried natur benodol deunydd ar-lein drwy addasu neu hepgor rhai rheolau a chysyniadau lle nad ydynt yn berthnasol ar-lein.

[1] Yn hytrach, yn unol â Chytundeb Fframwaith y BBC, o dan Gytundeb Ar-lein, dim ond cwynion y gallai eu hystyried a rhoi barn nad yw'n rhwymo ynghylch a yw'r BBC wedi glynu wrth ei Ganllawiau Golygyddol ei hun.
[2] Barb, 28-cyfunol, setiau teledu yn unig; mae cyrhaeddiad wythnosol teledu sy'n cael ei ddarlledu wedi parhau i ddirywio.
[3] BBC Adolygiad Canol Tymor y BBC 2024, paragraff 9.

Dyma ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer pob Adran o'r Cod newydd:

- **Adran Un** (Diogelu pobl dan ddeunaw oed): mae ein cynigion yn addasu ac yn crynhoi rheolau o Adran Un y Cod Darlledu, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed rhag deunydd ar-lein sy'n anaddas iddynt. Nid ydym yn ailadrodd rheolau nad ydynt yn berthnasol i ddeunydd ar-lein, er enghraifft ar amserlennu priodol ("y trothwy"). Rydym hefyd yn cynnig rhoi enghreifftiau o ddeunydd ar-lein anaddas i'r BBC mewn canllawiau, yn hytrach na chynnwys rheolau sy'n benodol i faterion, fel iaith dramgwyddus, trais, deunydd rhywiol neu noethni, fel rydym yn ei wneud yn y Cod Darlledu.

- **Adran Dau** (Niwed a thramgwydd): rydym yn cynnig rheolau sy'n cyfateb i'r rheini yn Adran Dau o'r Cod Darlledu ond wedi'u haddasu i adlewyrchu'r profiad ar-lein. Rydym yn cynnig addasu ystyr "cyd-destun" i adlewyrchu ffactorau ar-lein fel fformat a math yr eitem ar-lein, oedran y deunydd a'r amser y mae deunydd wedi bod ar gael ar-lein.
- **Adran Tri** (Trosedd, anhrefn, casineb a cham-drin): yn yr un modd, mae ein cynigion yn addasu ystyr "cyd-destun" i adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein ar gyfer rheolau sy'n ymwneud ag iaith casineb a thriniaeth ddifrïol sarhaus.
- **Adran Pedwar** (Crefydd): rydym yn cynnig rheolau sy'n ymdrin â'r meysydd canlynol, sydd, yn ein barn ni, yn briodol mewn cyd-destun ar-lein ar gyfer cynnwys crefyddol sydd wedi'i gynnwys yn neunydd ar-lein y BBC: arfer cyfrifoldeb priodol mewn rhaglenni crefyddol, osgoi camfanteisio'n amhriodol ar deimladau cynulleidfaoedd ac osgoi trin barnau a chredoau crefyddol yn gamdriniol.
- **Adran Pump** (Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy); mae ein cynigion yn adlewyrchu'r rheolau didueddrwydd dyladwy yn y Cod Darlledu, gan addasu cyfeiriadau at "raglen" neu "gyfres o raglenni wedi'u cymryd gyda'i gilydd" i "eitem ar-lein" a "chyfres o eitemau sydd â chysylltiad golygyddol yn gyffredinol" ar gyfer y cyd-destun ar-lein.
- **Adran Chwech** (Etholiadau a Refferenda): mae ein rheolau arfaethedig yn adlewyrchu'n fras y rheolau yn y Cod Darlledu ynghylch sylw yn ystod cyfnodau etholiadau, gan addasu cysyniadau lle bo angen i adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein. Rydym yn cynnig peidio ag ailadrodd y rheolau sy'n ymwneud â sylw etholaethol ac etholiadol mewn etholiadau, gan nad yw'r rhain wedi cael eu mabwysiadu gan y BBC yn hanesyddol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

**Tegwch a Phreifatrwydd**

- O ran Tegwch a Phreifatrwydd, mae Cytundeb Fframwaith y BBC wedi'i ddiweddaru yn nodi bod yn rhaid i'r BBC lynu wrth y Cod Tegwch, i'r graddau y mae'n berthnasol i ddeunydd ar-lein. Mae'r cod hwn eisoes mewn grym drwy adrannau Saith ac Wyth o'r Cod Darlledu. Am y rheswm hwn, rydym yn gofyn am safbwyntiau ar Atodiad 3 sy'n pennu sut rydym yn cynnig y dylid addasu'r Cod Tegwch er mwyn bod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC. Rydym yn bwriadu cyhoeddi Atodiad 3 fel Atodiad i'r Cod Darlledu.

## Y Camau Nesaf

1.7 Rydym yn gwahodd ymatebion i'n hymgynghoriad erbyn 27 Awst 2026. Mae'r rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad 9.

1.8 Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ymateb i’r ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion a ddaeth i law ac yn cyhoeddi datganiad terfynol, gan gyhoeddi’r Cod a’r Gweithdrefnau ar yr un pryd. Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi Canllawiau ar gyfer y BBC ar y Cod ar yr un pryd.

1.9 Bydd yn rhaid i’r BBC gydymffurfio â’r Cod o’r dyddiad y cyhoeddir y Gweithdrefnau terfynol.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw’r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae’r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a’n rhesymeg wedi’u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir yr ymgynghoriad hwn

## Ofcom yn rheoleiddio Deunydd Ar-lein y BBC

2.1 Fel rhan o'i waith yn rheoleiddio'r BBC,[4] mae Ofcom yn gorfodi safonau cynnwys ar gyfer gwasanaethau rhaglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC drwy'r Cod Darlledu. Ar ben hynny, mae allbwn y BBC yn dod o dan ei Ganllawiau Golygyddol ei hun, sy'n ymgorffori gofynion y Cod Darlledu ond yn ymestyn ymhellach mewn rhai meysydd o bolisi ac ymarfer golygyddol y BBC.

2.2 Mae gan Ofcom rôl orfodi mewn perthynas â safonau ar gyfer gwasanaethau darlledu a rhaglenni ar-alw y BBC ond nid yw wedi chwarae rôl debyg mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC. Hyd yma, mae rôl Ofcom yn y maes hwn[5] wedi'i chyfyngu i ystyried deunydd ar-lein y BBC a rhoi barn, a all gynnwys argymhelliad, ynghylch a yw'r BBC wedi glynu wrth Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC. At y dibenion hyn, mae "deunydd ar-lein" yn cyfeirio at ddeunydd a ddarperir ar-lein (ar unrhyw wefan, rhaglen neu ryngwyneb ar-lein) yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU,[6] gan gynnwys testun ysgrifenedig, delweddau, cynnwys clyweledol a sain, ond heb gynnwys (ymhlith pethau eraill): rhaglenni ar wasanaethau rhaglenni ar-alw; cynnwys BBC World Service; cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, deunydd corfforaethol ac adnoddau addysgol a dysgu (sef BBC Bitesize); a deunydd y BBC ar lwyfannau ar-lein trydydd parti a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

2.3 O dan y Trefniant Ar-lein, rhaid i gwynion am ddeunydd ar-lein y BBC ddilyn dull gweithredu 'BBC yn Gyntaf', lle mae'n rhaid eu cyflwyno i'r BBC yn y lle cyntaf. Os nad yw'r sawl sy'n cwyno yn fodlon ar ymateb terfynol y BBC i gŵyn am ddeunydd ar-lein, gall wedyn gyfeirio'r gŵyn at Ofcom i'w hasesu.

2.4 Fel rhan o Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth[7] ym mis Ionawr 2024, argymhellodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y dylid cryfhau dull gweithredu'r BBC yng nghyswllt safonau golygyddol, didueddrwydd a delio â chwynion. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid ymestyn cyfrifoldebau Ofcom i elfennau o ddeunydd gwasanaeth cyhoeddus ar-lein y BBC i adlewyrchu sut mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar newyddion a chynnwys arall fwyfwy ar-lein. Ymrwymodd y Llywodraeth i'r argymhelliad hwn ac, mewn ymgynghoriad ag Ofcom a'r BBC, diweddarodd y Cytundeb Fframwaith i adlewyrchu'r cam hwn o ehangu cylch gwaith rheoleiddio Ofcom.[8] Wrth nodi'r gofyniad i safonau newydd fod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC, roedd y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn nodi'n glir y byddai'n rhaid i Ofcom lunio cod newydd ar gyfer deunydd ar-lein y BBC sy'n seiliedig (yn

[4] O dan Siarter a Chytundeb 2016, daeth Ofcom yn rheoleiddiwr y BBC. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn diffinio rolau penodol y BBC ac Ofcom.
[5] Fel y disgrifir yn y "Trefniant Ar-lein".
[6] O dan Baragraff 1, Atodlen 1 o'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, mae'n rhaid i'r BBC gynnal a chyhoeddi rhestr o wasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Mae'r rhestr gyfredol ar gael ar-lein: https://www.bbc.co.uk/aboutthebbc/documents/updated-list-of-uk-public-services-september-2025.pdf.
[7] Roedd Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o'r BBC, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, yn asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC, gan ddefnyddio ymgysylltiad wedi'i dargedu a thystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Ofcom.
[8] Cafodd y Cytundeb dyddiedig Tachwedd 2016 rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y "Cytundeb Fframwaith") ei ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2025 (y "diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith"). Rydym yn cyfeirio at hyn fel y "Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru".

bennaf) ar yr un amcanion statudol ag ar gyfer y Cod Darlledu, gan gael ei addasu i adlewyrchu nodweddion penodol deunydd ar-lein.

2.5 Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r ffordd mae tirwedd cyfryngau'r DU yn cael ei drawsnewid yn gyflym, gyda chynulleidfaoedd yn defnyddio mwy a mwy o gynnwys yn ddi-dor ar draws platfformau darlledu, ar-alw ac ar-lein. Fel y nodwyd yn Argyfwng Darlledu: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, mae gwylwyr nawr yn treulio llai na hanner eu hamser yn gwylio yn y cartref ar deledu llinol, ac mae'r ffigur hwn yn gostwng. Mae'r newid cynulleidfa ehangach hwn a phoblogrwydd gwasanaethau ar-lein y BBC[9] yn cyflwyno heriau a chyfleoedd newydd i ystyried sut mae gwahanol fframweithiau safonau'n rhyngweithio mewn tirwedd cynnwys llawer mwy integredig.

2.6 Mae'r fframwaith statudol sy'n sail i'r Cod ar gael yn Atodiad 1.

[9] Yn ôl Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2025, y BBC oedd y wefan neu'r ap mynediad uniongyrchol ar-lein a ddefnyddiwyd amlaf ar gyfer newyddion.

# 3. Rheolau Arfaethedig Cod Deunydd Ar-lein y BBC

## Dull

3.1 Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i osod safonau ar gyfer deunydd ar-lein y BBC sy'n ymddangos i Ofcom fel y rhai gorau i sicrhau'r amcanion safonau amrywiol a bennir gan y Senedd Brydeinig. Mae'r Cod drafft yn Atodiad 2 yn cynnwys y rheolau rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw ynghylch cynnwys deunydd ar-lein yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU.

3.2 Mae'r Cod drafft hwn wedi cael ei ddrafftio yng ngoleuni Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn), yn enwedig Erthyglau 9, 10 a 14 o'r Confensiwn. Mae Ofcom hefyd wedi rhoi sylw dyledus i'r materion a bennir yn adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998. Edrychwch ar Atodiad 1 (Fframwaith Statudol) ac Atodiad 5 (Asesiadau o'r Effaith) i gael rhagor o wybodaeth.

3.3 Cyn ymgynghori ar y Cod drafft, mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn mynnu ein bod yn ymgynghori â'r BBC ynghylch y safonau rydym yn bwriadu eu cynnwys. Mae'n rhaid i ni hefyd ymgynghori â'r BBC, yn ogystal â'r cyhoedd, ynghylch y gweithdrefnau perthnasol rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith. Yn unol â'r gofynion hyn, rydym wedi ymgysylltu â'r BBC cyn cyhoeddi ein hymgynghoriad cyhoeddus, ac mae'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cod a nodir yn Atodiad 2 a'r Gweithdrefnau yn Atodiad 4 yn ystyried yr adborth a gawsom.

## Cwmpas y Cod

3.4 Fel y dangosir yn Ffigur 1 isod, Mae deunydd ar-lein y BBC (y term rydym yn ei ddefnyddio yn yr ymgynghoriad hwn i olygu "Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y DU" o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru) yn golygu cynnwys sy'n cael ei ddarparu fel rhan o Wasanaethau Cyhoeddus y DU gan y BBC ar-lein ac sydd wedi'i fwriadu ar gyfer defnyddwyr yn y DU (neu unrhyw ran o'r DU).[10] Mae hyn yn cynnwys deunydd brand y BBC ar wefannau, rhaglenni a rhyngwynebau trydydd parti, yn ogystal â chynnwys sydd wedi'i gynnwys yn y canlynol:

a) Gwefannau newyddion a chwaraeon y BBC;
b) Apiau'r BBC ar ffôn clyfar, set deledu neu ddyfais arall;
c) Unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol y BBC[11] (gan gynnwys ail-bostio unrhyw gynnwys sy'n cael ei bostio ar unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol arall gan y BBC, gan gynnwys un unrhyw unigolyn sy'n gweithio i'r BBC); neu
d) Adnoddau addysgol a dysgu'r BBC.


3.5 Mae cyfeiriadau at "gynnwys" yn cynnwys testun ysgrifenedig a delweddau llonydd neu symudol, gyda sain neu hebddo, a chynnwys sy'n cynnwys sain yn unig.

[10] Paragraff 3A(9), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[11] Mae "cyfrif cyfryngau cymdeithasol y BBC" yn golygu cyfrif ar unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud ag unrhyw un o raglenni, gwasanaethau neu genres y BBC ac sy'n cael ei frandio a'i weithredu gan y BBC fel cyfrif y BBC (ac, yn unol â hynny, nid yw'n cynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol unrhyw unigolyn sy'n gweithio i'r BBC) (paragraff 3A(11), Atodlen 3 y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru).

3.6 Nid yw deunydd ar-lein y BBC yn cynnwys unrhyw gynnwys i'r graddau y mae'n:

a) cael ei ddarparu gan y BBC fel rhan o'r World Service neu mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw (gan gynnwys BBC iPlayer neu BBC Sounds);[12]
b) yn cynnwys deunyddiau corfforaethol y BBC, gan gynnwys adroddiadau a gyhoeddir gan y BBC, areithiau neu ddatganiadau gan unigolion sy'n gweithio i'r BBC a chyhoeddiadau mewnol;
c) yn cael ei bostio ar fwrdd negeseuon neu dudalen sylwadau'r BBC;
d) yn gynnwys rhyngweithiol a gynhyrchir gan ddefnyddwyr nad yw wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU; neu
e) yn cael ei ddarparu gan unrhyw un ar wahân i'r BBC fel rhan ddatgysylltiol o wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y BBC.[13]

**Ffigur 1: Cwmpas deunydd ar-lein y BBC**




3.7 Mae'r amcanion safonau perthnasol y mae'n rhaid i reolau Ofcom eu gosod ar gyfer deunydd ar-lein y BBC yn deillio o'r set ehangach o amcanion sy'n berthnasol i wasanaethau teledu a radio o dan adran 319(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"). Gan fod y rhain yn berthnasol i'r Cod ac i'r Cod Darlledu, mae hefyd yn ofynnol i Ofcom ystyried yn benodol yr amcan y dylai'r safonau mae'n eu gosod o dan y Cod Deunydd Ar-lein fod yn gyson (i'r graddau sy'n briodol) â'r safonau cyfatebol o dan y Cod Darlledu.[14] Rhaid i'r BBC hefyd lynu wrth y Cod Tegwch sydd mewn grym o dan Adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 (sef Adran Saith ac Adran Wyth o'r Cod Darlledu), i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu deunydd ar-lein y BBC. Rydym wedi ystyried pa addasiadau

[12] Rydym yn nodi, lle mae gwasanaeth rhaglenni ar-alw y BBC yn cynnwys gwasanaethau datgysylltiol eraill, fel gwasanaethau rhaglenni teledu sy'n cael eu ffrydio'n fyw, y gallai'r rheini gael eu hystyried yn ddeunydd ar-lein y BBC. Er enghraifft, mae'n debygol y byddai hyn yn cynnwys deunydd ffrydio byw ar BBC iPlayer nad yw'n cael ei ddarlledu ar yr un pryd.
[13] Paragraff 3A(10), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[14] Paragraff 3A(4)(b), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

sydd eu hangen i ddefnyddio Adrannau Saith ac Wyth o'r Cod Darlledu at y diben hwn ac mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig.

## Ein cynigion ar gyfer y Cod

3.8 Rydym yn cynnig chwe adran yn y Cod drafft. Mae'r rhain yn nodi'r rheolau perthnasol at ddibenion amcanion y safonau y mae'n rhaid i ni eu sicrhau ar gyfer deunydd ar-lein y BBC o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru. Mae'r adrannau hyn yn cyfateb i'r adrannau cyfatebol o dan y Cod Darlledu ac yn defnyddio'r un teitlau, rhifau a chronoleg, sef:

1. Diogelu Pobl Dan Ddeunaw Oed
2. Niwed a thramgwydd
3. Trosedd, anhrefn, casineb a cham-drin
4. Crefydd
5. Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy
6. Etholiadau a refferenda

3.9 Mae'r Cod Darlledu hefyd yn cynnwys rheolau ar gyfeiriadau Masnachol ar y teledu (Adran Naw) a chyfathrebiadau Masnachol ar y radio (Adran Deg). Gan fod y rheolau hyn yn seiliedig yn bennaf ar amcanion safonau nad ydynt yn berthnasol i'r Cod, nid ydym yn eu hadlewyrchu yn y Cod drafft.[15] Pan allai rheolau penodol ar gyfeiriadau masnachol fod yn berthnasol i amcanion y safonau sy'n berthnasol i ddeunydd ar-lein, rydym yn credu bod y rheolau arfaethedig yn y Cod drafft yn ddigonol i ddarparu'r mesurau diogelu angenrheidiol.[16] Rydym hefyd yn ymwybodol, yn wahanol i ddarlledwyr masnachol, bod gan y BBC gyfyngiadau ar ddefnyddio hysbysebion neu nawdd fel rhan o'i Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy'n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded.

3.10 Fel o dan y Cod Darlledu, mae pob adran o'r Cod yn dechrau gyda'r egwyddorion sy'n sail i'r rheolau yn yr adran honno ac yna'n nodi'r ystyron a'r rheolau perthnasol. Fel gyda'r Cod Darlledu, mae'r egwyddorion wedi'u cynnwys er mwyn helpu darllenwyr i ddeall amcanion y safonau ac i gymhwyso'r rheolau. Mae'r ystyron yn helpu i egluro beth mae Ofcom yn ei fwriadu gan rai o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Cod. Nodir y ddeddfwriaeth fwyaf perthnasol dan bennawd pob adran fel y gall darllenwyr droi at y ddeddfwriaeth os ydynt yn dymuno.

3.11 Mae'r rheolau ym mhob adran o'r Cod Darlledu yn ddyletswyddau rhwymol penodol y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw a gall unrhyw achos o dorri rheol arwain at risg o sancsiynau gan Ofcom. Mae cyd-destun a geiriad penodol y rheolau'n bwysig o ran eu natur a'u heffaith. Felly, rydym wedi cynnig yn y Cod drafft ein bod yn adlewyrchu'r rheolau'n fras pan fydd hyn yn cyd-fynd â'n dyletswydd gyffredinol i adlewyrchu amcanion y safonau a sicrhau cysondeb â'r safonau fel sy'n cael eu hadlewyrchu yn y Cod Darlledu.

3.12 Fodd bynnag, mewn rhai achosion rydym wedi gwyro oddi wrth adlewyrchu rhai rheolau neu eiriad penodol o'r Cod Darlledu i'r Cod drafft. Mae hyn mewn achosion lle rydym wedi canfod

[15] Yn benodol, nid yw amcanion y safonau o dan adrannau 319(2)(fa), (i) a (j) sy'n ymwneud â gofynion gosod cynnyrch, rhwymedigaethau rhyngwladol mewn perthynas â hysbysebu mewn gwasanaethau teledu a radio, a nawdd anaddas, yn berthnasol i'r Cod.

[16] Yn benodol, amcanion y safonau o dan adrannau 319(2)(a) ac (f) sy'n ymwneud â diogelu pobl ifanc dan ddeunaw oed a defnyddio safonau a dderbynnir yn gyffredinol er mwyn diogelu pobl yn ddigonol rhag deunydd tramgwyddus a niweidiol.

y gallent fod yn anghymesur neu'n ddiangen yng nghyd-destun amgylchedd ar-lein y BBC neu lle gallai rheol gyffredinol fod yn ddigonol i ddarparu'r un lefel o ddiogelwch ar gyfer deunydd ar-lein heb fod angen bod mor benodol ag ar gyfer cynnwys sy'n cael ei ddarlledu. Serch hynny, hyd yn oed pan fydd rhai adrannau arfaethedig o'r Cod drafft yn cynnwys llai o reolau neu eiriad gwahanol i'w hadrannau cyfatebol yn y Cod Darlledu, y bwriad oedd cynnal yr un lefel o amddiffyniad i gynulleidfaoedd. I'r graddau y mae unrhyw un o'r newidiadau hyn yn sylweddol, rydym wedi egluro yn y ddogfen ymgynghori hon ein rhesymeg polisi drostynt.

3.13 Pan fyddwn wedi nodi ystyron ym mhob adran o'r Cod, mae'r rhain yn bodoli i ddiffinio'r termau allweddol a ddefnyddir yn y rheolau a'u pwrpas yw darparu eglurhad. Felly, rydym wedi cynnig newid geiriad ystyron penodol lle mae angen eglurhad ychwanegol neu wahanol ar y cyd-destun ar-lein, neu lle mae'r rheolau neu'r telerau arfaethedig sy'n cael eu hegluro wedi cael eu newid o'r Cod Darlledu.

3.14 Er mwyn cefnogi'r BBC a'i gynulleidfaoedd, cynigir y bydd y Cod yn cael ei ategu gan ganllawiau a fydd yn helpu'r BBC a'r cyhoedd i ddeall agweddau ar y Cod newydd a'r ffordd y bydd Ofcom yn ei ddefnyddio. Bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Bwriad Ofcom yw cyhoeddi canllawiau ochr yn ochr â chyhoeddi'r Cod terfynol. Fodd bynnag, yn y ddogfen ymgynghori hon rydym wedi nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer canllawiau lle rydym yn credu ei bod yn arbennig o bwysig helpu i ddeall y Cod drafft a gwahodd sylwadau ar ein dull gweithredu arfaethedig.

## Deunydd ar-lein y BBC ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol

3.15 Fel yr amlinellwyd uchod, nid yw Ofcom wedi chwarae unrhyw rôl hyd yma o ran gosod a gorfodi safonau cynnwys ar gyfer deunydd ar-lein y BBC. Mae'r Cod drafft hefyd yn cynrychioli'r tro cyntaf i ni gael unrhyw oruchwyliaeth reoleiddiol dros ddeunydd y BBC ar lwyfannau ar-lein trydydd parti.[17]

3.16 Mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn diffinio deunydd ar-lein i olygu unrhyw gynnwys sydd â brand y BBC arno ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol y BBC (gan gynnwys ail-bostio unrhyw gynnwys sy'n cael ei bostio ar unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol arall gan gynnwys unrhyw unigolyn sy'n gweithio i'r BBC). Mae hyn yn golygu bod y Cod drafft yn berthnasol yn yr un ffordd i ddeunydd ar-lein y BBC pan fydd yn cael ei ddarparu fel rhan o Wasanaethau Cyhoeddus y DU a phan fydd yn berthnasol i gynnwys sydd wedi'i frandio gan y BBC ar wefannau, rhaglenni a rhyngwynebau trydydd parti, lle na fyddai lefel y diogelwch yn wahanol.

3.17 Rydym o'r farn bod gan y BBC reolaeth olygyddol dros ddeunydd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u brandio gan y BBC (gan gynnwys cynnwys wedi'i ail-bostio). Yn dibynnu ar y llwyfan trydydd parti unigol, rydym hefyd o'r farn yn fras y byddai gan y BBC rywfaint o allu i reoli cymedroli ei gyfrifon (er enghraifft, galluogi neu analluogi sylwadau neu rwystro cyfrifon). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod efallai na fydd gan y BBC reolaeth ehangach dros amgylchedd y llwyfan lle gallai ei ddeunydd ar-lein ymddangos, gan gynnwys elfennau fel polisïau a chanllawiau'r llwyfan trydydd parti, neu algorithmau a systemau argymell.

[17] Fel y nodwyd ym mharagraff 2.2, nid yw rôl bresennol Ofcom mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC o dan y Trefniant Ar-lein yn ymestyn i ddeunydd y BBC ar lwyfannau ar-lein trydydd parti a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

3.18 Yng ngoleuni'r her ymarferol hon, byddwn yn ystyried ymhellach a allai canllawiau ar ddeunydd ar-lein y BBC, sy'n ymddangos ar lwyfannau trydydd parti, helpu i egluro sut gallai'r rheolau arfaethedig fod yn berthnasol i gyfrifon brand a gweithredol y BBC ar gyfryngau cymdeithasol a/neu lwyfannau rhannu fideos. Er enghraifft, gallai canllawiau fod yn ddefnyddiol i dynnu sylw at ffactorau perthnasol y gallai'r BBC ddymuno eu hystyried wrth bostio a chymedroli deunydd ar-lein ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig lle gallai polisïau llwyfan (er enghraifft, canllawiau cymunedol) a systemau (er enghraifft, argymhelliad algorithmig) beri risg i gynulleidfaoedd sy'n ymgysylltu â deunydd ar-lein y BBC.

# Adran Un: Diogelu Plant

3.19 **Egwyddor: Sicrhau bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu.**[18] Mae'r rheolau arfaethedig ar gyfer Adran Un o'r Cod drafft wedi'u cynnwys ar dudalennau 6 i 7 o Atodiad 2.

3.20 Dylid darllen Adran Un ac Adran Dau (Niwed a thramgwydd) o'r Cod drafft gyda'i gilydd.

3.21 O dan Adran Un arfaethedig y Cod drafft, rydym wedi addasu'r dull gweithredu yn y Cod Darlledu i wneud y rheolau hyn yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC. Mae'r egwyddor arweiniol, sef sicrhau bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu, yn cael ei hadlewyrchu mewn dwy reol gyffredinol arfaethedig sy'n mynnu bod y BBC yn gwneud y canlynol:

i. diogelu pobl ifanc dan ddeunaw oed rhag deunydd ar-lein a allai amharu'n ddifrifol ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol;

ii. cymryd pob cam rhesymol a phob cam priodol i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed rhag deunydd anaddas ar-lein.

3.1 Rydym yn credu bod y rheolau cyffredinol hyn sydd wedi'u haddasu yn effeithiol ac yn gymesur ac y byddant yn galluogi'r BBC i ddarparu amddiffyniadau priodol i bobl ifanc dan ddeunaw oed ar eu gwasanaethau ar-lein gyda mwy o hyblygrwydd nag yn y gofod darlledu.

3.2 Nid yw'r rheolau sy'n cyfeirio at amserlennu llinol (er enghraifft, y trothwy ar gyfer teledu) ac sy'n berthnasol i'r cyd-destun darlledu yn unig wedi cael eu hailadrodd yn y Cod drafft.

3.3 O ystyried y mesurau diogelu eang a roddir gan ein dwy reol gyffredinol, rydym yn cynnig peidio ag ailadrodd nifer penodol o reolau rhagnodol o'r Cod Darlledu sydd wedi'u gwreiddio mewn amserlennu darlledu llinol ac sy'n mynd i'r afael yn fanwl â rhai materion thematig mewn cynnwys, fel iaith dramgwyddus, deunydd rhywiol neu noethni.

3.4 Fodd bynnag, rydym yn cynnig ailadrodd rhai rheolau sy'n bodoli i ddiogelu lles a hawliau cyfreithiol pobl dan ddeunaw oed.

## Rheolau'r Cod Darlledu rydym yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Un

3.5 Mae **Rheol arfaethedig 1.1** y Cod drafft yn rheol gyffredinol i wahardd deunydd a allai amharu'n ddifrifol ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl dan ddeunaw oed. Mae hyn yn adlewyrchu Rheol 1.1 y Cod Darlledu, gyda newidiadau angenrheidiol yn berthnasol i

[18] Adran 319(2)(a) o'r Ddeddf. Mae'n rhaid i'r BBC gadw at adran 319 yn unol â pharagraff 3A(2) o Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

ddeunydd ar-lein. Rydym o'r farn bod y rheol hon yn dal yn elfen hanfodol o'r egwyddor i amddiffyn pobl dan ddeunaw oed.

3.6 Mae **Rheol arfaethedig 1.2** yn adlewyrchu geiriad presennol Rheol 1.2 yn y Cod Darlledu, sy'n nodi'r gofyniad bod yn rhaid i ddarlledwyr "gymryd pob cam rhesymol" i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed. Mae **Rheol arfaethedig 1.2** hefyd yn ymgorffori bwriad Rheol 1.3 y Cod Darlledu, sy'n mynnu bod plant (a ddiffinnir yn y cyd-destun darlledu fel "plant dan bymtheg oed") yn cael eu diogelu rhag deunydd anaddas drwy amserlennu priodol. Gan fod amserlennu yn gysyniad llinol, mae'r rheol arfaethedig yn mynnu bod y BBC yn rhoi "mesurau priodol" ar waith i sicrhau bod cynnwys yn briodol i oedran pobl dan ddeunaw oed.

3.1 Mae **Rheolau arfaethedig 1.3** ac **1.4** yn y Cod drafft yn adlewyrchu geiriad presennol Rheolau 1.8 ac 1.9 yn y Cod Darlledu. Mae'r rheolau hyn yn bodoli i ddiogelu lles a hawliau cyfreithiol pobl dan ddeunaw oed sy'n ymwneud ag achosion troseddol neu ymchwiliadau cysylltiedig a allai fod yn cael sylw gan y BBC. Rydym yn credu eu bod yn dal yn bwysig ac yn berthnasol yn yr amgylchedd ar-lein.

3.1 Mae **Rheolau arfaethedig 1.5** i **1.7** y Cod drafft yn ailadrodd Rheolau 1.28 i 1.30 y Cod Darlledu, sy'n mynnu bod gofal dyladwy yn cael ei gymryd dros les ac urddas pobl dan ddeunaw oed sy'n cymryd rhan neu sy'n ymwneud fel arall â rhaglenni, ni waeth am unrhyw ganiatâd a roddir gan y cyfranogwr neu gan riant, gwarcheidwad neu berson arall yn lle rhiant. Mae rheol hefyd ar briodoldeb oedran gwobrau sydd wedi'u hanelu at blant. Rydym o'r farn bod y tair rheol hyn hefyd yn berthnasol yn y cyd-destun ar-lein.

## Gwyro oddi wrth ystyr "plant" yn y rheolau amserlennu darlledu

3.2 Fel sy'n cael ei egluro yn y paragraff canlynol, nid ydym yn cynnig diffinio categorïau oedran ar wahân i sicrhau'r amcan statudol i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed. Mae hyn yn wahanol i'r dull gweithredu o dan y Cod Darlledu, sy'n cynnwys rheolau i ddiogelu "plant" (sy'n cael eu diffinio fel pobl dan bymtheg oed) yn benodol, yn ogystal â rheolau i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed yn fwy cyffredinol. Mae'r trothwy oedran is hwn yn adlewyrchu cyd-destun gwylio teledu traddodiadol, yn enwedig fel profiad teuluol cymunedol yn y cartref, yn ogystal â'r rhwystr oedran tybiannol sy'n diffinio'r "trothwy" teledu 9pm, fel y nodir yn Rheol 1.4 o'r Cod Darlledu.

3.3 Mae'r amgylchedd ar-lein yn wahanol iawn i ddarlledu llinol yn y ffordd mae pobl dan ddeunaw oed yn cael mynediad at gynnwys ac yn cael profiad ohono. Ar gyfer cynnwys sy'n cael ei ddarlledu, y trothwy ac amserlennu llinol yw'r prif ddulliau o ddiogelu pobl ifanc dan bymtheg oed rhag deunydd anaddas, drwy sicrhau bod y cynnwys yn briodol i oedran. Fodd bynnag, mae cynnwys ar-lein ar gael ar unrhyw adeg, ar gael ar draws amrywiaeth eang o ddyfeisiau a phlatfformau a gellir dod ar ei draws drwy chwilio, ar gyfryngau cymdeithasol, drwy argymhellion algorithmig neu drwy rannu uniongyrchol yn hytrach nag amserlenni wedi'u curadu. Mae'r gwahaniaethau hyn yn mynnu, yn y cyd-destun ar-lein, bod diogelu pobl dan ddeunaw oed yn seiliedig ar ddull mwy cynnil o fod yn briodol i oedran ar draws gwahanol gamau datblygiad oedran. Felly, rydym yn cynnig peidio ag adlewyrchu'r diffiniad o "blant" ar gyfer darlledu ar gyfer deunydd ar-lein, a bydd y Cod drafft yn cyfeirio at "bobl dan ddeunaw oed" yn unig.

## Mesurau priodol i ddiogelu pob dan ddeunaw oed

3.4 Yn ein barn ni, gallai mesurau priodol gael eu targedu'n gymesur ar draws amrywiaeth o wahanol grwpiau oedran mewn ffordd nad yw'r rheolau amserlennu yn gallu bod yn bosibl. Rydym o'r farn bod y mesurau hyn yn rhan o'r "camau rhesymol" y mae'n rhaid i'r BBC eu

cymryd i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed rhag deunydd sy'n anaddas iddynt yn yr amgylchedd ar-lein.

3.5 Mae **Rheol arfaethedig 1.2** yn cynnwys rhestr o fesurau a ffactorau cyd-destunol y gallai'r BBC eu hystyried wrth sicrhau bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu rhag deunydd anaddas. Mae'r mesurau hyn ar gyfer diogelu cynulleidfaoedd yn cynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- sgoriau oedran neu systemau dosbarthu cynnwys eraill;
- rhybuddion cynnwys a gwybodaeth;
- rheolaethau rhieni, gan gynnwys gosodiadau modd cyfyngedig, cyfrifon i blant ac amddiffyniad PIN; a
- sicrwydd oedran.

3.6 Nid yw Ofcom yn mandadu nac yn cymeradwyo unrhyw ddull na system benodol ar gyfer gweithredu mesurau amddiffyn cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, rydym wedi nodi rhestr o ffactorau y dylai'r BBC eu hystyried wrth benderfynu ar briodoldeb y mesur. Rydym yn rhagweld y bydd y ffactorau hyn yn helpu i lywio asesiad y BBC o ran pryd a sut orau i osod mesurau o amgylch ei ddeunydd ar-lein mewn ffordd effeithiol a chymesur.

3.7 Mae'r rhestr hon o ffactorau wedi cael ei haddasu o'r rhestr o ffactorau sydd wedi'u cynnwys o dan ystyr "amserlennu priodol" yn y Cod Darlledu, sy'n adlewyrchu'r materion y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried o dan adran 319(4) o'r Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys (ymysg pethau eraill) natur y cynnwys a'r risg bosibl i bobl dan ddeunaw oed, natur y mesur ac i ba raddau y mae'n lliniaru'r risg hon, yn ogystal â'r tebygolrwydd y bydd pobl dan ddeunaw oed yn cael gafael ar y cynnwys a'u hystod oedran tebygol.

3.8 Rydym yn ymwybodol bod gan y BBC amrywiaeth eang ac amrywiol o ddeunydd ar-lein. Er enghraifft, mae gan newyddion a materion cyfoes fudd cyhoeddus pwysig sy'n gyd-destun perthnasol wrth ystyried cynnwys sy'n peri gofid ac yn heriol yn y byd go iawn. Fodd bynnag, mae amcan y safonau yn adran 319(2) y Ddeddf i sicrhau bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu yn golygu bod yn rhaid i ni ddefnyddio'r un egwyddor, yn debyg i'n dull gweithredu ar gyfer darlledu, gyda'r holl ddeunydd ar-lein sydd o fewn cwmpas y Cod drafft. Credwn y bydd y ffactorau arfaethedig i farnu pa mor briodol yw'r mesurau yn Adran Un yn rhoi hyblygrwydd i ganiatáu i'r BBC ystyried natur y cynnwys, natur y llwyfan a disgwyliad tebygol rhieni a gofalwyr, ymysg ffactorau eraill, pan fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch pa fath o gynnwys y byddai angen mesurau priodol arno, a beth ddylai'r mesurau hynny fod.

3.9 Nid yw'r nod o sicrhau bod y BBC yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed rhag deunydd anaddas yn awgrymu bod "un ateb sy'n addas i bawb" ar gyfer pob deunydd. I fod yn glir, ni fyddem yn disgwyl i'r BBC osod gormod o gyfyngiadau neu fesurau heb fod angen, ynghylch newyddion neu faterion cyfoes, a fyddai'n ymddangos yn anghymesur neu'n afresymol yn yr amgylchedd ar-lein. Yn yr un modd ag y mae'r BBC yn gwneud penderfyniadau golygyddol am briodoldeb ei allbwn newyddion a ddarlledir ar draws yr amserlenni teledu a radio llinol, mewn cyd-destun aflinol byddem hefyd yn disgwyl iddo ystyried y ffordd orau o ddefnyddio labelu a/neu fesurau eraill i gefnogi ei gynulleidfa mewn ffordd gynhwysol a phriodol, fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd o dan ei Ganllawiau Golygyddol.

3.10 Er ein bod yn disgwyl i'r BBC barhau i ystyried ei rwymedigaethau o dan y Cod drafft, a'i gyfrifoldeb tuag at rieni a gofalwyr a phobl dan ddeunaw oed, rydym yn cynnig nodi'n fanylach ein dull gweithredu ar gyfer newyddion a materion cyfoes yn y canllawiau. Ein nod

yw defnyddio canllawiau i'w gwneud yn glir y byddai Ofcom yn ystyried mai newyddion a materion cyfoes yw'r math o ddeunydd lle dylid barnu pa mor briodol yw mesurau yng ngoleuni'r disgwyliadau a'r budd penodol i'r cyhoedd sy'n ymwneud â newyddion a materion cyfoes y BBC. Byddwn yn ymgynghori ymhellach â'r BBC ynghylch natur a defnydd ymarferol y rhan hon o'r canllawiau arfaethedig.

## Rheolau'r Cod Darlledu nad ydym yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Un

3.11 Yn dilyn ein cynnig i addasu a chyfuno Rheolau 1.2 ac 1.3 o'r Cod Darlledu yn un rheol arfaethedig (**Rheol 1.2**), yn ein barn ni, mae'r rheol hon yn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu'n ddigonol ar gyfer y mathau o ddeunydd y cyfeirir atynt yn Rheolau 1.10 - 1.21 y Cod Darlledu[19]. Mae'r rheolau hyn yn rhagnodi'r dull penodol y mae'n rhaid i ddarlledwyr ei ddefnyddio ar gyfer deunydd a allai fod yn anaddas mewn: rhaglenni sy'n cael eu darlledu cyn ac ar ôl y trothwy; rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn bennaf ar gyfer plant; a rhaglenni sy'n cael eu darlledu pan fydd plant yn debygol o fod yn gwrando ar y radio. Rhennir y rheolau hyn yn benawdau sy'n adlewyrchu rhestr gynhwysfawr o faterion: Cyffuriau, ysmygu, toddyddion ac alcohol; Trais ac ymddygiad peryglus; Iaith dramgwyddus; Deunydd rhywiol; a Noethni.

3.12 Gan fod yn rhaid i'r Cod drafft gynnwys y safonau sy'n ymddangos i Ofcom sydd orau i sicrhau amcan perthnasol y safonau (bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu), credwn fod **Rheol arfaethedig 1.2** yn cyflawni hyn mewn ffordd ddigonol a chymesur. Drwy nodi'r defnydd o fesurau priodol a ffactorau cyd-destunol y dylai'r BBC eu barnu wrth ddiogelu pobl dan ddeunaw oed rhag deunydd anaddas, nid ydym yn credu bod angen i'r Cod drafft gynnwys yr hyn sy'n cyfateb i Reolau 1.10-1.21 y Cod Darlledu. Felly, rydym yn cynnig peidio ag ailadrodd y rheolau hyn yn y Cod drafft.

3.13 Ein barn ni yw y byddai'n fwy priodol nodi mathau o enghreifftiau o ddeunydd ar-lein anaddas a allai fod yn berthnasol i'r rheol gyffredinol yn y canllawiau. Er mwyn helpu'r BBC i ddehongli **Rheol 1.2**, rydym felly hefyd yn cynnig cynnwys rhestr (heb fod yn gynhwysfawr) yn y canllawiau hyn o ddeunydd a allai fod yn anaddas. Mae'r dull hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC ystyried yr ystod ehangach o niwed posibl i bobl dan ddeunaw oed ar draws gwahanol grwpiau oedran yn yr amgylchedd ar-lein, heb ganolbwyntio'n ormodol ar faterion cynnwys a allai fod yn fwy cyffredin yn y gofod darlledu nag ar wasanaethau ar-lein y BBC, fel deunydd rhywiol neu noethni.

3.14 Mae Rheolau 1.4 - 1.7 y Cod Darlledu yn ymwneud â darlledwyr yn cadw at: y trothwy teledu; adegau pan fydd plant yn debygol iawn o fod yn gwrando ar y radio; y newid i ddeunydd sy'n fwy addas i oedolion ar ôl y trothwy; a darparu gwybodaeth am gynnwys sy'n peri gofid sy'n cael ei ddarlledu cyn y trothwy neu pan fydd plant yn debygol o fod yn gwrando. Nid yw'r rheolau hyn wedi cael eu hailadrodd yn y Cod arfaethedig gan eu bod yn benodol i'r trothwy ac amserlennu teledu a radio. Nid yw'r ystyriaethau hyn yn berthnasol i'r amgylchedd ar-lein.

3.15 Mae Rheolau 1.22 i 1.26 y Cod Darlledu yn rhoi sylw i ffilmiau a mesurau diogelu gorfodol yn ystod y dydd ar wasanaethau darlledu. Nid ydym yn cynnig ailadrodd y rheolau hyn gan eu bod yn benodol i ffilmiau a dosbarthiadau ffilmiau'r BBFC, ac yn ymwneud ag amserlennu a'r trothwy, ac nid ydynt yn uniongyrchol berthnasol i ddeunydd ar-lein. Mewn perthynas â dosbarthu unrhyw ddeunydd a allai warantu labelu, rydym yn credu bod ein **Rheolau**

[19] Y Cod Darlledu, Adran Un: Diogelu pobl dan ddeunaw oed (gweler Rheolau 1.10 – 1.21).

**arfaethedig 1.1 ac 1.2** yn rhoi digon o warchodaeth a hyblygrwydd i'r BBC o ran ei ddull gweithredu ar gyfer mesurau priodol.

3.16 Mae Rheol 1.27 y Cod Darlledu yn ymwneud ag arddangosiadau o ddadreibio, yr ocwlt a'r goruwchnaturiol, ac mae'n mynnu bod darlledwyr yn cyfyngu ar bortreadau o'r fath, yn ogystal ag arferion goruwchnaturiol at ddibenion adloniant, o'r cyfnod amserlennu cyn y trothwy, adegau pan fydd plant yn debygol o fod yn gwrando ar y radio neu lle mae plant yn debygol o gael gafael ar gynnwys. Gan ein bod yn credu bod **Rheol 1.2** gyffredinol y Cod drafft yn ymdrin ag unrhyw niwed posibl i bobl dan ddeunaw oed sy'n deillio o unrhyw bortreadau o'r fath mewn deunydd ar-lein, rydym yn cynnig peidio ag ailadrodd y rheol hon. Rydym wedi mabwysiadu dull tebyg yn Adran Dau yn y Cod drafft mewn perthynas â'r un mater, fel rydym yn egluro ym mharagraff 3.32 isod.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

- **Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer Adran Un?
- **Cwestiwn 2:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein dull gweithredu o adlewyrchu mesurau diogelu perthnasol ar gyfer pobl dan ddeunaw oed yn yr amgylchedd ar-lein?
- **Cwestiwn 3:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ffactorau perthnasol y gallem fod eisiau eu hystyried wrth ddatblygu ein canllawiau ar ddefnyddio'r rheolau hyn?
- **Cwestiwn 4:** Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Un?

# Adran Dau: Niwed a Thramgwydd

3.17 **Egwyddor: sicrhau y bydd y safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cymhwyso at ddeunydd ar-lein y BBC er mwyn diogelu aelodau'r cyhoedd yn ddigonol rhag cynnwys deunydd niweidiol a/neu dramgwyddus.**[20] Mae'r rheolau arfaethedig ar gyfer Adran Dau o'r Cod wedi'u cynnwys ar dudalennau 8 i 10 o Atodiad 2.

3.18 Mae Adran Dau o'r Cod Darlledu yn diogelu aelodau'r cyhoedd rhag deunydd darlledu sydd â'r potensial i achosi niwed a/neu dramgwydd. Rhaid cymhwyso amcan sylfaenol y safonau i ddeunydd ar-lein, fel y bo'n briodol, a chredwn fod y rheolau hyn yn berthnasol i ddeunydd ar-lein. Rydym yn cynnig adlewyrchu'r rheolau hyn yn y Cod drafft. Rydym wedi addasu ystyron i adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein yn well ac nid ydym wedi ailadrodd rheolau lle nad ydynt yn berthnasol i ddeunydd ar-lein neu lle maent yn cael eu cwmpasu'n ddigonol gan y rheolau cyffredinol.

## Rheolau'r Cod Darlledu rydym yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Dau

### Safonau a dderbynnir yn gyffredinol

3.19 Rydym yn cynnig y dylai **Rheolau 2.1, 2.2 a 2.3** y Cod drafft adlewyrchu geiriad eu Rheolau 2.1, 2.2 a 2.3 cyfatebol yn y Cod Darlledu.

3.20 Mae **Rheol arfaethedig 2.1** yn mynnu bod y safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cymhwyso at ddeunydd ar-lein er mwyn diogelu aelodau'r cyhoedd yn ddigonol rhag cynnwys deunydd niweidiol a/neu dramgwyddus. Rydym wedi trosglwyddo'r rhwymedigaeth gan fod amcan y safonau sylfaenol yn berthnasol i ddeunydd ar-lein fel y mae i ddarlledu.

[20] Adran 319(2)(f) o'r Ddeddf

3.21 Mae **Rheol arfaethedig 2.2** yn mynnu nad yw deunydd neu bortreadau o faterion ffeithiol yn camarwain y gynulleidfa'n sylweddol. Mae'r rheol darlledu gyfatebol wedi'i chynllunio i ddelio â chynnwys sy'n camarwain y gynulleidfa'n sylweddol er mwyn achosi niwed a thramgwydd ac mae'r un rhesymeg yn berthnasol i ddeunydd ar-lein. Felly rydym yn cynnig adlewyrchu'r rheol hon yn y Cod drafft. Pan fydd y Cod Darlledu yn cyfeirio at "raglenni neu eitemau ffeithiol", rydym yn cynnig addasu hyn a defnyddio'r term "deunydd ffeithiol" i adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein.

3.22 Mae'r **Rheol arfaethedig 2.3** yn mynnu bod yn rhaid i'r BBC, wrth gymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol, sicrhau bod deunydd a allai achosi tramgwydd yn cael ei gyfiawnhau gan y cyd-destun, ac y dylid cyhoeddi gwybodaeth briodol hefyd lle byddai hynny'n helpu i osgoi neu leihau tramgwydd. Mae'r un rhesymeg dros ddyblygu'r geiriad hwn o'r Cod Darlledu yn berthnasol i'r rheol hon ag ar gyfer Rheol 2.1 a Rheol 2.2.

3.23 Mae Adran Dau o'r Cod drafft yn cynnwys rhestr anghyflawn o ffactorau cyd-destunol a fydd yn berthnasol i'n hystyriaeth o **Reol 2.3** (a rheolau eraill sy'n gofyn am ystyried cyd-destun) ac sy'n adlewyrchu ac yn adeiladu ar faterion sy'n ymwneud â chyd-destun y mae'n rhaid i Ofcom roi sylw iddynt o dan adran 319(4) o'r Ddeddf.[21] Yn y Cod Darlledu, mae "cyd-destun" perthnasol yn cynnwys elfennau sy'n nodweddiadol o amgylcheddau darlledu llinol ar gyfer nifer o ddarlledwyr (neu wasanaethau). Mae'r rhain yn cynnwys: y gwasanaeth y darlledir y deunydd arno; amser y darllediad; amserlennu; cyfagosrwydd rhaglenni; a natur y gwasanaeth. Dim ond pan fyddant yn berthnasol i wasanaethau darlledu sy'n gweithredu o fewn amserlen linol sy'n seiliedig ar amser y mae'r ffactorau hyn yn berthnasol. Felly, nid ydym wedi trosglwyddo'r ffactorau cyd-destunol penodol hyn o'r Cod Darlledu.

3.24 Rydym hefyd yn cynnig cynnwys ffactorau cyd-destunol newydd rydym yn credu sy'n berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC wrth asesu a gydymffurfiwyd â **Rheol 2.3** (a rheolau eraill sy'n gofyn am ystyried cyd-destun). Mae'r ffactorau cyd-destunol newydd hyn yn cynnwys: fformat a math yr eitem ar-lein; y ffordd y bydd y cynnwys yn cael ei gyflwyno a sut bydd pobl yn dod ar ei draws; oedran y deunydd; ac am ba hyd y mae'r deunydd ar gael. Wrth gynnig y ffactorau cyd-destunol newydd hyn, rydym wedi ystyried y materion a nodir yn Adran 368HH o'r Ddeddf[22] mewn perthynas â safonau ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw Haen 1. Mae'r rhain wedi cael eu dylunio i fod yn berthnasol i'r amgylchedd ar-alw aflinol, sy'n debyg i'r amgylchedd ar-lein. Felly, rydym o'r farn bod materion fel oedran y cynnwys ac am faint o amser mae ar gael hefyd yn berthnasol i ddeunydd ar-lein.

3.25 Mae'r ffactorau hyn yn adlewyrchu sut mae cynulleidfaoedd yn darganfod ac yn defnyddio deunydd ar-lein y BBC drwy, er enghraifft, chwilio, rhannu cymdeithasol, ffrydiau awtochwarae, rhyngwynebau apiau, dolenni allanol, darnau rhannol (clipiau, mân-luniau, penawdau ac ati). Mae hefyd yn adlewyrchu natur dameidiog deunydd ar-lein o ran math a fformat (er enghraifft, gall cynnwys ymddangos mewn sawl ffurf amlfoddol gan gynnwys: erthyglau llawn; clipiau wedi'u hymgorffori; fersiynau byr; negeseuon cymdeithasol; addasiadau penodol i lwyfannau; a/neu benawdau heb destun corff cysylltiedig), yn ogystal â'r ffaith bod deunydd ar-lein yn dal ar gael am gyfnod amhenodol, ac y gellir ei gywiro, ei ddiwygio a'i ail-bostio.

---

[21] Nid yw hon yn rhestr unigryw o faterion, gan fod Adran 319(4) o'r Ddeddf yn datgan bod y rhain yn faterion y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried yn benodol ac i'r graddau y mae'n ymddangos iddo eu bod yn berthnasol i sicrhau amcanion y safonau.

[22] Adran 368(HH) o'r Ddeddf

## Trais ac ymddygiad peryglus

3.26 Mae **Rheol arfaethedig 2.4** y Cod drafft yn ymwneud â deunydd sy'n cymeradwyo neu'n glamoreiddio ymddygiad treisgar neu beryglus neu wrthgymdeithasol difrifol ac sy'n debygol o annog eraill i efelychu ymddygiad o'r fath. Rydym yn cynnig na ddylid cynnwys deunydd o'r fath yn neunyddiau ar-lein y BBC. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon tebyg ym maes darlledu ynghylch y risgiau ehangach i'r cyhoedd yn sgil ymddygiad treisiol neu wrthgymdeithasol a allai ddeillio o gynnwys a allai fod yn niweidiol. Felly, rydym yn cynnig adlewyrchu'n fras eiriad y Rheol 2.4 cyfatebol o'r Cod Darlledu sy'n gwahardd y math hwn o ddeunydd mewn rhaglenni. Rydym yn cynnig addasu'r rheol honno ychydig i gael gwared ar "raglenni" a chadw "deunyddiau" fel bod y rheol arfaethedig yn briodol i'r amgylchedd ar-lein.

## Hunanladdiad a hunan-niwed

3.27 Mae **Rheol arfaethedig 2.5** y Cod drafft yn gwahardd cynnwys dulliau hunanladdiad a hunan-niwed mewn deunydd ar-lein, ac eithrio lle mae cyfiawnhad golygyddol drostynt a lle mae'r cyd-destun hefyd yn eu cyfiawnhau. Oherwydd y gallai'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r niwed hwn gael eu gwaethygu mewn amgylchedd ar-lein, lle gall person ymgysylltu â'r math hwn o ddeunydd yn aml, dro ar ôl tro ac ar ei ben ei hun, rydym yn cynnig adlewyrchu'r diogelwch penodol hwn a throsglwyddo'r Rheol 2.5 cyfatebol o'r Cod Darlledu. Yn yr un modd ag enghreifftiau eraill yn y Cod drafft, rydym yn cynnig addasu'r rheol honno a defnyddio "deunydd ar-lein" yn lle "rhaglenni" er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein. O ystyried pwysigrwydd y rheol hon ar gyfer deunydd ar-lein, rydym hefyd yn cynnig newid bach i ddull y Cod Darlledu drwy gynnwys pennawd penodol sy'n tynnu sylw at y mater sy'n cael sylw yn y rheol arfaethedig, sef "Hunanladdiad a hunan-niwed".

## Epilepsi ffotosensitif

3.28 Mae'r **Rheol arfaethedig 2.6** yn ailadrodd Rheol 2.12 (Epilepsi Ffotosensitif) o'r Cod Darlledu, sy'n ceisio diogelu pobl ag epilepsi ffotosensitif. Fodd bynnag, rydym wedi dileu'r cyfeiriad penodol at ganllawiau Ofcom mewn perthynas â delweddau sy'n fflachio gan ein bod yn cydnabod bod deunydd ar-lein y BBC yn cael ei gyrchu drwy amrywiaeth eang o ddyfeisiau a fformatau, ac efallai na fydd canllawiau Ofcom i ddarlledwyr yn berthnasol yn yr amgylchedd ar-lein. Yn ein barn ni, mae'r hepgoriad hwn yn osgoi baich rheoleiddio diangen ar yr un pryd â diogelu defnyddwyr ag epilepsi ffotosensitif yn briodol.

## Cystadlaethau a phleidleisio

3.29 Mae'r **Rheolau arfaethedig 2.7 a 2.8** yn cael eu trosglwyddo o Reolau 2.13 a 2.15 y Cod Darlledu sy'n ymwneud â Chystadlaethau a Phleidleisio.

a) Mae **Rheol 2.7** wedi'i chynllunio i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag y niwed a allai ddeillio o gystadlaethau annheg neu ymarferion pleidleisio.

b) Mae **Rheol 2.8** yn mynnu bod y BBC yn llunio rheolau clir a thryloyw ar gyfer cystadleuaeth neu bleidlais er mwyn sicrhau bod y gynulleidfa'n penderfynu cymryd rhan ar sail gwybodaeth.

3.30 Rydym o'r farn bod y ddwy reol yn berthnasol mewn cyd-destun ar-lein ac rydym yn cynnig eu cynnwys gydag addasiadau angenrheidiol i gyfeirio at bleidleisio a chystadlaethau "ar-lein".[23]

[23] Edrychwch ar baragraff 3.36 isod i weld rheolau cystadleuaeth neu bleidleisio ar gyfer darlledu nad ydym yn bwriadu eu hadlewyrchu yn y Cod drafft (pleidleisio neu gystadlaethau sy'n camarwain yn sylweddol a chywirdeb wrth ddisgrifio gwobrau cystadlaethau a ddarlledir).

## Rheolau'r Cod Darlledu nad ydym yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Dau

3.31 Rydym yn cynnig peidio â throsglwyddo Rheolau 2.6 i 2.11 o'r Cod Darlledu i'r Cod drafft. Fel rydym wedi'i ddweud yn ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y Cod drafft, pan fyddwn yn gweld nad yw rhai rheolau darlledu yn berthnasol nac yn angenrheidiol i sicrhau amcan y safonau fel y mae'n berthnasol i ddeunydd ar-lein, rydym yn cynnig peidio ag ailadrodd y rheolau hynny. Rydym hefyd wedi dweud yn ein dull gweithredu arfaethedig, lle rydym yn credu y gallai rheol gyffredinol mewn unrhyw adran ddiogelu deunydd ar-lein yn ddigonol, rydym yn cynnig peidio â chadw'r rheol fwy penodol neu ragnodol. Rydym yn defnyddio'r rhesymeg hon gyda rheolau'r Cod Darlledu rydym yn cynnig peidio â'u hadlewyrchu yn Adran Dau o'r Cod drafft isod.

3.32 Cafodd Rheolau 2.6, 2.7 a 2.8 y Cod Darlledu (Arddangosiadau o ddadreibio, yr ocwlt a'r goruwchnaturiol) eu datblygu ar gyfer cyd-destun darlledu penodol, lle'r oedd genres a oedd yn cynnwys arddangosiadau goruwchnaturiol neu ocwlt yn fwy cyffredin ac a allai beri risg o niwed a/neu gamarwain cynulleidfaoedd. Nid yw cynnwys o'r fath yn nodwedd reolaidd yn neunydd ar-lein y BBC, sydd o natur ffeithiol, golygyddol a newyddion yn bennaf. O ganlyniad, rydym o'r farn bod y tebygolrwydd y bydd pobl yn dod ar draws y math hwn o ddeunydd yn isel ac, os bydd unrhyw niwed posibl, byddai hyn yn cael sylw o dan **Reolau arfaethedig 2.1 a 2.2** ac Adran Un yn ehangach.

3.33 Cafodd Rheol 2.9 y Cod Darlledu (Hypnotiaeth) ei throsglwyddo'n wreiddiol o hen Godau ar sail ragofalus.[24] Mae'r rheol hon yn mynd i'r afael â'r lefel briodol o gyfrifoldeb sy'n ofynnol mewn deunydd sy'n arddangos technegau hypnotig. Mae'r sail resymegol dros beidio ag adlewyrchu'r rheol hon ar gyfer deunydd ar-lein yr un fath â'r hyn a nodir ym mharagraff 3.31.

3.34 Mae Rheol 2.10 (Newyddion dynwaredol) y Cod Darlledu yn rhoi sylw i newyddion dynwaredol (er enghraifft, mewn dramâu neu mewn rhaglenni dogfen) sy'n cael eu darlledu yn y fath fodd fel nad oes posibilrwydd rhesymol y bydd y gynulleidfa'n cael ei chamarwain i gredu eu bod yn gwylio neu'n gwrando ar newyddion go iawn. Mae'r un rhesymeg a nodir ym mharagraff 3.31 yn berthnasol i'n cynnig i beidio â throsglwyddo'r rheol hon i ddeunydd ar-lein y BBC.

3.35 Mae Rheol 2.11 yn y Cod Darlledu yn nodi bod yn rhaid i ddarlledwyr beidio â defnyddio technegau sy'n manteisio ar y posibilrwydd o gyfleu neges isganfyddol i wylwyr neu wrandawyr, neu o ddylanwadu ar eu meddwl fel arall heb iddynt fod yn ymwybodol, neu'n llwyr ymwybodol, o'r hyn sydd wedi digwydd. Mae'r rhesymeg a nodir ym mharagraff 3.31 hefyd yn berthnasol yma, er bod Rheol 2.11 o'r Cod Darlledu hefyd yn seiliedig ar amcan safonau nad oes angen ei sicrhau ar gyfer deunydd ar-lein y BBC o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.[25]

3.36 Nid ydym yn bwriadu trosglwyddo Rheolau 2.14 (cystadlaethau/pleidleisio camarweiniol) a Rheol 2.16 (disgrifiad cywir o wobrau) o'r Cod Darlledu. Mae'r ddwy reol hyn yn mynd i'r afael â'r risg o niwed i'r gynulleidfa sy'n deillio o wybodaeth ffeithiol gamarweiniol mewn

[24] Ymgynghoriad ar God Darlledu arfaethedig Ofcom (2004).

[25] Edrychwch ar adran 319(2)(l) o'r Ddeddf, sy'n gofyn, mewn perthynas â gwasanaethau radio a theledu, nad yw technegau'n cael eu defnyddio sy'n manteisio ar y posibilrwydd o gyfleu neges i wylwyr neu wrandawyr, neu o ddylanwadu ar eu meddwl fel arall heb iddynt fod yn ymwybodol, neu'n llwyr ymwybodol, o'r hyn sydd wedi digwydd.

cystadlaethau neu bleidleisiau. Mae fformatau cystadleuaeth ar-lein y BBC yn gyfyngedig ac fel arfer yn cael eu rheoli gan delerau cystadleuaeth a gyhoeddir. Felly rydym o'r farn y byddai ailadrodd y rheolau hyn yn arwain at ddyblygu diangen. Rydym hefyd o'r farn bod y niwed hwn eisoes yn cael sylw gan y **Rheolau 2.1 a 2.2** cyffredinol arfaethedig.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

- **Cwestiwn 5**: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer Adran Dau?
- **Cwestiwn 6:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y rhestr arfaethedig o ffactorau cyd-destunol (nad ydynt yn gynhwysfawr) a restrir o dan "ystyr cyd-destun" yn Adran Dau?
- **Cwestiwn 7**: Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Dau?

# Adran Tri: Trosedd, Anhrefn, Casineb a Chamdriniaeth

3.37 **Egwyddor: nid yw deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn wedi'i gynnwys;[26] a bod safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu defnyddio gyda Deunydd Ar-lein y BBC er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd tramgwyddus a niweidiol.**[27] Mae'r rheolau arfaethedig ar gyfer Adran Tri o'r Cod wedi'u cynnwys ar dudalennau 11 i 13 o Atodiad 2.

3.38 Mae amcanion y safonau hyn yn berthnasol i ddeunydd ar-lein, ac rydym yn credu bod y mesurau diogelu a roddir drwy bob un o'r rheolau yn Adran Tri o'r Cod Darlledu yn berthnasol iawn yn yr amgylchedd ar-lein. Felly, rydym yn cynnig adlewyrchu'r rheolau hyn heb unrhyw newidiadau sylweddol ar gyfer Adran Tri o'r Cod drafft. Yn fwy penodol, fodd bynnag, rydym yn cynnig addasu rhywfaint o'r iaith ac addasu rhai ystyron er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein yn well, fel y bo'n briodol.

3.39 Mae Adran Tri o'r Cod drafft yn nodi rhai diffiniadau allweddol o derfysgaeth, "iaith casineb", "trosedd", "anhrefn" ac "yn debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn" sy'n cyd-fynd yn fras â'r diffiniadau yn y Cod Darlledu.

## Rheolau'r Cod Darlledu rydym yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Tri

3.40 Mae **Rheol arfaethedig 3.1** y Cod drafft yn gwahardd deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn rhag cael eu cynnwys mewn deunydd ar-lein y BBC. Mae hyn yn efelychu Rheol 3.1 yn y Cod Darlledu, gyda'r addasiad angenrheidiol i adlewyrchu'r amgylchedd ar-lein.

3.41 Mae'r Adran hon yn cynnwys rhestr anghyflawn o ffactorau cyd-destunol sylweddol sy'n berthnasol wrth i ni ystyried **Rheol arfaethedig 3.1**. Wrth nodi'r ffactorau arfaethedig hyn, rydym unwaith eto wedi adlewyrchu geiriad y Cod Darlledu, gydag addasiadau angenrheidiol i gyd-fynd ag amgylchedd ar-lein y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys:

- diben golygyddol yr eitem ar-lein;
- statws neu safle unrhyw un sy'n ymddangos yn y deunydd; a/neu
- a oes digon o her yn cael ei ddarparu i'r deunydd.

[26] Adran 319(2)(b) o'r Ddeddf.
[27] Adran 319(2)(f) o'r Ddeddf.

3.42 O ystyried y gall deunydd ar-lein gynnwys nifer o eitemau ar-lein amrywiol a darniog y gallai'r gynulleidfa ddod ar eu traws mewn gwahanol ffyrdd, rydym yn cydnabod y gallai'r ffactorau cyd-destunol hyn weithredu'n eithaf gwahanol i'r amgylchedd darlledu yn ymarferol. Felly, byddwn yn ystyried pa ganllawiau allai fod yn ddefnyddiol i gefnogi'r BBC a chynulleidfaoedd i ddeall sut gallai'r ffactorau cyd-destunol hyn weithio'n ymarferol ar gyfer deunydd ar-lein y BBC.

3.43 Gan fod gwahanol fathau o ddeunydd ar-lein, fel erthyglau testun neu glipiau fideo, bydd y canllawiau'n rhoi rhagor o fanylion am sut dylid asesu ffactorau cyd-destunol, fel "diben golygyddol", "statws neu safle unrhyw un dan sylw" ac y "cynigir digon o her", ar gyfer eitemau ar-lein. Byddwn hefyd yn ystyried a allai fod yn ddefnyddiol i'r canllawiau awgrymu ffactorau cyd-destunol eraill a allai hefyd fod yn berthnasol mewn amgylchedd ar-lein.

3.44 Rydym yn trafod y diffiniad o "eitem ar-lein" yn fanylach isod ym mharagraff 3.80 mewn perthynas ag Adran Pump.

3.45 Mae **Rheol arfaethedig 3.2** (iaith casineb) a **Rheol arfaethedig 3.3** (triniaeth ddifrïol neu ddirmygus) yn adlewyrchu amcan y safonau o ran diogelu aelodau'r cyhoedd yn ddigonol rhag cynnwys deunydd tramgwyddus a niweidiol. Yn yr un modd â'r Cod Darlledu, mae'r rheolau hyn wedi'u cynllunio i ddiogelu pobl rhag iaith casineb a rhag trin unigolion, grwpiau, crefyddau neu gymunedau'n ddifrïol neu'r ddirmygus. O dan y rheolau arfaethedig, ni ddylid cynnwys deunydd sy'n cynnwys yr elfennau hyn yn neunydd ar-lein y BBC ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn cyfiawnhau hynny. Rydym yn credu bod y rheolau hyn yn berthnasol iawn i'r amgylchedd ar-lein.

3.46 Mae rheolau cyfatebol y Cod Darlledu yn cynnwys rhestr (nad yw'n gynhwysfawr) o ffactorau cyd-destunol a fydd yn berthnasol wrth i ni ystyried **Rheolau 3.2 a 3.3**. Gan ddefnyddio'r ffactorau yn adran 319(4), rydym wedi nodi rhestr wedi'i haddasu, nad yw'n gynhwysfawr, o ffactorau cyd-destunol allweddol i helpu i egluro ystyr "cyd-destun" wrth gymhwyso'r rheolau hyn i ddeunydd ar-lein.[28]

3.47 Rydym yn cydnabod gwerth budd y cyhoedd mewn newyddion a materion cyfoes a, phan fydd y math hwn o ddeunydd yn cael ei ystyried o dan y rheolau hyn, byddem yn ystyried pwysigrwydd genre a chyd-destun golygyddol eitem ar-lein o'r fath (neu gyfres o eitemau wedi'u cymryd gyda'i gilydd). Fel rydym wedi'i wneud gyda drama, comedi neu ddychan, rydym yn cynnig cynnwys newyddion a materion cyfoes fel enghraifft ychwanegol o genre o'r fath lle gallai fod cyfiawnhad golygyddol dros gynnwys safbwyntiau heriol neu eithafol.

3.48 Y Ffactorau cyd-destunol eraill rydym yn cynnig eu cynnwys yw: i ba raddau mae digon o her yn cael ei chynnig; statws neu safle unrhyw un sy'n ymddangos yn y deunydd; y ffordd mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno a'i ganfod; natur mynediad i'r cyd-destun; a maint a chyfansoddiad tebygol a disgwyliadau tebygol y gynulleidfa. Mae'r ffactorau hyn yn adlewyrchu ystyriaethau presennol yn y Cod Darlledu sy'n dal yn berthnasol i'r amgylchedd ar-lein, gyda rhai addasiadau i adlewyrchu'r newid o ddarlledu. Fel y cyfeirir ato eisoes yn yr adran hon, rydym yn cynnig defnyddio canllawiau i roi manylion ynghylch sut gallai'r rhain, a ffactorau eraill, weithio'n ymarferol ar gyfer deunydd ar-lein.

3.49 Mae'r **Rheolau arfaethedig 3.4 i 3.8** yn ymwneud â phortreadau o droseddu ac achosion troseddol. Maent yn adlewyrchu'n fras y rheolau cyfatebol yn y Cod Darlledu, gan addasu

---

[28] Rydym wedi ystyried y materion a nodir yn Adran 319(4) o'r Ddeddf wrth gynnig y rhestr hon o ffactorau cyd-destunol. Mae'r rhestr anghyflawn o ffactorau cyd-destunol yn Adran Tri o'r Cod drafft yn Atodiad 2.

terminoleg i ddeunydd ar-lein, gan ein bod o'r farn bod y mesurau diogelu hyn yr un mor berthnasol mewn cyd-destun ar-lein.

3.50 Mae **Rheol arfaethedig 3.4** yn gwahardd rhag deunydd ar-lein, unrhyw ddisgrifiadau neu arddangosiadau o dechnegau troseddol sy'n cynnwys manylion hanfodol a allai arwain at droseddu, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hynny.

3.51 Mae **Rheol arfaethedig 3.5** yn gwahardd gwneud taliadau uniongyrchol neu anuniongyrchol i droseddwyr sydd wedi cyfaddef i drosedd neu a gafwyd yn euog o drosedd mewn cysylltiad â'u cyfraniad at gynhyrchu deunydd ar-lein sy'n ymwneud â'u trosedd(au). Yr unig eithriad yw pan fydd hynny er budd y cyhoedd.

3.52 Mae **Rheolau arfaethedig 3.6 a 3.7** yn adlewyrchu cyfyngiadau ar dalu troseddwyr sydd wedi cyfaddef i drosedd neu a gafwyd yn euog o drosedd am gyfraniad at raglen, yn ogystal â thystion mewn achosion gweithredol ac unigolion y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddod yn dystion. Bwriad y rheolau hyn yw amddiffyn uniondeb y broses cyfiawnder troseddol a thegwch achosion.

3.53 Mae **Rheol arfaethedig 3.8** yn mynnu bod y BBC yn gwneud pob ymdrech i beidio â phostio deunydd a allai beryglu bywydau neu arwain at ymdrechion llwyddiannus i ddelio ag achos o gipio neu herwgipio.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

- **Cwestiwn 8**: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer Adran Tri?
- **Cwestiwn 9**: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynnig i ddefnyddio canllawiau i helpu i egluro sut gallai ffactorau cyd-destunol sy'n ymwneud â Rheolau 3.1, 3.2 a 3.3 fod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein? A oes unrhyw feysydd eraill yn Adran Tri y credwch y gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol eu hategu â chanllawiau?
- **Cwestiwn 10**: Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Tri?

## Adran Pedwar: Crefydd

3.54 **Egwyddor: sicrhau bod y BBC yn arfer cyfrifoldeb priodol mewn perthynas â deunydd ar-lein sy'n eitemau crefyddol ar-lein[29]; nad yw eitemau crefyddol ar-lein yn camfanteisio ar unrhyw deimladau sydd gan y gynulleidfa[30]; ac nad yw barnau a chredoau crefyddol y rheini sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol yn cael eu trin yn ddifrïol.**[31] Mae'r rheolau arfaethedig ar gyfer Adran Pedwar y Cod wedi'u cynnwys ar dudalen 14, Atodiad 2.

3.55 Mae amcanion y safonau a'r darpariaethau penodol sydd eu hangen i'w gyflawni sy'n sail i Adran Pedwar o'r Cod Darlledu yn berthnasol i ddeunydd ar-lein, gan eu bod yn darparu mesurau diogelu pwysig i gynulleidfaoedd. Rydym hefyd yn credu y dylid adlewyrchu'r amcanion hyn fel tair rheol gyffredinol arfaethedig yn y Cod drafft a fyddai, yn ein barn ni, yn diogelu cynulleidfaoedd ar-lein yn ddigonol ac mewn ffordd gymesur.

3.56 Ar gyfer y rheolau arfaethedig yn Adran Pedwar, rydym yn cynnig addasu'r term "rhaglenni crefyddol" o amcan y safonau i gyd-fynd â'r amgylchedd ar-lein drwy gyfeirio at "eitemau

[29] Adran 319(2)(e) o'r Ddeddf.
[30] Adran 319(6)(a) o'r Ddeddf.
[31] Adran 319(6)(b) o'r Ddeddf.

crefyddol ar-lein" sef eitemau ar-lein[32] sy'n delio â materion crefyddol fel prif bwnc yr eitem, neu fel rhan sylweddol ohoni.

3.57 Mae hyn yn golygu na fyddai'r adran hon o'r Cod yn berthnasol i eitem ar-lein sy'n cynnwys deunydd defosiynol, gweithred addoli neu fyfyrio gweddïol yn unig, ond y byddai hefyd yn cynnwys mathau eraill o ddeunydd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, materion cyfoes neu gynnwys hanes lle mae crefydd neu gred yn rhan sylweddol o'r eitem.

3.58 Nid yw'r math hwn o ddeunydd yn nodweddiadol o allbwn ar-lein y BBC, felly ychydig iawn o eitemau crefyddol ar-lein rydym yn disgwyl i'r rheolau arfaethedig hyn eu cynnwys. Fel rydym yn egluro ym mharagraffau 3.62 i 3.65 isod, nid ydym yn cynnig adlewyrchu'r rheolau yn Adran Pedwar o'r Cod Darlledu sy'n mynd i'r afael â phryderon neilltuol iawn sy'n ymwneud yn arbennig â mathau penodol o raglenni arbenigol ar wasanaethau darlledu. Rydym o'r farn y gellir mynd i'r afael ag unrhyw faterion o'r fath o dan Reolau arfaethedig 4.1, 4.2 a 4.3 ac Adran Un y Cod. Rydym o'r farn y bydd y dull hwn yn ddigon i sicrhau bod y BBC yn arfer ei gyfrifoldebau priodol dros eitemau crefyddol ar-lein a bod cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu rhag camfanteisio a thriniaeth ddifrïol oherwydd eu barn a'u credoau crefyddol.

## Rheolau'r Cod Darlledu rydym yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Pedwar

3.59 Mae **Rheol arfaethedig 4.1** yn adlewyrchu amcan y safonau bod y BBC yn arfer y lefel briodol o gyfrifoldeb mewn perthynas â chynnwys ar-lein sy'n cael ei ystyried yn eitem grefyddol ar-lein. Mae'r rheol arfaethedig hon yn dyblygu Rheol 4.1 sy'n cyfateb yn y Cod Darlledu, gan ein bod yn credu bod yr egwyddor yr un mor bwysig o ran diogelu cynulleidfaoedd yn yr amgylchedd ar-lein.

3.60 Mae **Rheol arfaethedig 4.2** yn adlewyrchu un o'r darpariaethau a nodir o dan adran 319(6) sydd wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw eitemau crefyddol ar-lein yn ymwneud â thrin mewn modd difrïol safbwyntiau a chredoau crefyddol y rheini sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol. Mae hyn yn ofynnol yn benodol er mwyn cyflawni amcan y safonau a nodir uchod ac mae'n adlewyrchu Rheol 4.2 y Cod Darlledu yn agos. Wrth ystyried "trin crefyddau mewn modd difrïol", mae Ofcom yn disgwyl mabwysiadu dull tebyg o ymdrin â deunydd i'r un o dan Reol 3.3 (gweler paragraff 3.45). Byddem, er enghraifft, yn ystyried a oedd y deunydd yn cynnwys datganiadau a oedd yn ceisio sarhau safbwyntiau crefyddol a safbwyntiau sy'n perthyn i grefydd neu enwad penodol, eu beirniadu'n ffyrnig neu ymosod arnynt, heb gyfiawnhad digonol gan y cyd-destun.

3.61 Mae **Rheol arfaethedig 4.3** yn adlewyrchu'r ddarpariaeth arall a nodir o dan adran 319(6) sydd wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw eitemau crefyddol ar-lein yn camfanteisio ar unrhyw deimladau sydd gan y gynulleidfa sydd hefyd yn ofynnol yn benodol i gyflawni amcan y safonau a nodir uchod. Mae'n adlewyrchu Rheol 4.6 y Cod Darlledu yn agos, gan ein bod yn credu bod gwendidau posibl cynulleidfaoedd yn yr amgylchedd ar-lein yn gwneud hon yn rheol bwysig i'w throsglwyddo i'r Cod drafft.

## Rheolau'r Cod Darlledu nad ydym yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Pedwar

3.62 Mae gan y Cod Darlledu reolau ar nodi crefyddau neu enwadau penodol ar gyfer y gynulleidfa wrth ddelio â phynciau crefyddol (Rheol 4.3), gwahardd hyrwyddo barn neu gredoau

[32] Gweler y diffiniad o "eitem ar-lein" yn Adran Pump.

crefyddol yn llechwraidd (Rheol 4.4), gwahardd “ceisio recriwtio” i grefyddau ar rai rhaglenni (Rheol 4.5) a diogelu plant rhag rhaglenni crefyddol sy’n cynnwys honiadau bod gan bobl sy’n fyw bwerau arbennig (Rheol 4.7).

3.63 Er bod y rheolau hyn yn berthnasol i bob darlledwr sy’n cael ei drwyddedu gan Ofcom, ein barn ni yw bod natur y materion y mae’r rheolau’n mynd i’r afael â nhw yn deillio o bryderon neilltuol am fathau penodol o raglenni arbenigol (er enghraifft rhaglen grefyddol sydd wedi’i hanelu at grefyddau penodol). Efallai na fydd yr un pryderon mor briodol i’w nodi mor fanwl o ran y genhadaeth a’r dibenion cyhoeddus[33] sy’n sail i ddeunydd ar-lein y BBC, ac efallai na fydd y materion mor berthnasol i gynulleidfa ar-lein eang ac amrywiol iawn y BBC chwaith.

3.64 Felly, rydym yn cynnig peidio ag ailadrodd Rheolau 4.3, 4.4, 4.5 a 4.7 y Cod Darlledu. Rydym o’r farn bod unrhyw niwed posibl y byddai’r rheolau hyn yn diogelu cynulleidfaoedd rhagddo eisoes yn cael sylw digonol o dan **Reolau arfaethedig 4.1, 4.2 a 4.3**, yn ogystal ag **Adran Un** y Cod. Byddwn yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein dull gweithredu arfaethedig wrth ystyried a allai fod yn ddefnyddiol darparu canllawiau ychwanegol i’r BBC ar y rheolau hyn.

3.65 Yn bwysig, yn yr un modd â’r Cod Darlledu, nid yw’r Cod drafft yn gwahardd beirniadaeth ddilys o unrhyw grefydd na’i sylfaenydd. Mae hyn yn golygu bod lle i ddadl grefyddol ac i ddilynwyr un grefydd feirniadu crefyddau eraill, ar yr amod nad yw beirniadaeth o’r fath yn gyfystyr â cham-drin difrïol.

**Cwestiynau’r Ymgynghoriad**

- **Cwestiwn 11**: Ydych chi’n cytuno â dull gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer Adran Pedwar?
- **Cwestiwn 12**: Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Pedwar?

# Adran Pump: Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy

3.66 **Egwyddorion: sicrhau bod Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y BBC yn y DU sy’n newyddion, ym mha bynnag ffurf, yn cael ei adrodd gyda chywirdeb dyladwy a’i gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy; ac y cydymffurfir â gofynion y Ddeddf o ran didueddrwydd arbennig.** Mae’r rheolau arfaethedig ar gyfer Adran Pump wedi’u cynnwys ar dudalennau 15 i 17 yn Atodiad 2.

3.67 Mae’r gofynion yn amcanion y safonau wedi’u hen sefydlu yn allbwn newyddion darlledu’r BBC ac mae’r BBC yn dal ei allbwn newyddion ar-lein i’r safonau hyn ei hun drwy Ganllawiau Golygyddol y BBC. Rydym o’r farn y byddai cyflwyno gofynion sylweddol wahanol yn y Cod felly’n debygol o greu baich rheoleiddio ychwanegol a diangen i’r BBC.

3.68 Felly, rydym yn cynnig adlewyrchu’r holl reolau yn Adran Pump o’r Cod Darlledu, ond gan gynnwys rhai addasiadau arfaethedig i iaith a diffiniadau, fel y bo’n briodol, er mwyn ystyried yr amgylchedd ar-lein a nodweddion fel ei natur aml-fformat, aflinol a deinamig.

[33] Cenhadaeth, gwerthoedd a dibenion cyhoeddus y BBC (fel y’u cynhwysir yn y Siarter Frenhinol).

## Rheolau a diffiniadau'r Cod Darlledu rydym yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Pump

### Ystyr "didueddrwydd dyladwy"

3.69 Mae'r Cod deunydd ar-lein drafft yn cynnwys diffiniad o "ddidueddrwydd dyladwy" sy'n adlewyrchu'r diffiniad yn y Cod Darlledu, ond gydag addasiadau cyfyngedig i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol mewn amgylchedd ar-lein. Rydym wedi cadw'r geiriad "mae didueddrwydd ei hun yn golygu peidio â ffafrio un ochr yn fwy nag un arall" a bod ""dyladwy" yn oleddfiad pwysig i'r cysyniad o ddidueddrwydd, sy'n golygu "digonol neu briodol i destun a natur" y deunydd ar-lein penodol (gweler y diffiniad o "eitem ar-lein"). Fodd bynnag, rydym wedi egluro'r diffiniad i dynnu sylw at y ffaith nad yw didueddrwydd dyladwy, yn ogystal ag amser, yn golygu bod yn rhaid rhannu "ffocws" yn gyfartal i bob barn. Mae hyn yn cydnabod y gellir cyfleu pwyslais golygyddol mewn deunydd ar-lein mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys drwy strwythur, cynllun, amlygrwydd a fformat, yn hytrach na thrwy amser ar ei ben ei hun. Mae'r addasiad hwn hefyd yn egluro nad yw didueddrwydd dyladwy yn gofyn am gymesuredd o ran nifer geiriau, gofod sgrin, hyd nac amlygrwydd, ar yr un pryd â chynnal y safon didueddrwydd sylfaenol.

3.70 Mae'r diffiniad arfaethedig hefyd yn adlewyrchu rôl ffactorau cyd-destunol wedi'u diweddaru a'u diwygio wrth ddefnyddio didueddrwydd dyladwy. Yn ogystal â'r ffactorau hynny sydd eisoes yn cael eu cydnabod yn y Cod Darlledu, mae'r Cod drafft yn egluro y gall ystyriaethau perthnasol mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC hefyd gynnwys fformat a math yr eitem ar-lein a'r ffordd mae cynnwys yn cael ei gyflwyno a'i ganfod. Mae'r ychwanegiadau hyn yn cydnabod yr amrywiaeth o fformatau a mathau o gynnwys a geir mewn deunydd ar-lein, yn ogystal â'r amrywiaeth o wasanaethau y mae ar gael drwyddynt (gan gynnwys platfformau trydydd parti) a'r gwahanol ffyrdd y mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar Ddeunydd Ar-lein y BBC ac yn ymgysylltu ag ef.

### Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion

3.71 Mae **Rheol arfaethedig 5.1** yn mynnu bod "rhaid adrodd newyddion, ar ba bynnag ffurf, gyda chywirdeb dyladwy a'i gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy". Mae hyn yn seiliedig ar eiriad yr amcan safonau ar gyfer newyddion yn y Ddeddf ac mae'n adlewyrchu Rheol 5.1 y Cod Darlledu. Wrth roi'r rheol hon ar waith, byddwn yn ystyried nodweddion eitemau ar-lein. Yn benodol, mae'r ffaith y gallai deunydd newyddion barhau i fod ar gael ar ôl i ddigwyddiadau ddatblygu yn golygu y gall yr oedran, y dyfalbarhad a'r gallu i ddiweddaru cynnwys, yn ogystal â'r dyddiad y cafodd ei "bostio am y tro cyntaf"[34], fod yn rhan o'r asesiad cyd-destunol o gywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy.

3.72 Wrth ddefnyddio **Rheol arfaethedig 5.1**, byddwn hefyd yn ystyried fesul achos a yw eitem o ddeunydd ar-lein yn newyddion, gan gydnabod bod potensial i'r BBC gyhoeddi amrywiaeth o gynnwys ar ei wasanaethau â brand newyddion, yn ogystal â chynnwys newyddion yn ei ddeunydd ar-lein yn gyffredinol.

3.73 Mae **Rheol arfaethedig 5.2** yn mynnu "fel arfer dylid cydnabod camgymeriadau o bwys mewn newyddion a'u cywiro'n gyflym" ac y dylai "cywiriadau gael eu gwneud yn amlwg i'r gynulleidfa mewn ffordd briodol". Mae'n mabwysiadu geiriad a gyflwynwyd i'r Cod Darlledu yn 2017 i adlewyrchu sut mae'n berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC[35], sydd

[34] Edrychwch ar adran 4 y ddogfen hon lle rydym yn ystyried pryd mae eitem ar-lein yn cael ei "postio am y tro cyntaf" ymhellach.

[35] Mae'r acronym "ODPS" hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw.

hefyd yn briodol yn ein barn ni mewn amgylchedd ar-lein. Mae'r gofyniad i gywiriadau gael eu "gwneud yn amlwg" yn caniatáu i'r BBC benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybod am gywiriadau pan fo angen. Mae'r dull gweithredu hwn yn rhoi hyblygrwydd, gan gydnabod yr amrywiaeth o fformatau a gwasanaethau y mae cynnwys newyddion y BBC yn ymddangos ynddynt ar-lein.

3.74 Mae **Rheol arfaethedig 5.3** yn gwahardd gwleidyddion rhag bod yn "ddarllenydd newyddion, cyfwelydd, gohebydd neu awdur mewn unrhyw eitem ar-lein sy'n newyddion, oni bai fod cyfiawnhad golygyddol dros hyn mewn achosion eithriadol a bod eu cysylltiad gwleidyddol yn cael ei egluro". Mae hyn yn adlewyrchu geiriad presennol Rheol 5.3 o'r Cod Darlledu ond mae wedi cael ei addasu i gydnabod bod newyddion ar-lein yn aml yn cael ei gyflwyno ar ffurf ysgrifenedig, yn hytrach na thrwy ddarllen, cyfweld neu ohebu ar ffurf newyddion. Bwriad ychwanegu "neu awdur" hefyd yw sicrhau ei bod yn glir yn y rheol bod gwleidyddion yn cael eu gwahardd rhag ysgrifennu stori newyddion i'w chynnwys yn neunydd ar-lein y BBC.

## Gofynion arbennig o ran didueddrwydd: cynnwys newyddion a chynnwys arall

3.75 Mae **Rheolau arfaethedig 5.4 i 5.12** yn adlewyrchu'r gofynion didueddrwydd arbennig yn adran 320 o'r Ddeddf, sy'n mynnu bod darlledwyr yn sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn allbwn sy'n delio â materion (a materion pwysig) sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion (a materion pwysig) sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

3.76 Mae **Rheol arfaethedig 5.4** yn mynnu bod deunydd ar-lein y BBC yn eithrio pob mynegiant o farnau a safbwyntiau'r BBC ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, yn amodol ar yr eithriadau a nodir yn y rheol. Mae'r rheol arfaethedig yn adlewyrchu geiriad Rheol 5.4 y Cod Darlledu, gan ei haddasu i fod yn berthnasol i Ddeunydd Ar-lein y BBC yn hytrach na dim ond i "wasanaethau rhaglenni".

3.77 Mae'r eithriad yn Rheol 5.4 y Cod Darlledu yn cyfeirio at "farnau a safbwyntiau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau rhaglenni"; mae'r eithriad cyfatebol yn **Rheol arfaethedig 5.4** yn cael ei fynegi fel "barnau a safbwyntiau sy'n ymwneud â darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU", sy'n cynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC sy'n cael eu darlledu ac ar gael ar-lein yn y DU. Mae'r ddarpariaeth hon, sy'n adlewyrchu adran 320(3) o'r Ddeddf, yn sicrhau nad yw newyddiadurwyr y BBC yn cael eu hatal rhag rhoi barn a safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â'r BBC a darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Gall adroddiadau o'r fath gynnwys datganiadau corfforaethol perthnasol lle mae'r BBC yn destun y sylw. Mae hyn ar yr amod ei fod yn cael ei gyflwyno yn unol â'r gofynion cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy a nodir yn y Cod ar gyfer newyddion, neu lle mae sylw o'r fath yn delio â mater neu fater pwysig, fel y'u diffinnir yn Adran Pump.

3.78 Mae **Rheol Arfaethedig 5.5** yn mynnu bod didueddrwydd dyladwy ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol yn cael eu cadw yn Neunydd Ar-lein y BBC. Mae'n egluro y gellir cyflawni hyn naill ai o fewn eitem ar-lein neu ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd.

3.79 Mae'r rheol yn adlewyrchu Rheol 5.5 y Cod Darlledu, sy'n cyflawni'r gofynion statudol yn adrannau 320(1)(b) a 320(4)(a) o'r Ddeddf, sy'n darparu bod modd sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn rhaglen neu ar draws cyfres o raglenni wedi'u cymryd gyda'i gilydd. Fodd bynnag, rydym wedi addasu Rheol 5.5 y Cod i sicrhau canlyniad sy'n cyfateb yn swyddogaethol yn yr amgylchedd ar-lein. Yn benodol, mae cysyniadau darlledu "rhaglenni" a "chyfres o raglenni wedi'u cymryd gyda'i gilydd" yn cael eu trosi i'r cyd-destun ar-lein drwy

ddefnyddio'r termau "eitem ar-lein" a "chyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd". Mae hyn yn sicrhau bod y gofyniad statudol yn cael ei gadw ac yn cael ei fynegi mewn ffordd sy'n adlewyrchu sut mae Deunydd Ar-lein y BBC yn cael ei drefnu a'i ganfod, yn hytrach na drwy'r cysyniad o "raglen" sy'n canolbwyntio ar ddarlledu.

3.80 Mae "eitem ar-lein" yn ddiffiniad arfaethedig newydd nad oes ddiffiniad cyfatebol iddo yn y Cod Darlledu. Cynigiwyd ategu diffiniad diwygiedig o "gyfres" (gweler isod) ac fe'i diffinnir yn y Cod drafft fel trefniant o ddeunydd ar-lein a gyflwynir i gynulleidfaoedd fel un eitem adnabyddadwy, a allai gynnwys testun ysgrifenedig, delweddau llonydd neu symudol gyda sain neu hebddo), deunydd sain yn unig ar-lein, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain, ac y gellir ei ddiweddaru dros amser wrth barhau i fod yn adnabyddadwy fel yr un eitem. Gallai eitem ar-lein gynnwys, er enghraifft, erthygl destun gyda dolenni, delweddau, sain neu fideo wedi'u plannu; eitem fideo neu sain unigol, gan gynnwys rhaglen sy'n cael ei ffrydio'n fyw; neu gynnwys annibynnol arall.

3.81 Rydym hefyd wedi cynnig diffiniad o "gyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd", sy'n adlewyrchu'n fras y dull gweithredu yn y Cod Darlledu o ran caniatáu i ddidueddrwydd dyladwy gael ei gyflawni ar draws cyfres, gan ei addasu ar gyfer amgylchedd ar-lein. Fe'i diffinnir yn y Cod drafft fel un sy'n golygu mwy nag un eitem ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol, sy'n delio â'r un materion neu faterion cysylltiedig o fewn cyfnod priodol.

3.82 Mae'r diffiniad yn cadw'r cysyniad y dylai eitemau ddelio â'r "un materion neu faterion cysylltiedig dros gyfnod priodol" ond nid yw'n cynnwys gofyniad i'r cynnwys gael ei anelu at "gynulleidfa debyg". Y rheswm am hyn yw bod cysylltiad agos rhwng y cysyniad o "gynulleidfa debyg" a darlledu a'r syniad o un sianel, tra gall cynulleidfaoedd ar-lein gael gafael ar gynnwys drwy nifer o lwybrau mewn gwasanaeth neu ar draws platfformau. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn anoddach mesur neu adnabod cynulleidfaoedd mewn amgylchedd ar-lein.

3.83 Rydym yn cydnabod y gallai fod o fudd ymhelaethu ynghylch defnyddio'r cysyniad hwn mewn cyd-destun ar-lein. Bydd canllawiau'n nodi sut bydd ffactorau perthnasol yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, gan gynnwys drwy enghreifftiau. Mae hyn yn debygol o gynnwys ystyried y canlynol:

- **Cyswllt golygyddol:** a oes digon o gyswllt golygyddol rhwng eitemau, y tu hwnt i bwnc a rennir, fel y gellir eu trin yn briodol gyda'i gilydd fel rhan o'r un gyfres. Gellir nodi hyn gan ffactorau fel: a yw eitemau'n ymwneud â'r un stori neu ddatblygiad (yn hytrach na phwnc eang); a oes perthynas olygyddol glir rhyngddynt (er enghraifft, drwy groesgyfeirio, fframio cyson, neu un eitem yn adeiladu ar un arall neu'n ymateb i un arall); ac a ydynt yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n adlewyrchu cysylltiad bwriadol yn hytrach na gorgyffwrdd damweiniol neu thematig (gweler paragraff 3.84 ar Reol 5.6).
- **Cyfnod priodol:** a yw eitemau'n ddigon agos o ran amser i gael eu hystyried yn rhan o'r un gyfres, gan ystyried natur y mater a datblygiad y sylw. Gellir nodi hyn gan ffactorau fel: a yw eitemau'n ymwneud â'r un cam neu ddatblygiad mewn stori; a ydynt yn cael eu cyhoeddi o fewn amserlen lle mae'r cysylltiad rhyngddynt yn dal yn uniongyrchol ac yn amlwg; ac a fyddai treigl amser yn effeithio ar sut gallai defnyddiwr ddeall y berthynas rhwng yr eitemau. I'r gwrthwyneb, pan fydd cyfnodau hwy o amser yn gwahanu eitemau, fel bod y cysylltiad yn gwanhau mwy neu'n adlewyrchu datblygiadau penodol, efallai y byddant yn llai tebygol o gael eu hystyried fel rhai sy'n rhan o'r un gyfres.

- **Enghreifftiau o gyfresi:** gall cyfres gynnwys, er enghraifft, (i) llinyn golygyddol wedi'i gyfeirio'n glir neu "adroddiad arbennig" sy'n cynnwys nifer o erthyglau unigol cysylltiedig; neu (ii) clwstwr o erthyglau cysylltiedig iawn ar yr un stori a gyhoeddwyd o fewn cyfnod byr. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain ac nid yw'r cysyniad wedi'i gyfyngu i gyfresi wedi'u cynllunio ymlaen llaw na chyfresi brand.

3.84 Pan fydd didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol yn hytrach nag mewn eitemau unigol, mae **Rheol ddrafft 5.6** yn mynnu bod hyn fel arfer yn cael ei egluro i ddefnyddwyr drwy arwyddion priodol. Mae hyn yn golygu cyflwyno cynnwys fel bod y berthynas rhwng eitemau yn ddigon clir i ddefnyddwyr eu deall fel rhai cysylltiedig ac y bwriedir eu hystyried gyda'i gilydd.

3.85 Yn yr amgylchedd ar-lein, rydym o'r farn y bydd y ffyrdd o ddarparu'r arwyddion hyn yn wahanol i ddarlledu. Gall arwyddion gynnwys, er enghraifft; labelu neu frandio penodol; croesgysylltu uniongyrchol rhwng eitemau; neu gyflwyno cynnwys fel set wedi'i diffinio'n glir. Mae cynnwys nad yw ond yn ymwneud yn fras â phwnc neu sydd wedi'i gysylltu'n gyfan gwbl drwy nodweddion llywio cyffredinol (fel "erthyglau cysylltiedig" neu dudalennau pwnc eang) yn annhebygol o fod yn gyfres at y dibenion hyn. Mae eitem sy'n cael ei diweddaru'n barhaus (fel tudalen fyw) yn debygol o gael ei hystyried fel eitem ar-lein fel arfer yn hytrach na chyfres. Nid yw **Rheol 5.6** yn rhagnodi dulliau penodol, ac mae'r dull gweithredu ar gyfer signalau - fel cadw didueddrwydd dyladwy ei hun - yn dal yn fater golygyddol i'r BBC. Fodd bynnag, bydd rhagor o fanylion ynghylch sut bydd Ofcom yn dehongli ac yn defnyddio'r cysyniad hwn yn cael eu nodi mewn canllawiau.

3.86 Mae **Rheol arfaethedig 5.7** yn mynnu "ni ddylid camliwio safbwyntiau a ffeithiau mewn deunydd ar-lein mewn ffordd a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch cadw didueddrwydd dyladwy"[36] a bod yn rhaid cyflwyno safbwyntiau gyda "phwys dyladwy dros gyfnodau priodol". Nid yw cywirdeb yn ofyniad statudol y tu allan i newyddion. Mae'r rheol hon, sy'n adlewyrchu Rheol 5.7 y Cod Darlledu, yn gwahardd camliwio ffeithiau neu safbwyntiau a fyddai'n tanseilio cadw didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â'r materion yr ymdrinnir â nhw yn y deunydd ar-lein. Mae ail gymal y rheol yn bwysig wrth benderfynu a gafodd didueddrwydd dyladwy ei gynnal yn y deunydd ar-lein, lle gallai camliwio fod wedi digwydd.

3.87 Mae **Rheol arfaethedig 5.8** yn mynnu bod "rhaid egluro i'r gynulleidfa unrhyw fuddiant personol sydd gan ohebydd neu gyflwynydd neu awdur a fyddai'n codi amheuaeth ynghylch didueddrwydd dyladwy'r rhaglen". Mae'r rheol hon yn adlewyrchu gofynion y Cod Darlledu, ac mae wedi'i addasu i gynnwys "awdur" i gydnabod sut mae modd priodoli cynnwys ar-lein.

3.88 Mae **Rheol arfaethedig 5.9** yn egluro y gall cyflwynwyr a gohebwyr (heblaw am y rheini mewn deunydd ar-lein sy'n newyddion), cyflwynwyr eitemau ar-lein barn bersonol neu "awdurol", a chadeiryddion eitemau ar-lein sy'n rhaglenni trafod neu'n ffrydio byw fynegi eu barn eu hunain ar faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Mae'r rheol hon yn adlewyrchu Rheol 5.9 y Cod Darlledu, gan ei haddasu i fod yn berthnasol i eitemau ar-lein. Nid yw didueddrwydd dyladwy o dan Adran Pump yn mynnu bod yr holl safbwyntiau a fynegir mewn eitem ar-lein yn cael yr un lefel o amlygrwydd. Mae'r rheol hon yn egluro y gall cyflwynwyr eitemau barn bersonol fynegi eu barn eu hunain ar y materion y mae'n berthnasol iddynt, ar yr amod bod

[36] Mae'r geiriad arfaethedig hwn yn ychwanegol at y geiriad yn Rheol 5.7 y Cod Darlledu ac mae'n adlewyrchu sut rydym yn credu y bydd yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol mewn cyd-destun ar-lein. Mae hefyd yn adlewyrchu geiriad perthnasol tebyg yng Nghod Safonau Haen 1 arfaethedig Ofcom – gweler Ymgynghoriad: Cod Safonau Haen 1.

safbwyntiau eraill yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ac nad yw cyflwynwyr yn manteisio ar ymddangosiadau rheolaidd mewn ffordd sy'n peryglu'r gofyniad ar gyfer didueddrwydd dyladwy. Mae'r rheol arfaethedig yn nodi, mewn perthynas â deunydd ar-lein, y gellir sicrhau darpariaeth ddigonol o safbwyntiau amgen naill ai yn yr eitem ar-lein ei hun neu ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd.

3.89 Rydym wedi dileu'r cyfeiriad presennol yn y rheol hon yn y Cod Darlledu at raglenni ffonio i mewn ar gyfer cyflwynwyr ("Yn achos rhaglenni ffonio i mewn i siarad â chyflwynwyr, rhaid cymell barnau gwahanol a pheidio â'u heithrio"). Mae Ofcom yn deall nad yw'r fformat hwn fel arfer yn cael ei gynnwys gan y BBC yn ei ddeunydd ar-lein, felly rydym o'r farn y byddai'n anghymesur cynnwys cyfeiriad penodol ato yn y rheol arfaethedig. Fodd bynnag, pe bai unrhyw gynnwys o'r fath yn cael ei gynnwys yn neunydd ar-lein y BBC, byddai'n dal angen i'r BBC gadw didueddrwydd dyladwy ynddo yn unol â'r **Rheolau arfaethedig 5.1** (gweler paragraff 3.71) **a 5.5** (gweler paragraff 3.78).

3.90 Mae **Rheol arfaethedig 5.10** yn mynnu bod yn rhaid hysbysu'r gynulleidfa'n glir ar y dechrau os yw eitem ar-lein yn un "awdurol" neu'n cyflwyno barn bersonol. Mae'r rheol hon yn adlewyrchu Rheol 5.10 y Cod Darlledu gydag addasiad i fod yn berthnasol i eitemau ar-lein yn hytrach na "rhaglenni". Yn yr un modd â Rheol arfaethedig 5.9, rydym wedi dileu'r cyfeiriad presennol yn rheol 5.10 yn y Cod Darlledu at gyflwynwyr personoliaeth ar raglenni ffonio i mewn ("Mae cyflwynwyr personoliaeth ffonio i mewn ar y radio wedi'u heithrio rhag y ddarpariaeth hon oni bai fod eu statws o ran datgan barn bersonol yn aneglur"), am yr un rhesymau ag ar gyfer rheol arfaethedig 5.9.

3.91 Mae **Rheolau arfaethedig 5.11 a 5.12** yn berthnasol i faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol pwysig sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Yn unol â'r Cod Darlledu, mae Rheolau arfaethedig 5.11 a 5.12 yn nodi gofynion uwch o ran didueddrwydd dyladwy ar gyfer 'materion pwysig'. Mae'r rhain yn faterion o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol fel arfer. Fel sy'n cael ei egluro yng nghanllawiau Ofcom ar Adran Pump o'r Cod Darlledu, mae'r rheolau ychwanegol hyn yn angenrheidiol oherwydd natur y pwnc dan sylw: mae mater gwleidyddol neu ddiwydiannol pwysig sy'n destun dadlau neu fater pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol yn bwysig iawn ac mae'n debygol o fod yn gyfredol. Mae Ofcom yn trin y trothwy ar gyfer y gofynion uwch hynny, gan ychwanegu cyfyngiadau ychwanegol ar ryddid mynegiant darlledwr, fel trothwy uchel.

3.92 Mae **Rheol arfaethedig 5.11** yn mynnu bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei gynnal ar faterion o'r fath naill ai mewn eitem ar-lein neu ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd. Mae **Rheol arfaethedig 5.12** yn mynnu bod amrywiaeth briodol o safbwyntiau arwyddocaol yn cael eu cynnwys ac yn cael y pwys dyladwy ym mhob eitem ar-lein neu ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd, ac nad yw safbwyntiau a ffeithiau'n cael eu camliwio. Fel sy'n cael ei egluro uchod, mae'r rheolau hyn yn adlewyrchu Rheolau 5.11 a 5.12 y Cod Darlledu sy'n rhoi'r gofynion didueddrwydd dyladwy gwell ar waith ar gyfer materion o'r fath o dan adran 320(6) o'r Ddeddf. Mae'r diffiniad o "faterion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol" yn adlewyrchu'r hyn a ddefnyddir yn y Cod Darlledu ond heb gyfeirio at "ddarlledu" yng nghyswllt yr ardaloedd daearyddol perthnasol.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

- **Cwestiwn 13**: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer Adran Pump?
- **Cwestiwn 14:** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i roi "eitem ar-lein" yn lle "rhaglen" yn y rheolau hyn? Os nad ydych chi, eglurwch pam.
- **Cwestiwn 15:** Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu arfaethedig Ofcom ar gyfer cadw didueddrwydd dyladwy ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd? Os nad ydych chi, eglurwch pam.
- **Cwestiwn 16:** A oes unrhyw feysydd yn Adran 5 y credwch y gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol eu hategu â chanllawiau?
- **Cwestiwn 17**: Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Pump?

## Adran Chwech: Etholiadau a Refferenda

3.93 **Egwyddor: sicrhau bod y gofynion didueddrwydd arbennig yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a deddfwriaeth berthnasol arall sy'n ymwneud ag etholiadau a refferenda yn cael eu cymhwyso i Ddeunydd Ar-lein Cyhoeddus y BBC yn y DU adeg etholiadau a refferenda.** Mae'r rheolau arfaethedig ar gyfer Adran Chwech wedi'u cynnwys ar dudalennau 18 i 20 yn Atodiad 2.

3.94 Mae'r rheolau arfaethedig hyn yn sicrhau'r un amcanion safonau statudol ag Adran Pump ar gyfer cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy mewn newyddion a didueddrwydd dyladwy mewn rhai deunyddiau nad ydynt yn newyddion. Maent yn rhoi rhagor o fesurau gwarchodaeth, wedi'u cynllunio i ddiogelu uniondeb dadl ddemocrataidd, sy'n arbennig o bwysig yn ystod cyfnod etholiadol. Rydym yn cydnabod rôl bwysig deunydd ar-lein y BBC o ran sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar newyddion a materion cyfoes y gallant ymddiried ynddynt. Felly, rydym yn cynnig adlewyrchu'r rheolau perthnasol yn sylweddol yn Adran Chwech y Cod Darlledu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cynnig peidio ag ailadrodd rheolau yn y Cod Darlledu sy'n ymwneud â sylw etholaethol ac etholiadol mewn etholiadau, gan nad yw'r rhain wedi cael eu mabwysiadu gan y BBC yn hanesyddol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Yn hytrach, mae'r BBC yn ymgorffori'r gofynion hyn yn ei Ganllawiau Golygyddol ei hun.

### Rheolau'r Cod Darlledu rydym yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Chwech

3.95 Mae'r gofyn mwyaf am ddidueddrwydd dyladwy yn berthnasol yn ystod cyfnodau etholiadau ac mae **Rheol arfaethedig 6.1** yn egluro bod y rheolau yn Adran Pump, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol pwysig sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol, yn berthnasol i etholiadau a refferenda.

3.96 Mae **Rheolau arfaethedig 6.2 a 6.3** yn adlewyrchu'r gofyniad i roi pwys dyladwy i wahanol gyfranogwyr wrth roi sylw i etholiadau a refferenda, yn y drefn honno. Mae'r rheolau hyn yn adlewyrchu gofynion y Cod Darlledu ac yn cefnogi cadw didueddrwydd dyladwy yn ystod y cyfnodau hyn. Er bod y cysyniad o "bwysau dyladwy" yn adlewyrchu natur darlledu llinol, lle mae amrywiaeth o raglenni'n cael eu hamserlennu a'u darlledu yn ystod yr etholiad neu'r refferendwm diffiniedig fel rhan o allbwn newyddion a/neu faterion cyfoes sianel, rydym hefyd yn credu bod y cysyniad yn berthnasol ac yn briodol yng nghyd-destun Deunydd Ar-lein y BBC. Y rheswm am hyn yw rôl y BBC fel darparwr gwasanaeth cyhoeddus a natur ei allbwn newyddion a materion cyfoes, sy'n parhau i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o roi

gwybodaeth i gynulleidfaoedd yn ystod cyfnodau etholiadau a refferenda. Er nad yw deunydd ar-lein wedi'i amserlennu mewn ffordd linol, mae gan y BBC reolaeth olygyddol dros sut mae cynnwys yn cael ei gyflwyno, ei labelu a'i ddarparu ar draws ei wasanaethau. Yn y cyd-destun hwn, mae'r gofyniad i roi pwys dyladwy yn fecanwaith pwysig ar gyfer sicrhau bod y sylw'n adlewyrchu arwyddocâd cymharol gwahanol bleidiau, ymgeiswyr a chyfranogwyr ac yn cefnogi cadw didueddrwydd dyladwy.

3.97 Mae **Rheol arfaethedig 6.2** yn mynnu bod pwys dyladwy yn cael ei roi ar y sylw i'r pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol yn ystod cyfnod yr etholiad. Wrth benderfynu ar lefel briodol y sylw, rhaid i'r BBC ystyried tystiolaeth o gefnogaeth mewn etholiadau blaenorol a/neu gefnogaeth bresennol. Rhaid i'r BBC hefyd ystyried rhoi sylw priodol i bleidiau ac i ymgeiswyr annibynnol sydd â safbwyntiau pwysig.

3.98 Mae **Rheol arfaethedig 6.3** yn mynnu bod pwys dyladwy yn cael ei roi ar sefydliadau dynodedig mewn sylw yn ystod cyfnod y refferendwm a bod y BBC hefyd yn ystyried rhoi sylw priodol i gyfranogwyr eraill a ganiateir sydd â barn a safbwyntiau pwysig.

3.99 Mae **Rheol arfaethedig 6.4** yn mynnu bod yn rhaid gorffen trafod a dadansoddi materion sy'n ymwneud ag etholiadau neu refferenda pan fydd y pleidleisio'n dechrau. Mae **Rheol arfaethedig 6.5** yn mynnu na chaiff y BBC gyhoeddi canlyniadau unrhyw arolwg barn ar y diwrnod pleidleisio ei hun nes bydd gorsafoedd pleidleisio'r etholiad neu refferendwm yn cau. Mae'r rheolau hyn yn adlewyrchu gofynion y Cod Darlledu ac maent wedi'u cynllunio i sicrhau nad yw sylw'n dylanwadu ar benderfyniadau pleidleiswyr yn ystod y cyfnod pleidleisio. Mae hefyd yn adlewyrchu'r gwaharddiad statudol ar gyhoeddi data pleidleisio tra bo'r gorsafoedd pleidleisio ar agor.[37]

3.100 Mae **Rheol arfaethedig 6.6** yn gwahardd ymgeiswyr yn etholiadau'r DU a chynrychiolwyr cyfranogwyr cymeradwy yn refferenda'r DU rhag cael eu defnyddio fel cyflwynwyr, cyfwelwyr, gohebwyr neu awduron mewn deunydd ar-lein yn ystod cyfnod yr etholiad. Mae'r rheol hon yn adlewyrchu Rheol 6.6 y Cod Darlledu, ac mae'n ychwanegu "awduron" i adlewyrchu pwysigrwydd cynnwys testun mewn Deunydd Ar-lein y BBC.

3.101 Mae **Rheol arfaethedig 6.7** yn darparu y gall ymddangosiadau neu gyfraniadau gan ymgeiswyr neu gynrychiolwyr mewn deunydd anwleidyddol ar-lein sydd wedi'i gynllunio neu ei amserlennu cyn cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm barhau, ond ni ddylid trefnu na chyhoeddi unrhyw ymddangosiadau na chyfraniadau newydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

3.102 Mae **Rheolau arfaethedig 6.6 a 6.7** hefyd yn egluro nad oes angen dileu deunydd archif ar-lein a gyhoeddwyd yn flaenorol tra bo'r gorsafoedd pleidleisio ar agor nac yn ystod cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm, yn y drefn honno. Mae hyn yn adlewyrchu natur barhaus cynnwys ar-lein ac mae'n cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir yn y Cod Darlledu ar gyfer cynnwys gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC, lle nad oes angen dileu deunydd presennol yn ystod y cyfnodau hyn.

## Rheolau'r Cod Darlledu nad ydym yn cynnig eu hadlewyrchu yn Adran Chwech

3.103 Mae'r Cod Darlledu yn cynnwys rheolau ychwanegol sy'n ymwneud â sylw i etholaethau ac ardaloedd etholiadol (Rheolau 6.8 i 6.12). Mae'r rheolau hyn yn rhoi adran 93 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("RPA") ar waith, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ofcom fabwysiadu

[37] Adran 66A, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

cod ymarfer ar gyfer rhai gwasanaethau[38] mewn perthynas â chyfranogiad ymgeiswyr mewn etholiad seneddol neu lywodraeth leol mewn eitemau ynghylch yr etholaeth neu'r ardal etholiadol dan sylw. Rydym yn cynnig peidio â chario'r rheolau hyn drosodd i'r Cod.

3.104 Er nad yw'n ofynnol o dan adran 93 o'r RPA i Ofcom fabwysiadu cod ymarfer mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC, gallai Ofcom ymgorffori rheolau cyfatebol i Reolau 6.8-6.12 yn y Cod er mwyn sicrhau amcanion y safonau sydd yn adrannau 319(2)(c) (gan gynnwys y gofynion didueddrwydd arbennig yn 320). Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydym yn credu y byddai'n briodol nac yn gymesur cynnwys rheolau cyfatebol o'r fath yn y Cod gan ei bod eisoes yn ofynnol i'r BBC fabwysiadu ei god ymarfer ei hun[39] sydd, yn hanesyddol, wedi bod yn debyg iawn i Reolau 6.8-6.12 y Cod Darlledu ac sydd eisoes yn berthnasol i'w ddeunydd ar-lein. Rydym hefyd yn ymwybodol o'n hamcan o osod safonau o dan y Cod sy'n gyson â'r rheini sydd wedi'u gosod o dan y Cod Darlledu, lle nad yw'r rheolau hynny'n berthnasol i'r BBC ar hyn o bryd. Felly, nid ydym yn credu bod unrhyw resymau cryf dros ailadrodd y rheolau hyn yn y Cod.

3.105 Fodd bynnag, mae Ofcom yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y fframweithiau rheoleiddio sy'n berthnasol i'r BBC a gwasanaethau eraill mewn perthynas â rheolau sylw etholaethol. Fel y nodwyd yn flaenorol gan Ofcom[40], mae hyn yn adlewyrchu mater ehangach sy'n deillio o'r fframwaith statudol sy'n llywodraethu gwasanaethau'r BBC. Er bod Ofcom wedi dweud wrth y Llywodraeth yn flaenorol y dylid mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn drwy newid deddfwriaethol i sicrhau mwy o gysondeb â darlledwyr eraill, am y rhesymau a amlinellir uchod mae'n dal y tu allan i gwmpas y Cod. Byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

- **Cwestiwn 18**: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer Adran Chwech?
- **Cwestiwn 19:** A oes unrhyw feysydd yn Adran Chwech y credwch y gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol eu hategu â chanllawiau?
- **Cwestiwn 20**: Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Chwech?

# Defnyddio'r Cod Tegwch gyda Deunydd Ar-lein y BBC

3.106 Mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn nodi: 'Wrth ddarparu Deunydd Ar-lein Cyhoeddus yn y DU, rhaid i'r BBC ddilyn y Cod Tegwch sydd mewn grym o dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996, i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu'r Deunydd Ar-lein hwnnw'.

[38] Rhaid i Ofcom fabwysiadu cod ymarfer mewn perthynas ag eitemau sydd wedi'u cynnwys mewn "gwasanaethau perthnasol". Mae Adran 93(6) yn diffinio'r rhain fel gwasanaethau sydd wedi'u trwyddedu o dan Ran 1 neu 3 o Ddeddf Darlledu 1990 neu Ran 1 neu 2 o Ddeddf Darlledu 1996, yn ogystal â gwasanaethau sy'n Wasanaethau Haen 1 o fewn yr ystyr a roddir gan adran 368HA o'r Ddeddf. Ymgynghorir ar hyn o bryd ar ddarpariaethau mewn perthynas â Gwasanaethau Haen 1 – gweler Ymgynghoriad: Cod Safonau Haen 1.
[39] Rhaid i'r BBC wneud hynny fel "awdurdod darlledu" o dan adran 93(6) o'r RPA. Gwnaeth hynny'n fwyaf diweddar drwy ei "God Ymarfer Tegwch i Ymgeiswyr" sydd wedi'i gynnwys yn ei Ganllawiau Etholiad ar gyfer 2026.
[40] Gweler Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, 22 Mehefin 2022, tudalen 31.

3.107 Mae Adran 107(1) o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") yn rhoi dyletswydd ar Ofcom i lunio ac adolygu cod sy'n rhoi arweiniad ar yr egwyddorion sydd i'w dilyn, a'r arferion sydd i'w dilyn, mewn cysylltiad ag osgoi:

a) triniaeth anghyfiawn neu annheg mewn rhaglenni; neu

b) tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad wrth gael, neu mewn cysylltiad â chael, deunyddiau a gynhwysir mewn rhaglenni o'r fath.

3.108 "Cod Tegwch" yw'r enw ar hyn. Mae Ofcom yn defnyddio'r Cod Tegwch drwy ddefnyddio'r egwyddor, y rheol a'r arferion i'w dilyn a nodir o dan Adrannau Saith ac Wyth o'r Cod Darlledu. Mae pob un o'r adrannau hyn yn cynnwys rheol a nifer o "arferion i'w dilyn". Bwriad yr arferion yw rhoi arweiniad i ddarparwyr, gan gynnwys y BBC, ar y camau y gellir eu cymryd i osgoi triniaeth anghyfiawn neu annheg neu dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Nid yw dilyn yr arferion yn Adrannau Saith ac Wyth o reidrwydd yn osgoi torri'r rheol, a byddai methu â dilyn yr arferion ond yn golygu torri amodau lle mae'n arwain at annhegwch i unigolyn neu sefydliad, neu dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad, yn y rhaglen. Ar ben hynny, nid yw'r rhestr o arferion yn gynhwysfawr, ac mae ein hystyriaeth o gwynion tegwch a phreifatrwydd yn dibynnu yn y pen draw ar a yw'r rheol ei hun wedi cael ei thorri.

3.109 At ddibenion gorfodi'r BBC i lynu wrth y Cod Tegwch mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC, byddwn yn rhoi Adrannau Saith ac Wyth presennol y Cod Darlledu ar waith, i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu'r deunydd ar-lein hwnnw. Rydym yn cydnabod efallai na fydd geiriad presennol y rheolau a'r arferion yn Adrannau Saith ac Wyth o'r Cod Darlledu bob amser yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC. O'r herwydd, rydym wedi paratoi Atodiad (sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori hon yn Atodiad 3), sy'n darparu geiriad arfaethedig wedi'i addasu ar gyfer defnyddio'r Cod Tegwch mewn cyd-destun deunyddiau ar-lein. Rydym yn bwriadu cyhoeddi hwn fel Atodiad i'r Cod Darlledu.

3.110 Fel y nodir yn Atodiad 3, yn lle cyfeiriadau at "ffilmio"/ "ffilmiwyd" neu "recordio"/"recordiwyd", rydym yn cynnig mabwysiadu'r termau mwy cyffredinol "cafwyd"/"cael" ar draws Adrannau 7 ac 8. Cafodd geiriad y Cod Darlledu ei deilwra i gynnwys darlledu traddodiadol sydd fel arfer ar ffurf fideo neu sain. Ar gyfer deunydd ar-lein y BBC, ni fydd yr holl ddeunydd a gesglir yn gynnwys clyweledol. Er enghraifft, gall erthyglau newyddion gyfeirio at gyfweliadau ysgrifenedig, gohebiaeth, neu wybodaeth gyffredinol o ffynonellau. Rydym felly'n credu, mewn rhai Arferion, y gallai "cafwyd" fod yn fwy addas i'r amrywiaeth o gynnwys y gallai'r BBC ei gasglu. Mae'r derminoleg hon hefyd yn fwy cyson â geiriad adran 107(1)(b) o Ddeddf 1996 (ac o ganlyniad Rheol 8.1) sy'n ymwneud ag osgoi tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad "mewn cysylltiad â chael gafael ar ddeunydd sydd wedi'i gynnwys mewn rhaglenni". Gan ddilyn y dull gweithredu hwn, rydym hefyd yn cynnig mabwysiadu'r termau ehangach "deunydd" neu "cynnwys", lle bo hynny'n briodol, yn lle cyfeiriadau presennol at fathau penodol o gynnwys, fel "sain" neu "lluniau".

3.111 Ar ben hynny, rydym wedi ychwanegu geiriad pellach arfaethedig at Arfer 8.21 er mwyn adlewyrchu'n well y dull gweithredu sydd eisoes wedi cael ei ddefnyddio o dan y Cod Darlledu a gwneud y drafftio'n gliriach ynghylch pwy sy'n gallu rhoi cydsyniad gwybodus ar ran pobl dan un ar bymtheg oed a phobl agored i niwed yn y drefn honno. Mae'r geiriad arfaethedig hefyd yn adlewyrchu y gall fod adegau pan fydd person yn agored i niwed ond yn dal i allu rhoi cydsyniad gwybodus ei hun.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

- **Cwestiwn 21**: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y ffordd mae Ofcom yn bwriadu defnyddio’r Cod Tegwch a nodir o dan Adrannau 7 ac 8 o’r Cod Darlledu, mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC?

# 4. Gweithdrefnau

## Cefndir y gweithdrefnau arfaethedig

4.1 Fel y nodir yn Adran 2 yr ymgynghoriad hwn, mae rôl reoleiddio Ofcom hyd yma mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC wedi cael ei nodi yn Siarter a Chytundeb y BBC a'i hamlinellu hefyd yn y Trefniant Ar-lein. O dan y Trefniant Ar-lein hwn, rydym wedi bod yn gyfrifol am ystyried a rhoi barn (gan gynnwys argymhellion o'r fath rydym yn eu hystyried yn briodol) ynghylch a wnaeth y BBC lynu at Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn ei ddeunydd ar-lein.

4.2 Fodd bynnag, yn dilyn argymhellion Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o Siarter y BBC yn 2024, cafodd Cytundeb Fframwaith y BBC ei ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2025 i ymestyn cyfrifoldebau Ofcom i gynnwys gorfodi safonau cynnwys deunydd ar-lein a gyhoeddir fel rhan o Wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Yn ogystal â dilyn Cod Deunydd Ar-lein y BBC[41], rhaid i'r BBC hefyd ddilyn Cod Tegwch Ofcom[42] i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau yn y Cod Tegwch yn berthnasol i ddarparu Deunydd Ar-lein y BBC.

4.3 Mae Ffigur 2 yn dangos sut bydd hyn yn newid ein rôl mewn perthynas ag asesu ac ymchwilio i gwynion am ddeunydd ar-lein y BBC:

**Ffigur 2: Pwerau rheoleiddio nawr ac yn y dyfodol mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC**

| Goruchwyliaeth reoleiddiol ar hyn o bryd mewn perthynas â Chanllawiau Golygyddol y BBC | Gorfodi'r Cod |
|---|---|
| Mae'n rhaid i'r rheini sy'n cwyno gyflwyno eu cwyn i'r BBC yn y lle cyntaf, cyn y gall Ofcom ystyried cwyn ('BBC yn Gyntaf'). | Rhaid i'r rheini sy'n cwyno gwblhau proses BBC yn Gyntaf cyn y gall Ofcom ystyried cwyn, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.<br><br>Nid yw proses BBC yn Gyntaf yn berthnasol i'r rheini sy'n cyflwyno cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd o dan Adran 7 neu Adran 8 o'r Cod Darlledu, fel y mae wedi'i haddasu ar gyfer deunydd ar-lein y BBC. |
| Asesir cwynion yn erbyn Canllawiau Golygyddol y BBC. | Mae Ofcom yn asesu cwynion yn erbyn y Cod. |
| Ofcom sy'n asesu'r gŵyn. Os caiff ei derbyn, bydd Ofcom yn cyhoeddi barn nad yw'n rhwymo (gan gynnwys argymhellion y mae Ofcom yn credu sy'n briodol) ynghylch a yw'r BBC wedi glynu wrth ei Ganllawiau Golygyddol. | Ofcom sy'n asesu'r gŵyn.<br><br>Os bydd cwyn am safonau cynnwys yn codi materion sy'n cyfiawnhau ymchwiliad o dan adrannau 1-6 o'r Cod, bydd Ofcom yn lansio ymchwiliad. Gall ymchwiliadau arwain at ganfod achosion o 'dorri' amodau. |

[41] Paragraff 3A(8), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[42] Fel yr amlinellir uchod, mae Cod Tegwch Ofcom yn Adrannau 7 ac 8 o'r Cod Darlledu.

| Goruchwyliaeth reoleiddiol ar hyn o bryd mewn perthynas â Chanllawiau Golygyddol y BBC | Gorfodi'r Cod |
|---|---|
| | Mewn perthynas â chwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd o dan adrannau 7 ac 8 o'r Cod Darlledu, fel y'u haddaswyd ar gyfer deunydd ar-lein y BBC, bydd Ofcom yn cyhoeddi Penderfyniad i'w Ystyried, sy'n nodi a yw meini prawf penodol wedi cael eu bodloni er mwyn i Ofcom ymchwilio iddynt. Os bodlonir y meini prawf hyn, bydd Ofcom yn dod i ddyfarniad terfynol ynghylch a yw'r Cod wedi cael ei dorri. |
| Nid yw argymhellion yn rhwymol ac nid yw gorfodi safonau drwy sancsiynau yn opsiwn. | Gall achosion difrifol, bwriadol, ailadroddus neu fyrbwyll o dorri'r rheolau arwain at sancsiynau. |
| Mae'r diffiniad/goruchwyliaeth o 'ddeunydd ar-lein' wedi'i gyfyngu i ddeunydd ar wefannau ac apiau'r BBC. | Mae diffinio/rheoleiddio deunydd ar-lein yn cynnwys deunydd ar wefannau, apiau a chynnwys brand y BBC ar wefannau, rhaglenni a rhyngwynebau trydydd parti (fel cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau rhannu fideos). |

## Y gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys

4.4 Mae Cymal 57 y Cytundeb Fframwaith (fel y'i diwygiwyd gan Gymal 4 y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith) yn mynnu bod Ofcom yn "gosod ac yn cyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion perthnasol a gyfeirir naill ai ar ôl cwblhau proses 'BBC yn Gyntaf' neu fel arall mewn amgylchiadau eithriadol, ac mae'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r gweithdrefnau ddarparu ar ei gyfer. Mae "cwynion perthnasol" yn gwynion nad yw'r BBC wedi cydymffurfio â gofyniad penodol.[43] Mae'r gofynion penodedig yn cynnwys unrhyw rai o'r rhwymedigaethau rheoleiddiol yn atodlen 3 (ac eithrio paragraff 2 a 3A(1)).[44] Felly, mae'r un fframwaith craidd yn berthnasol i'r ffordd rydym yn delio â chwynion am safonau cynnwys mewn perthynas â'r Cod Darlledu â'r Cod drafft. Fodd bynnag, roedd y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith yn diwygio Cymal 57 er mwyn cynnwys darpariaethau ychwanegol ar gyfer gweithdrefnau cwynion sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC. Mae hyn yn cynnwys gosod amserlenni ar gyfer cyflwyno cwynion i'r BBC ac i Ofcom mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC ac sy'n benodol i ddeunydd ar-lein.

4.5 Teitl drafft y gweithdrefnau hyn yw 'Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys yn Neunydd Ar-lein Cyhoeddus y BBC yn y DU' ("Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC"). Mae'r rhain wedi'u hailadrodd yn Atodiad 4.

[43] Cymal 56(9) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[44] Cymal 59, y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

## Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch Cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd

4.6 Nid oes yn rhaid i gwynion ynghylch sut mae'r BBC yn cadw at y Cod Tegwch (i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol i ddarparu deunydd ar-lein y BBC) ddilyn y broses 'BBC yn Gyntaf', felly nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys yn berthnasol i gwynion o'r fath.[45] Gan nad yw'r Cytundeb Fframwaith (fel y'i diwygiwyd gan y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith) yn darparu nac yn gosod gofynion gweithdrefnol ar Ofcom ynghylch delio â chwynion sy'n ymwneud â'r Cod Tegwch, rydym wedi drafftio gweithdrefnau ar wahân sy'n adlewyrchu'n agos weithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried cwynion ynghylch y ffordd mae'r BBC yn cadw at y Cod Tegwch mewn perthynas â deunydd sy'n cael ei ddarlledu a gwasanaethau rhaglenni ar-alw.[46] Fodd bynnag, mae Ofcom hefyd wedi ystyried y gofynion gweithdrefnol a nodir yng Nghymal 57 y Cytundeb Fframwaith (fel y'i diwygiwyd gan Gymal 4 y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith) sy'n ymwneud â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC gan y bydd yr un ystyriaethau sylfaenol ar gyfer y darpariaethau penodol sy'n ymwneud â chwynion safonau cynnwys am ddeunydd ar-lein y BBC hefyd yn berthnasol i gwynion am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y Cod Tegwch.

4.7 Teitl drafft y gweithdrefnau hyn yw 'Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd: Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y BBC yn y DU' ("Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Deunydd Ar-lein y BBC"). Mae'r rhain wedi'u hailadrodd yn Atodiad 4.

## Y gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys y BBC

4.8 Mae Cymal 57 y Cytundeb Fframwaith (fel y'i diwygiwyd gan Gymal 4 y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith) hefyd yn mynnu bod y gweithdrefnau safonau cynnwys hefyd yn rhoi canllawiau clir sy'n egluro'r atebion a'r sancsiynau y mae gan Ofcom y pŵer i'w defnyddio.[47, 48] Er mwyn cyflawni hyn, ac er mwyn darparu ar gyfer sancsiynau mewn perthynas â chwynion sy'n ymwneud â'r ffordd mae'r BBC yn cadw at y Cod Tegwch, rydym wedi diwygio'r Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw'r BBC i roi arweiniad clir sy'n egluro'r atebion a'r sancsiynau y mae gan Ofcom y pŵer i'w defnyddio mewn perthynas â chwynion o dan y Cod.

4.9 Teitl drafft y gweithdrefnau hyn yw 'Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys y BBC: Gwasanaethau darlledu'r BBC; gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC; deunydd ar-lein y BBC (y "Gweithdrefnau Sancsiynau")'. Mae'r rhain wedi'u hailadrodd yn Atodiad 4.

[45] Cymal 55(5) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, sy'n nodi, o dan weithdrefnau cwyno'r BBC ei hun, nad oes yn rhaid i gwynion sy'n ymwneud â'r Cod Tegwch gael eu datrys fel arfer gan y BBC yn y lle cyntaf.

[46] Gweler y ddogfen ganlynol gan Ofcom: Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC.

[47] Cymal 59(3)(b)(ii), y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

[48] Mae Erthygl 49 o Siarter y BBC yn rhoi pwerau gorfodi i Ofcom i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â "gofynion penodol", fel y'u diffinnir yn y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru neu'r Fframwaith Gweithredu.

# Y gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys ar gyfer deunydd ar-lein y BBC

## Trosolwg

4.10 Mae Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC sy'n cyd-fynd â'r Cod yn nodi'r fframwaith cyfreithiol perthnasol ar gyfer trin a datrys cwynion (neu gynnal ymchwiliadau Ofcom ei hun) am gydymffurfiad y BBC â'r safonau cynnwys sydd wedi'u gosod o dan adran 319 y Ddeddf, y gofynion sydd wedi'u gosod o dan adran 320 o'r Ddeddf, Siarter y BBC, y Cytundeb Fframwaith fel y'i diwygiwyd gan ddiweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith).

4.11 Mae Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC yn nodi, ymysg pethau eraill: y broses y bydd Ofcom yn ei dilyn i asesu ac ymchwilio i gwynion am safonau cynnwys; y gofyniad bod y sawl sy'n cwyno yn cyflwyno cwynion am safonau cynnwys yn uniongyrchol i'r BBC yn y lle cyntaf (proses 'BBC yn Gyntaf'); yr amgylchiadau lle gall Ofcom wyro oddi wrth y gweithdrefnau; ac enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol lle gall Ofcom gyflymu ei brosesau.

## Dull gweithredu arfaethedig

### Cysondeb â'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru

4.12 Mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn gosod gofynion gweithdrefnol ar Ofcom, sef:

a) Rhaid i Ofcom beidio â derbyn cwyn sy'n cael ei chyfeirio ato, nac ymyrryd mewn cwyn, am ddeunydd ar-lein y BBC oni bai fod deunydd ar-lein y BBC wedi cael ei bostio ar ôl y dyddiad cychwyn. Diffinnir y dyddiad cychwyn fel y dyddiad y mae Ofcom yn cyhoeddi'r weithdrefn gyntaf (neu'r gweithdrefnau cyntaf) sy'n darparu ar gyfer trin a datrys cwynion am ddeunydd ar-lein y BBC;
b) wrth benderfynu ar gŵyn a wneir am ddeunydd ar-lein y BBC a gafodd ei bostio ar ôl y dyddiad cychwyn, caiff Ofcom ystyried deunydd a gafodd ei bostio cyn y dyddiad hwnnw, os yw'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny; a
c) rhaid i Ofcom beidio â derbyn cwyn sy'n cael ei chyfeirio ato, nac ymyrryd mewn cwyn, am ddeunydd ar-lein y BBC oni bai fod y gŵyn wedi cael ei chyflwyno i'r BBC i ddechrau cyn pen 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan gafodd deunydd ar-lein y BBC ei bostio am y tro cyntaf, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.[49]

4.13 Mae ein Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein arfaethedig wedi cael eu drafftio yn unol â'r gofynion hyn.

### "Postiwyd am y tro cyntaf"

4.14 Mae'r dyddiad pan fydd deunydd ar-lein y BBC yn cael ei "bostio am y tro cyntaf" yn pennu pryd mae'r "cloc" yn dechrau i berson gwyno. Yn wahanol i gynnwys darlledu, sy'n ymwneud â moment statig mewn amser (y pwynt darlledu), gellir diwygio, diweddaru ac ail-rannu deunydd ar-lein yn barhaus mewn gwahanol gyd-destunau.

4.15 Er mwyn mynd i'r afael â realiti rheoleiddio cynnwys mewn byd ar-lein, mae ein gweithdrefnau arfaethedig yn nodi sut byddwn yn asesu pryd cafodd deunydd ar-lein y BBC ei "bostio am y tro cyntaf". Ein man cychwyn yw penderfynu ar y dyddiad y cyhoeddwyd y

[49] Nid yw hyn yn berthnasol i gwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd.

cynnwys perthnasol am y tro cyntaf ar lwyfan. Fodd bynnag, mae ein gweithdrefnau'n cydnabod pan fydd ymyriad golygyddol arwyddocaol wedi bod, er enghraifft, pan fydd y BBC yn gwneud newidiadau sylweddol i gynnwys a/neu amlygrwydd deunydd ar-lein y BBC ar ôl iddo gael ei bostio am y tro cyntaf, gall Ofcom ystyried mai'r dyddiad y gwnaed y newidiadau yw'r dyddiad y cafodd y deunydd ei "bostio am y tro cyntaf".

4.16 Gallai newidiadau sylweddol i gynnwys deunydd ar-lein y BBC gynnwys, er enghraifft, newidiadau arwyddocaol i ddeunydd ar-lein, cyhoeddi cywiriad neu eglurhad, neu newidiadau i ddelweddau a/neu gynnwys fideo sy'n newid ystyr y deunydd ar-lein. Ni fyddem yn disgwyl i newidiadau, fel cywiro gwallau teipograffyddol, fod yn sylweddol, oni bai fod newidiadau o'r fath yn newid ystyr y deunydd ar-lein.

4.17 Gallai newidiadau sylweddol i amlygrwydd deunydd ar-lein y BBC gynnwys symud y deunydd ar-lein i leoliad mwy gweladwy ar ryngwyneb ar-lein, neu ddod yn hygyrch drwy hyperddolen sydd wedi'i chynnwys mewn eitem arall o ddeunydd ar-lein. Mae newidiadau sylweddol i amlygrwydd deunydd ar-lein y BBC yn gofyn am ymyriad golygyddol ac felly ni fyddai'n cynnwys, er enghraifft, yr un erthygl yn ymddangos yn organig mewn lleoliad mwy gweladwy ar ryngwyneb ar-lein oherwydd diddordeb darllenwyr.

## Proses BBC yn Gyntaf

4.18 Mae proses BBC yn Gyntaf yn egwyddor hirsefydlog sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac mae'n sail i'r prosesau y mae Ofcom yn eu defnyddio i ddelio â chwynion am safonau cynnwys Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw a Darlledu'r BBC.

4.19 Mae Cymal 56(5)(a) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn darparu bod yn rhaid i'r BBC ddatrys pob cwyn am safonau cynnwys a ddarlledir ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC yn y lle cyntaf. Fel y nodir uchod, mae'r Fframwaith wedi'i Ddiweddaru yn darparu'n benodol ar gyfer proses BBC yn Gyntaf yng nghyd-destun sut mae Ofcom yn ystyried cwynion am safonau cynnwys: "Rhaid i Ofcom beidio â derbyn cwyn sy'n cael ei chyfeirio ato, nac ymyrryd mewn cwyn, am ddeunydd ar-lein y BBC oni bai fod y gŵyn wedi cael ei chyflwyno i'r BBC i ddechrau cyn pen 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan gafodd deunydd ar-lein y BBC ei bostio am y tro cyntaf, oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol".

4.20 Mae Cymal 56(5) o'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn darparu eithriad i'r rheol gyffredinol hon o ran "cwynion sy'n ymwneud â'r Cod Tegwch". Nid oes rhaid i'r sawl sy'n cwyno ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd gwyno wrth y BBC yn y lle cyntaf a gall gyflwyno cwyn i Ofcom yn uniongyrchol. Mae rhagor o fanylion ar gael isod.

## Cysondeb â Gweithdrefnau Safonau Cynnwys y Cod Darlledu

4.21 Pan nad yw'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn darparu ar gyfer gofynion gweithdrefnol ar Ofcom nac yn eu gosod, ein nod yw bod yn gyson â Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Darlledu'r BBC. [50] Mae Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Darlledu'r BBC wedi bod mewn grym ers 2017 ac maent yn nodi proses gyfarwydd ar gyfer y BBC a'r sawl sy'n cwyno, yn ogystal â dull rheoleiddio cymesur.

4.22 Rydym hefyd yn cydnabod y gall y sawl sy'n cwyno geisio cwyno o dan y Cod Darlledu am gynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar sianeli llinol y BBC neu ei lwytho i fyny ar wasanaeth rhaglenni ar-alw[2], ac ar yr un pryd, cwyno am yr un cynnwys neu gynnwys tebyg sy'n cael ei

[50] Y gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC.

bostio yng nghyd-destun deunydd ar-lein y BBC. Felly, rydym am i'n gweithdrefnau fod mor gyson â phosibl, er mwyn cyflawni ein nod o weithdrefnau sy'n hygyrch, yn dryloyw ac yn syml i'r BBC ac i achwynwyr.

# Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd: Deunydd Cyhoeddus Ar-lein y BBC yn y DU

## Trosolwg

4.23 Mae Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Deunydd Ar-lein arfaethedig y BBC yn amlinellu'r Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a/neu Breifatrwydd mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC. Mae'r gweithdrefnau arfaethedig hyn yn ymwneud â chydymffurfiaeth y BBC â "Chod Tegwch" Ofcom, fel y nodir o dan adran 107(1) o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996"), Siarter y BBC, y Cytundeb Fframwaith (fel y'i diwygiwyd gan y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith).

4.24 Mae Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Deunydd Ar-lein y BBC yn nodi, ymysg pethau eraill: y broses y bydd Ofcom yn ei dilyn i ymchwilio i gwynion ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd; eglurhad ynghylch pwy sy'n cael cyflwyno cwyn (sef 'y sawl yr effeithir arno'); eglurhad ynghylch sut bydd cwynion yn cael eu hasesu a'u hystyried gan Ofcom; y terfynau amser ar gyfer cyflwyno cwyn; a chyfrifoldebau achwynwyr a'r BBC yn ystod proses ddyfarnu Ofcom.

## Dull gweithredu arfaethedig

### Cysondeb â Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd y Cod Darlledu

4.25 I raddau helaeth, roedd ein dull o ddrafftio Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Deunydd Ar-lein newydd y BBC yn ymwneud ag adlewyrchu ac addasu'r gweithdrefnau cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd presennol ar gyfer delio â chwynion mewn perthynas â rhaglenni sy'n cael eu darlledu ("Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Darlledu'r BBC").[51] Yn benodol, rydym yn cynnig nad yw Gweithdrefnau Cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Deunydd Ar-lein y BBC yn mynnu bod y sawl sy'n cwyno yn dilyn proses "BBC yn Gyntaf". Mae hyn yn gyson â Chymal 56(5) o'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, a amlinellir uchod ym mharagraff 4.19.

4.26 Rydym yn cynnig ystyried y dyletswyddau a'r meini prawf statudol sy'n ymwneud â chwynion am Degwch a/neu Breifatrwydd Darlledu, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r gwaith o ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion am Degwch a/neu Breifatrwydd sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC. Felly, rydym yn cynnig:

a) bod ein gweithdrefnau'n cydnabod bod gan Ofcom ddyletswydd dan adran 3(2)(f) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") i (ymysg pethau eraill) sicrhau bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd (a phob unigolyn arall) rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath neu dresmasu ar breifatrwydd yn ddiangen sy'n deillio o weithgareddau sy'n cael eu gwneud ar gyfer gwasanaethau o'r fath;

---

[51] Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC.

b) bod ein gweithdrefnau arfaethedig yn cydnabod, bod yn rhaid i Ofcom, wrth gyflawni ei ddyletswydd, ystyried yr angen i'w sicrhau yn y ffordd sy'n rhoi'r sicrwydd gorau y ceir lefel briodol o ryddid mynegiant: adran 3(4)(g) o Ddeddf 2003;
c) bydd Ofcom yn gwneud Penderfyniad i'w Ystyried ar gyfer pob cwyn berthnasol: Adrannau 111 i 130 o Ddeddf 1996, sy'n darparu ar gyfer rhai meini prawf statudol penodol y mae'n rhaid eu diwallu cyn i Ofcom allu bwrw ymlaen i ystyried cwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd (gweler Atodiad 1 o'r gweithdrefnau arfaethedig); a
d) bydd Ofcom yn penderfynu ai'r "sawl yr effeithir arno" yw'r sawl sy'n cwyno cyn bwrw ymlaen i ystyried cwyn.

4.27 Rydym yn cydnabod y gall y "sawl yr effeithir arno" geisio cwyno am gynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar sianeli llinol y BBC neu ei lwytho i fyny ar wasanaeth rhaglenni ar-alw, ac ar yr un pryd, cwyno am yr un cynnwys neu gynnwys tebyg sy'n cael ei bostio yng nghyd-destun deunydd ar-lein y BBC. Felly, rydym am i'n gweithdrefnau fod mor gyson â phosibl, er mwyn cyflawni ein nod o weithdrefnau sy'n hygyrch, yn dryloyw ac yn syml i'r BBC ac i achwynwyr.

### Cysondeb â'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru a Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC

4.28 Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 4.6, mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn gosod rhai gofynion gweithdrefnol ar Ofcom, ac rydym wedi rhoi sylw iddynt wrth baratoi'r gweithdrefnau hyn, er nad yw'r gofynion hyn yn berthnasol yn benodol i gwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd. Yn benodol, mae'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn mynnu'r canlynol:

a) Rhaid i Ofcom beidio â derbyn cwyn sy'n cael ei chyfeirio ato, nac ymyrryd mewn cwyn, am ddeunydd ar-lein y BBC oni bai fod deunydd ar-lein y BBC wedi cael ei bostio ar ôl y dyddiad cychwyn. Diffinnir y dyddiad cychwyn fel y dyddiad y mae Ofcom yn cyhoeddi'r weithdrefn gyntaf (neu'r gweithdrefnau cyntaf) sy'n darparu ar gyfer trin a datrys cwynion am ddeunydd ar-lein y BBC;
b) wrth benderfynu ar gŵyn a wneir am ddeunydd ar-lein y BBC a gafodd ei bostio ar ôl y Dyddiad Cychwyn, caiff Ofcom ystyried deunydd a gafodd ei bostio cyn y dyddiad hwnnw, os ydym yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny.

4.29 Mae Cymal 57(6)/(7) hefyd yn darparu, yn niffyg amgylchiadau eithriadol, na chaiff Ofcom dderbyn cwyn, nac ymyrryd mewn cwyn, am ddeunydd ar-lein y BBC oni bai ei bod wedi cael ei gwneud i'r BBC am y tro cyntaf o fewn 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan gafodd deunydd ar-lein y BBC ei bostio am y tro cyntaf. Gan nad yw proses "BBC yn Gyntaf" yn berthnasol i gwynion ynghylch tegwch a/neu breifatrwydd, rydym wedi cynnig cynnwys darpariaeth y gall Ofcom wrthod ystyried cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd ynghylch Deunydd Ar-lein y BBC os yw'n ymddangos na chafodd ei gwneud o fewn cyfnod rhesymol ar ôl i ddeunydd ar-lein y BBC gael ei bostio am y tro cyntaf. Yn unol â hynny, dylai'r rheini sy'n cwyno gyflwyno eu cwyn i Ofcom cyn pen **30 diwrnod gwaith** i'r dyddiad pan gafodd deunydd ar-lein y BBC ei bostio am y tro cyntaf. Edrychwch ar baragraffau 4.14 i 4.17 uchod sy'n cyfeirio at sut bydd Ofcom yn dehongli pan gafodd deunydd ar-lein y BBC ei "bostio am y tro cyntaf".

4.30 Mae ein Gweithdrefnau Tegwch a/neu Breifatrwydd ar gyfer Cod Deunydd Ar-lein arfaethedig y BBC wedi cael eu drafftio yn unol â'r gofynion hyn.

## Y gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys y BBC: Gwasanaethau darlledu'r BBC;

# gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC; deunydd ar-lein y BBC

## Trosolwg

4.31 Mae pwerau Ofcom i roi sancsiynau i'r BBC wedi'u nodi yn y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith (fel y'u diwygiwyd gan y diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith). Os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC wedi methu â chydymffurfio â gofyniad, gallwn gyfarwyddo'r BBC, neu dderbyn ymrwymiad gan y BBC, i gymryd camau a fydd, yn ein barn ni:

- yn gwneud iawn am y methiant i gydymffurfio; ac
- yn sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i ofynion yn iawn yn y dyfodol.

Cawn hefyd roi dirwy o hyd at £250,000. Ni ddylai Ofcom ddefnyddio'r pwerau hyn oni bai ei fod wedi rhoi cyfle rhesymol i'r BBC wneud sylwadau.[52]

4.30 O dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru (Cymal 57(4)(b)(ii)) mae'n rhaid i'r gweithdrefnau roi arweiniad clir sy'n egluro'r rhwymedïau a'r sancsiynau y mae gan Ofcom y pŵer i'w defnyddio mewn perthynas â chwynion am safonau cynnwys. Rydym yn credu ei bod hefyd yn briodol rhoi arweiniad clir sy'n egluro'r rhwymedïau a'r sancsiynau y mae gan Ofcom y pŵer i'w defnyddio mewn perthynas â chwynion am degwch a/neu breifatrwydd.

## Dull gweithredu arfaethedig

4.32 Ein dull gweithredu arfaethedig yw diwygio'r gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC ("Gweithdrefnau Sancsiynau Cod Darlledu'r BBC").[53] Mae ein diwygiadau arfaethedig yn darparu y bydd penderfyniad ar sancsiwn yn erbyn y BBC – ar ôl torri safonau cynnwys, neu'r Cod Tegwch – mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC yn cael ei ystyried yn unol â'n gweithdrefnau sancsiynau presennol.

4.33 O dan Weithdrefnau Sancsiynau Cod Darlledu presennol y BBC, mabwysiadodd Ofcom ddull gweithredu sy'n gyson â'r hyn sy'n berthnasol i ddarlledwyr a darparwyr gwasanaethau ar-alw eraill. O dan y gweithdrefnau presennol hyn, caiff Ofcom roi sancsiynau pan fydd yn credu bod y BBC wedi torri'r Cod Darlledu yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu'n ddi-hid.

4.34 Bydd ein diwygiadau arfaethedig yn defnyddio'r un fframwaith lle mae'r Cod wedi cael ei dorri'n ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu'n ddi-hid. Mae hyn yn golygu y byddai Ofcom yn dilyn yr un sancsiynau/gweithdrefnau ystyried ar gyfer torri'r Cod ag y mae ar hyn o bryd ar gyfer achosion lle mae'r BBC yn torri'r Cod Darlledu. Mae hyn yn sicrhau cysondeb ac yn cefnogi sicrwydd rheoleiddiol i'r BBC a defnyddwyr/cynulleidfaoedd.

4.35 Rydym yn cynnig diweddaru'r rhestr o enghreifftiau o sancsiynau y gall Ofcom eu rhoi (paragraff 3.2 o'r Gweithdrefnau Sancsiynau arfaethedig, wedi'u diwygio) drwy ychwanegu darpariaeth y gall Ofcom gyfarwyddo'r BBC i dynnu (neu ddiwygio) a pheidio â chynnwys eitem yn ei ddeunydd ar-lein ar unrhyw achlysur yn y dyfodol. Mae'r ychwanegiad hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ein diwygiadau arfaethedig i baragraff 3.5 y Gweithdrefnau Sancsiynau, sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth bresennol y gall Ofcom gyfarwyddo'r BBC i beidio ag ailddarlledu rhaglen: "Os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC yn postio eitem o ddeunydd ar-lein y

[52] Erthygl 49 yn y Siarter.
[53] Y gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC

BBC yn golygu torri Cod Deunydd Ar-lein y BBC, caiff gyfarwyddo'r BBC i dynnu'r eitem honno a pheidio â'i chynnwys yn ei ddeunydd ar-lein ar unrhyw achlysur yn y dyfodol."

4.36 Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r math o sancsiynau y gellir eu gosod yn erbyn y BBC, i gynnwys cyfeiriadau at ddeunydd ar-lein y BBC, sydd wedi'u nodi mewn print trwm yma:

- cyhoeddi cyfarwyddyd i gyfyngu ar fynediad at raglen ar wasanaeth rhaglenni ar-alw y BBC **a/neu ddeunydd ar-lein y BBC**;
- cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr cyn dewis rhaglen benodol ar wasanaeth rhaglenni ar-alw y BBC **a/neu ddeunydd ar-lein penodol y BBC**;
- cyhoeddi cyfarwyddyd i gynnwys cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom, mewn geiriau ac mewn ffordd a bennir gan Ofcom, **neu ddolen i benderfyniad Ofcom ynghylch torri amodau (neu grynodeb ohono) (neu'r tri).**

4.37 Rydym o'r farn bod yr addasiadau cyfyngedig ac wedi'u targedu hyn yn sicrhau cyfatebiaeth swyddogaethol o ran sut gellir defnyddio sancsiynau ar draws cyd-destunau ar-lein, ar-alw a darlledu.

4.38 Rydym hefyd o'r farn bod yr opsiwn o gyfarwyddo'r BBC i gynnwys dolen i benderfyniad Ofcom ynghylch torri amodau (neu grynodeb ohono) yn arbennig o briodol yn yr amgylchedd ar-lein, lle gellir tynnu sylw defnyddwyr yn effeithiol at benderfyniad gorfodi Ofcom heb fod angen cynnwys crynodeb llawn yn y cynnwys ei hun.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

- **Cwestiwn 22:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig i gysoni'r Gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys deunydd ar-lein y BBC â'r gweithdrefnau cyfatebol ar gyfer torri'r Cod Darlledu?
- **Cwestiwn 23:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein dehongliad arfaethedig o ran pryd mae deunydd ar-lein y BBC yn cael ei "bostio am y tro cyntaf"?
- **Cwestiwn 24:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig i gysoni'r Gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri'r Cod Tegwch mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC â'r gweithdrefnau cyfatebol ar gyfer torri'r Cod Tegwch o dan adrannau 7 ac 8 y Cod Darlledu?
- **Cwestiwn 25:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig i ddefnyddio'r un gweithdrefnau sancsiynau ar gyfer achosion o dorri'r Cod ag ar gyfer achosion o dorri'r Cod Darlledu drwy ddiwygio'r gweithdrefnau sancsiynau presennol?
- **Cwestiwn 26:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig i'r mathau o sancsiynau a allai fod ar gael i Ofcom ar ôl i'r BBC dorri safonau cynnwys, neu'r Cod Tegwch mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC?

# A1. Fframwaith Statudol

## Ofcom yn rheoleiddio'r BBC

A1.1 Mae rôl reoleiddio Ofcom dros y BBC yn deillio o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y "Ddeddf"),[54] sy'n rhoi pwerau a dyletswyddau o'r fath i Ofcom y gellir eu rhoi iddo gan neu o dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y "Siarter")[55] a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y "Cytundeb Fframwaith").[56, 57]

A1.2 Mae Erthygl 49 o'r Siarter yn darparu ei bod yn rhaid i Ofcom fynnu bod y BBC yn cydymffurfio â rhai "gofynion penodol" o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru. Mae'r rhain yn cynnwys y rhwymedigaethau rheoleiddio ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn Atodlen 3 (ar wahân i'r rheini sy'n ymwneud â'r canllawiau golygyddol a'i gynlluniau a'i ganllawiau ar gyfer Deunydd Cyhoeddus Ar-lein y DU - gweler paragraffau 2 a 3A(1) o Atodlen 3).[58]

A1.3 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom o dan adran 3 o'r Ddeddf hefyd yn berthnasol i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r BBC.[59] Mae'r rhain yn cynnwys ei brif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[60] Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, mae'n rhaid i Ofcom hefyd ystyried, ymhlith pethau eraill, yr egwyddorion sy'n mynnu bod gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson, a'u bod dim ond yn targedu'r achosion hynny lle mae angen cymryd camau gweithredu[61]. Mae Adran 3 o'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom roi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol dan yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys: (i) natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ymddangos i Ofcom, yn golygu bod angen diogelwch arbennig arnynt; a (ii) pa mor ddymunol yw atal troseddu ac anhrefn.[62]

A1.4 O dan y Siarter, mae'n rhaid i Ofcom hefyd ystyried, fel sy'n briodol, pum diben cyhoeddus y BBC.[63] Rydym yn credu bod y canlynol yn arbennig o berthnasol i'r ymgynghoriad hwn:

- Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas;
- Diben Cyhoeddus 2: Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed; a
- Diben Cyhoeddus 5: Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

---

[54] Adran 198 y Ddeddf.
[55] Y Siarter.
[56] Y Cytundeb Fframwaith.
[57] Cafodd y Cytundeb Fframwaith ei ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2025 (y "diweddariadau i'r Cytundeb Fframwaith"). Rydym yn cyfeirio at hyn fel y "Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru".
[58] Cymal 59(c) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[59] Erthygl 45(1) yn y Siarter.
[60] Adran 3(1) o'r Ddeddf.
[61] Adran 3(3) o'r Ddeddf.
[62] Adran 3(4) o'r Ddeddf.
[63] Erthyglau 6 a 45(2) yn y Siarter.

## Cod Ofcom ar gyfer deunydd ar-lein y BBC

A1.5 Mae rôl newydd Ofcom mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC wedi'i nodi ym mharagraff 3A(2) o Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom osod, ac o bryd i'w gilydd adolygu a diwygio, safonau ar gyfer cynnwys Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y DU (y cyfeirir ato fel "Deunydd Ar-lein y BBC"). Rhaid i'r safonau hyn sicrhau amcanion y safonau a nodir yn adran 319(2)(a), (b) ac (c) (gan gynnwys y gofynion didueddrwydd arbennig yn adran 320) a (d) i (f) o'r Ddeddf (y cyfeirir atynt fel "amcanion safonau perthnasol"):

a) bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu;
b) na fydd deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio;
c) y bydd newyddion sydd wedi'i gynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio yn cael ei gyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy, ac y cydymffurfir â'r gofynion o ran didueddrwydd yn adran 320;
d) y bydd newyddion sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaethau teledu a radio yn cael ei adrodd gyda chywirdeb dyladwy;
e) bod y graddau priodol o gyfrifoldeb yn cael eu harfer mewn perthynas â chynnwys rhaglenni sy'n rhaglenni crefyddol; ac
f) y bydd safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cymhwyso at gynnwys gwasanaethau teledu a radio er mwyn darparu diogelwch digonol i'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd tramgwyddus a niweidiol mewn gwasanaethau o'r fath.

A1.6 Rhaid cynnwys y safonau hynny mewn un neu ragor o godau.[64]

A1.7 Wrth osod safonau ar gyfer cynnwys deunydd ar-lein y BBC, mae'n rhaid i Ofcom roi sylw penodol i bob un o'r materion sydd yn adran 319(4) o'r Ddeddf gydag unrhyw addasiad sy'n ymddangos yn briodol, i'r graddau y maent yn ymddangos yn berthnasol i sicrhau amcanion y safonau a restrir uchod,[65] sef:

a) maint y niwed neu dramgwydd sy'n debygol o gael ei achosi drwy gynnwys unrhyw fath penodol o ddeunydd mewn rhaglenni'n gyffredinol neu mewn rhaglenni o fath penodol;
b) maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl i raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio'n gyffredinol, neu mewn gwasanaethau teledu a radio o fath penodol;
c) disgwyliad tebygol y gynulleidfa o ran natur cynnwys rhaglen a'r graddau y gellir dod â natur cynnwys rhaglen i sylw aelodau posibl y gynulleidfa;
d) y tebygolrwydd y bydd unigolion nad ydynt yn ymwybodol o natur cynnwys rhaglen yn dod yn agored yn anfwriadol, drwy eu gweithredoedd eu hunain, i'r cynnwys hwnnw;
e) pa mor ddymunol yw sicrhau bod cynnwys gwasanaethau'n adnabod pa bryd y ceir newid sy'n effeithio ar natur gwasanaeth y mae rhai'n ei wylio neu'n gwrando arno, ac yn benodol, newid sy'n berthnasol i gymhwyso'r safonau sydd wedi'u gosod dan yr adran hon; ac
f) y dymunoldeb o gadw annibyniaeth y rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglen.

A1.8 Mae'n rhaid i Ofcom hefyd roi sylw penodol i'r gofynion arbennig o ran didueddrwydd sydd yn adran 320 o'r Ddeddf, yn ogystal â gydag unrhyw addasiadau sy'n ymddangos yn briodol, i'r graddau y maent yn ymddangos yn berthnasol i sicrhau amcanion y safonau a restrir

[64] Paragraff 3A(3), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[65] Paragraff 3A(4)(a), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

uchod.[66] Mae'r rhain yn cynnwys cadw didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Mae gofyniad tebyg mewn perthynas â materion gwleidyddol neu ddiwydiannol sy'n destun dadlau helaeth a materion pwysig sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol.

A1.9 Yn olaf, rhaid i Ofcom roi sylw penodol i'r amcan y dylai'r safonau y mae Ofcom yn eu gosod mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC fod yn gyson â'r rheini sydd wedi'u gosod ar gyfer gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu (hynny yw, y Cod Darlledu) i'r graddau y mae Ofcom yn credu sy'n briodol.[67]

A1.10 Yn ogystal â dilyn y Cod, rhaid i'r BBC hefyd ddilyn Cod Tegwch Ofcom i'r graddau y mae Ofcom yn penderfynu bod y safonau yn y Cod Tegwch yn berthnasol i ddarparu deunydd ar-lein y BBC. Yn unol â hynny, nid yw'r Cod arfaethedig yn cynnwys adrannau cyfatebol i Adrannau Saith ac Wyth o'r Cod Darlledu. Fodd bynnag, rydym wedi nodi sut dylai Adrannau Saith ac Wyth fod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC. Dangosir hyn yn Atodiad 3 sydd hefyd yn tynnu sylw at yr addasiadau y byddem yn eu mabwysiadu ac y bwriadwn eu cyhoeddi fel Atodiad i'r Cod Darlledu.

## Dyletswyddau Cyfraith Gyhoeddus

A1.11 Mae'r Cod drafft wedi cael ei ddrafftio yng ngoleuni Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn"). Yn benodol, mae Ofcom wedi rhoi sylw dyledus i'r hawl i ryddid mynegiant, fel y nodir yn Erthygl 10 y Confensiwn, sy'n cwmpasu hawl y gynulleidfa i dderbyn gwybodaeth, syniadau a deunydd creadigol heb ymyrraeth ond â chyfyngiadau sydd wedi'u rhagnodi dan y gyfraith, gan ddilyn nod dilys yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae Ofcom hefyd wedi cydnabod bod gwarchodaeth benodol yn cael ei rhoi yn y ddeddfwriaeth hon i araith wleidyddol ac ar faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae Erthygl 10, ynghyd ag Erthygl 8 ynghylch yr hawl i fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth unigolyn, ac Erthygl 9, yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd, yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau sy'n deillio o'r Cod yn cael eu rhagnodi yn y gyfraith, yn unol â nod dilys, yn gyfreithlon ac yn cael eu hystyried yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Bydd Ofcom yn ystyried y darpariaethau hyn yn ofalus wrth ddefnyddio a gorfodi'r Cod.

A1.12 Mae Ofcom wedi rhoi sylw dyladwy i'r materion a bennir yn adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus") ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

## Trefn Gwyno

A1.13 O dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, bydd yn rhaid i Ofcom hefyd lunio a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â "chwynion perthnasol" a fydd yn ein cyrraedd ynghylch y BBC a'u datrys, pan fydd y sawl sy'n cwyno eisoes wedi cyflwyno cwyn i'r BBC.[68] Mae "cwynion perthnasol" yn gwynion bod y BBC wedi methu â chydymffurfio â gofyniad penodol.[69] Mae'r gofynion penodedig yn cynnwys unrhyw rai o'r rhwymedigaethau rheoleiddiol perthnasol yn Atodlen 3 (gweler paragraff A1.2 uchod i gael rhagor o fanylion).[70]

[66] Paragraff 3A(4)(a), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[67] Paragraff 3A(4)(b), Atodlen 3 i'r Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[68] Cymal 57, y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[69] Cymal 56(9) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.
[70] Cymal 59, y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

Mae Cymal 57(6) y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn cynnwys manylion y mae'n rhaid i Ofcom ddarparu ar eu cyfer yn y gweithdrefnau cwyno. Adlewyrchir y gofynion hyn yn y gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys yn neunydd ar-lein y BBC ("Gweithdrefnau Safonau Cynnwys Cod Deunydd Ar-lein y BBC").

A1.14 Ymysg pethau eraill, rhaid i'r gweithdrefnau hefyd roi arweiniad clir ar y rhwymedïau a'r sancsiynau y mae gan Ofcom y pŵer i'w defnyddio.[71]

[71] Cymal 57(4)(b)(ii), y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru.

# A2. Cod Deunydd Ar-lein y BBC (Drafft)

A2.1 Gweler Atodiad 2 sydd ar gael drwy ddilyn y ddolen hon.

# A3. Cymhwyso'r Cod Tegwch

## Tegwch

### Bwriad yr adran hon yw sicrhau bod y BBC yn osgoi trin unigolion neu gyrff yn anghyfiawn neu'n annheg yn ei ddeunydd ar-lein.

Mae'r adran hon a'r adran sy'n dilyn ar breifatrwydd yn wahanol i adrannau eraill y Cod Darlledu. Maent yn berthnasol i sut mae'r BBC yn trin yr unigolion neu'r cyrff y mae ei ddeunydd ar-lein yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, yn hytrach nag i'r hyn y mae'r cynulleidfaoedd cyffredinol yn dod ar ei draws.

Yn ogystal â chynnwys egwyddor a rheol, mae'r adran hon yn cynnwys "arferion i'w dilyn" gan y BBC wrth ddelio ag unigolion neu gyrff sy'n cymryd rhan mewn deunydd ar-lein neu y mae'r deunydd a gyhoeddodd ar-lein yn effeithio arnynt fel arall. Ni fydd dilyn yr arferion hyn o reidrwydd yn osgoi torri'r Cod Tegwch (a gymhwysir drwy Adran 7 o'r Cod Darlledu) (Rheol 7.1). Fodd bynnag, ni fydd methiant i ddilyn yr arferion hyn ond yn groes i'r Cod os yw'n arwain at annhegwch ag unigolyn neu gorff yn y deunydd ar-lein. Mae'n bwysig nodi nad yw'r adran hon yn gallu nac yn ceisio nodi'r holl "arferion i'w dilyn" er mwyn osgoi triniaeth annheg.

Mae'r darpariaethau canlynol yn yr adran nesaf ar breifatrwydd hefyd yn berthnasol i'r adran hon:

- yr esboniad o fudd cyhoeddus sydd yn ystyr "gyda chyfiawnhad" dan Reol 8.1 yn Adran wyth: Preifatrwydd; ac
- ystyr "cael deunydd mewn modd dirgel" sy'n ymddangos o dan "arferion i'w dilyn" dan 8.13 yn Adran wyth: Preifatrwydd.

## Deddfwriaeth[72]

(Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 3(2)(f) a 326 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac adrannau 107(1) a 130 o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd), Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol (ar gyfer gwasanaethau ECTT yn unig); Erthygl 28 o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol, ac Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Siarter a Chytundeb y BBC.

## Egwyddor

Sicrhau bod y BBC yn osgoi trin unigolion neu gyrff yn anghyfiawn neu'n annheg mewn Deunydd Ar-lein Cyhoeddus y BBC yn y DU ("deunydd ar-lein").

## Rheol

7.1 Rhaid i'r BBC osgoi trin unigolion neu gyrff yn anghyfiawn neu'n annheg yn ei ddeunydd ar-lein.

[72] Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn dal fel y mae'n ymddangos yn Adran Saith o'r Cod Darlledu, ac y mae eisoes yn cyfeirio at Siarter a Chytundeb y BBC. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol a'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol yn berthnasol i ddeunydd ar-lein.

# Arferion i'w dilyn (7.2 i 7.15)

## Delio'n deg â chyfranwyr a chael cydsyniad gwybodus

Arfer 7.2: Fel arfer dylai'r BBC ddelio'n deg â chyfranwyr posibl i ddeunydd ar-lein oni bai fod cyfiawnhad dros wneud fel arall mewn achosion eithriadol.

Arfer 7.3: Os gwahoddir rhywun i gyfrannu at ddeunydd ar-lein (heblaw pan yw'r pwnc yn ddibwys neu'r rhan y mae'n ei chymryd ynddi'n fach) dylid gwneud y canlynol fel arfer ar adeg briodol:

- ei hysbysu am natur a phwrpas y deunydd ar-lein, beth sydd dan sylw yn y deunydd ar-lein a rhoi eglurhad clir iddo am y rheswm dros ofyn iddo gymryd rhan a pha bryd (os yw'n hysbys) ac ym mhle y mae'n debygol o gael ei gyhoeddi gyntaf;
- rhoi gwybod iddo am y math o gyfraniad a ddisgwylir ganddo, er enghraifft, un byw, wedi'i recordio ymlaen llaw, cyfweliad, trafodaeth, wedi'i olygu, heb ei olygu, ac ati;
- ei hysbysu am y meysydd y bydd y cwestiynau'n ymwneud â hwy ac, os yw'n bosibl, natur y cyfraniadau tebygol eraill;
- rhoi gwybod iddo am unrhyw newidiadau pwysig yn y deunydd ar-lein wrth iddo ddatblygu, a allai effeithio'n rhesymol ar ei gydsyniad gwreiddiol i gymryd rhan, ac a allai achosi annhegwch sylweddol;
- ei hysbysu am natur ei hawliau a'i rwymedigaethau contractiol a'r rheini sydd gan y BBC mewn cysylltiad â'i gyfraniad;
- rhoi gwybodaeth glir iddo, os cynigir cyfle iddo weld y deunydd ar-lein ymlaen llaw, ynghylch a fydd yn gallu peri unrhyw newidiadau yn y deunydd; ac
- ei hysbysu am risgiau posibl sy'n codi o'i gyfranogiad yn y deunydd ar-lein, a allai effeithio ar ei les (i'r graddau y gellir rhagweld y rhain yn rhesymol ar y pryd) ac unrhyw gamau y mae'r BBC yn bwriadu eu cymryd i liniaru'r rhain.

Drwy gymryd y camau hyn, mae'n debygol y bydd y cydsyniad a roddir yn 'gydsyniad gwybodus' (a elwir yn yr adran hon ac yng ngweddill y Cod yn "gydsyniad").

Gall fod yn deg dal y cyfan neu rywfaint o'r wybodaeth hon yn ôl os oes cyfiawnhad dros wneud hynny er budd y cyhoedd neu o dan ddarpariaethau eraill yn yr adran hon o'r Cod.

Arfer 7.4: Os yw cyfrannwr dan un ar bymtheg oed, dylid cael cydsyniad fel arfer gan riant neu warcheidwad, neu gan rywun arall sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn yn lle rhiant. Yn benodol, ni ddylid gofyn i rai dan un ar bymtheg oed am eu barn am faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn briodol heb gael cydsyniad o'r fath.

Arfer 7.5: Yn achos rhai dros un ar bymtheg oed nad ydynt mewn sefyllfa i roi cydsyniad, dylai rhywun sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn sydd â'r prif gyfrifoldeb dros ei ofal roi cydsyniad ar eu rhan fel arfer. Yn benodol, ni ddylid gofyn i rai nad ydynt mewn sefyllfa i roi cydsyniad am eu barn am faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn briodol heb gael cydsyniad o'r fath.

Arfer 7.6: Os yw deunydd ar-lein wedi'i olygu, dylid cyfleu cyfraniadau'n deg.

Arfer 7.7: Fel arfer dylid anrhydeddu gwarantiadau a roddir i gyfranwyr, er enghraifft, ynghylch cynnwys deunydd ar-lein, cyfrinachedd neu anhysbysrwydd.

Arfer 7.8: Dylai'r BBC sicrhau nad yw ailddefnyddio cynnwys, hynny yw, defnyddio cynnwys a gafwyd yn wreiddiol at un diben ac a ddefnyddiwyd wedyn gan y BBC at ddiben arall, neu a ddefnyddiwyd mewn cyhoeddiad diweddarach neu wahanol o ddeunydd ar-lein, yn creu annhegwch. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gafwyd gan eraill a deunydd y BBC ei hun.

## Cyfle i gyfrannu ac ystyried ffeithiau'n briodol

Arfer 7.9: Cyn cyhoeddi deunydd ar-lein ffeithiol, gan gynnwys deunydd ar-lein sy'n edrych ar ddigwyddiadau yn y gorffennol, dylai'r BBC gymryd gofal rhesymol i fodloni ei hun:

- nad yw ffeithiau perthnasol wedi'u cyflwyno, eu diystyru neu eu gadael allan mewn modd sy'n annheg ag unigolyn neu gorff; a
- bod unrhyw un y byddai ei adael allan yn gallu bod yn annheg ag unigolyn neu gorff wedi cael cynnig cyfle i gyfrannu.

Arfer 7.10: Ni ddylai deunydd ar-lein – gan gynnwys, yn benodol, dramateiddiadau a dramateiddiadau sy'n seiliedig ar ffeithiau – bortreadu ffeithiau, digwyddiadau, unigolion neu gyrff mewn modd sy'n annheg ag unigolyn neu gorff.

Arfer 7.11: Os bydd deunydd ar-lein yn gwneud honiadau am ddrwgweithredu neu anghymhwyster neu'n gwneud honiadau sylweddol eraill, dylid fel arfer roi cyfle priodol ac amserol i ymateb i'r rhai dan sylw.

Arfer 7.12: Os bydd rhywun y cysylltwyd ag ef i ofyn iddo gyfrannu at ddeunydd ar-lein yn dewis peidio â gwneud sylw neu'n gwrthod cyfrannu, dylai'r deunydd ar-lein egluro bod yr unigolyn dan sylw wedi dewis peidio â chyfrannu a dylai roi ei eglurhad os byddai'n annheg peidio â gwneud hynny.

Arfer 7.13: Os yw'n briodol cyfleu barn person neu gorff nad yw'n cymryd rhan yn y deunydd ar-lein nac yn cyfrannu ato, rhaid gwneud hynny mewn modd teg.

## Defnyddio Twyll

Arfer 7.14: Fel arfer ni ddylai'r BBC gael neu geisio gwybodaeth, deunydd neu gytundeb i gyfrannu drwy gamliwio neu dwyll. (Mae twyll yn cynnwys cael deunydd mewn modd dirgel). Fodd bynnag:

- mae'n bosibl y byddai cyfiawnhad dros ddefnyddio deunydd a gafwyd drwy gamliwio neu dwyll os yw er lles y cyhoedd ac os na ellir ei gael yn rhesymol fel arall;
- os nad oes cyfiawnhad digonol ar sail budd cyhoeddus, dylid cael cydsyniad gan yr unigolyn a/neu gorff dan sylw cyn cyhoeddi'r deunydd ar-lein;
- os na ellir adnabod yr unigolyn a/neu gorff yn y deunydd ar-lein, ni fydd angen cael cydsyniad i gyhoeddi;
- gellir defnyddio deunydd sy'n cynnwys pobl enwog a'r rheini sydd yn llygad y cyhoedd heb gael cydsyniad i'w cynnwys yn y deunydd ar-lein, ond ni ddylid ei ddefnyddio heb fod cyfiawnhad ar sail budd cyhoeddus os yw'n debygol o'u gwneud yn destun gwawd cyhoeddus neu o beri gofid personol nad oes modd ei gyfiawnhau. (Fel arfer, felly, dylid recordio cyfraniadau o'r fath cyn eu darlledu).

## Lles cyfranwyr

Arfer 7.15 Dylid cymryd gofal dyladwy dros les cyfrannwr a allai fod mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i ymddangos mewn deunydd ar-lein, heblaw pan yw'r deunydd yn ddibwys neu'r rhan y mae'n ei chymryd ynddi'n fach.

Gellid ystyried bod cyfrannwr mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i'w gyfranogiad mewn deunydd ar-lein neu gyfrannu at ddeunydd o'r fath am resymau sy'n cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- ei fod yn cael ei ystyried yn berson agored i niwed;
- nad yw wedi arfer bod yn llygad y cyhoedd;
- bod y deunydd ar-lein yn golygu cael ei ffilmio neu ei recordio mewn amgylchedd artiffisial neu wneuthuredig;
- mae'r deunydd ar-lein yn debygol o ddenu lefel uchel o sylw gan y wasg, y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol;
- mae elfennau golygyddol allweddol y deunydd ar-lein yn cynnwys gwrthdaro posibl, anghydfod, sefyllfaoedd sy'n heriol yn emosiynol; neu
- mae'r deunydd ar-lein yn gofyn iddynt drafod, datgelu neu ymwneud ag agweddau sensitif sy'n newid eu bywydau neu agweddau preifat ar eu bywydau.

Dylai'r BBC gynnal asesiad risg i ganfod unrhyw risg o niwed sylweddol i'r cyfrannwr, oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Bydd lefel y gofal sy'n ddyledus i'r cyfrannwr yn gymesur â lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i gyfranogiad yn y deunydd ar-lein neu ei gyfraniad at ddeunydd o'r fath.

**Ystyr "pobl agored i niwed"**

Mae hyn yn amrywio, ond gallai gynnwys pobl sydd ag anawsterau dysgu, pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, pobl sy'n galaru, pobl a gafodd anaf i'w hymennydd neu sydd â mathau o ddementia, pobl sydd wedi dioddef trawma, pobl sy'n wael eu hiechyd neu sydd â salwch terfynol.

# Preifatrwydd

### Bwriad yr adran hon yw sicrhau bod y BBC yn osgoi unrhyw dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad yn ei ddeunydd ar-lein ac mewn cysylltiad â chael deunydd sydd wedi'i gynnwys yn ei ddeunydd ar-lein.

Mae'r adran hon a'r adran flaenorol ar degwch yn wahanol i adrannau eraill y Cod Darlledu. Maent yn berthnasol i sut mae'r BBC yn trin yr unigolion neu'r cyrff y mae ei ddeunydd ar-lein yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, yn hytrach nag i'r hyn y mae'r cynulleidfaoedd cyffredinol yn dod ar ei draws.

Yn ogystal â chynnwys egwyddor a rheol, mae'r adran hon yn cynnwys "arferion i'w dilyn" gan y BBC wrth ddelio ag unigolion neu gyrff sy'n cymryd rhan mewn deunydd ar-lein neu y mae'r deunydd ar-lein yn effeithio arnynt fel arall, neu sy'n cynhyrchu deunydd ar-lein. Ni fydd dilyn yr arferion hyn o reidrwydd yn osgoi torri'r Cod Tegwch (a gymhwysir drwy Adran Wyth o'r Cod Darlledu) (Rheol 8.1). Fodd bynnag, ni fydd methiant i ddilyn yr arferion hyn ond yn groes i'r cod os yw'n arwain at dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Mae'n bwysig nodi nad yw'r adran hon yn gallu nac yn ceisio nodi'r holl "arferion i'w dilyn" er mwyn osgoi tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad.

Mae'r Siarter a'r Cytundeb Fframwaith yn mynnu bod Ofcom yn ystyried cwynion am dresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad mewn deunydd ar-lein neu mewn cysylltiad â chael deunydd sydd wedi'i gynnwys mewn deunydd ar-lein o'r fath. Gallai hyn alw am rai penderfyniadau anodd yn y fan a'r lle ynghylch a dresmasir ar breifatrwydd heb gyfiawnhad drwy adrodd, yn enwedig wrth adrodd ar sefyllfaoedd o argyfwng ("arferion i'w dilyn" 8.5 i 8.8 ac 8.16 i 8.19). Rydym yn cydnabod y gallai fod budd cryf i'r cyhoedd mewn adrodd ar sefyllfa o argyfwng wrth iddo ddigwydd ac rydym yn deall y gallai fod pwysau ar y rheini sy'n gohebu o leoliad trychineb neu argyfwng a allai ei gwneud yn anodd barnu ar y pryd a yw ffilmio, recordio neu gael gafael ar ddeunydd arall yn golygu tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Mae'r rhain yn ffactorau y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth ddyfarnu ynghylch cwynion.

Pan gyfeirir at gydsyniad yn Adran Wyth o'r Atodiad hwn, mae'n cyfeirio at gydsyniad gwybodus.

Gweler "arfer i'w ddilyn" 7.3 yn Adran Saith: Tegwch yn yr Atodiad hwn.

# Deddfwriaeth[73]

Ymhlith yr eitemau deddfwriaeth perthnasol y mae, yn benodol, adrannau 3(2)(f) a 326 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, adrannau 107(1) a 130 o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd), ac Erthyglau 8 a 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Siarter a Chytundeb y BBC.

# Egwyddor

Sicrhau bod y BBC yn osgoi unrhyw dresmasu heb gyfiawnhad ar breifatrwydd mewn Deunydd Ar-lein Cyhoeddus yn y DU ("deunydd ar-lein"), ac mewn cysylltiad â chael gafael ar ddeunyddiau sydd wedi'u cynnwys yn ei ddeunydd ar-lein.

# Rheol

8.1 Rhaid cael cyfiawnhad dros unrhyw dresmasu ar breifatrwydd yn neunydd ar-lein y BBC, neu mewn cysylltiad â chael deunydd sydd wedi'i gynnwys yn ei ddeunydd ar-lein.

**Ystyr "cyfiawnhad"**

Yn yr adran hon, mae ystyr penodol i'r term "cyfiawnhad". Mae hyn yn golygu, pan fydd y BBC yn dymuno cyfiawnhau tresmasu ar breifatrwydd, y dylai allu dangos pam, yn amgylchiadau penodol yr achos, fod cyfiawnhad dros hynny. Os mai budd y cyhoedd yw'r rheswm dros hyn, dylai'r BBC allu dangos bod budd y cyhoedd yn drech na'r hawl i breifatrwydd. Byddai enghreifftiau o fudd y cyhoedd yn cynnwys datgelu neu ganfod trosedd, diogelu iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, datgelu honiadau camarweiniol gan unigolion neu gyrff neu ddatgelu anghymhwysedd sy'n effeithio ar y cyhoedd.

## Arferion i'w dilyn (8.2 i 8.22)

### Bywydau preifat, mannau cyhoeddus a disgwyliad dilys o breifatrwydd

**Ystyr "disgwyliad dilys o breifatrwydd"**

[73] Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn dal fel y mae'n ymddangos yn Adran Wyth o'r Cod Darlledu, ac y mae eisoes yn cyfeirio at Siarter a Chytundeb y BBC. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw adran 326 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn berthnasol i ddeunydd ar-lein.

Bydd disgwyliadau dilys o breifatrwydd yn amrywio yn ôl lle a natur yr wybodaeth, y gweithgaredd neu'r cyflwr dan sylw, i ba raddau y mae ar gael i'r cyhoedd (os o gwbl) ac a yw'r unigolyn dan sylw eisoes yn llygad y cyhoedd. Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle gall pobl ddisgwyl preifatrwydd yn rhesymol hyd yn oed mewn man cyhoeddus. Gall rhai gweithgareddau ac amodau fod mor breifat fel y gallai ffilmio neu recordio, hyd yn oed mewn man cyhoeddus, olygu tresmasu ar breifatrwydd. Mae pobl sy'n destun ymchwiliad neu sydd yn llygad y cyhoedd, a'u teulu a'u ffrindiau agos, yn cadw'r hawl i fywyd preifat, er y gall ymddygiad preifat arwain at ystyriaethau sydd o ddiddordeb dilys i'r cyhoedd.

Arfer 8.2: Ni ddylid datgelu gwybodaeth sy'n dangos lleoliad cartref rhywun neu gartref ei deulu heb ganiatâd, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny.

Arfer 8.3: Pan fydd pobl yn cael eu dal mewn digwyddiadau sy'n cael sylw yn y newyddion, mae ganddynt hawl i breifatrwydd o hyd wrth greu a chyhoeddi deunydd ar-lein, oni bai fod cyfiawnhad dros dresmasu ar yr hawl honno. Mae hyn yn gymwys i adeg y digwyddiadau hyn ac i unrhyw gyhoeddiadau diweddarach sy'n rhoi sylw eto i'r digwyddiadau hynny.

Arfer 8.4: Dylai'r BBC sicrhau nad yw gwybodaeth a/neu ddeunydd a geir mewn man cyhoeddus mor breifat fel bod angen cydsyniad ymlaen llaw gan yr unigolyn neu'r corff dan sylw cyn ei gyhoeddi, oni bai fod cyfiawnhad dros ei gyhoeddi heb gael cydsyniad.

## Cydsyniad

Arfer 8.5: Os oes unrhyw dresmasu ar breifatrwydd wrth greu deunydd ar-lein, dylid cael cydsyniad gan yr unigolyn a/neu'r corff ar gyfer hynny neu dylai fod cyfiawnhad drosto fel arall.

Arfer 8.6: Os byddai cyhoeddi'r deunydd ar-lein yn tresmasu ar breifatrwydd unigolyn neu gorff, dylid cael cydsyniad cyn cyhoeddi'r deunydd perthnasol, oni bai fod cyfiawnhad dros dresmasu ar breifatrwydd.

Arfer 8.7: Os tresmasir ar breifatrwydd unigolyn neu gorff, a'i fod yn gofyn i'r ffilmio, recordio, ffrydio byw, cyfweld neu gael deunydd arall ddod i ben, dylai'r BBC wneud hynny, oni bai fod cyfiawnhad dros barhau.

Arfer 8.8: Wrth ffilmio, recordio neu gael deunydd arall mewn sefydliadau, cyrff neu asiantaethau eraill, dylid cael caniatâd gan yr awdurdod neu reolwr perthnasol, oni bai fod cyfiawnhad dros gael y deunydd heb gael caniatâd. Fel arfer ni fyddai angen cael cydsyniad unigol gan weithwyr neu eraill sy'n ymddangos yn ddamweiniol neu lle y maent i bob pwrpas yn aelodau di-enw o'r cyhoedd.

Fodd bynnag, mewn mannau a allai fod yn sensitif fel ambiwlansiau, ysbytai, ysgolion, carchardai neu orsafoedd heddlu, dylid cael cydsyniad ar wahân fel arfer cyn cael gafael ar y deunydd gan y rheini sydd mewn sefyllfaoedd sensitif a chyn cyhoeddi'r deunydd ar-lein (oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â chael cydsyniad). Os na fydd modd adnabod yr unigolyn yn y deunydd ar-lein, ni fydd angen cael cydsyniad ar wahân ar gyfer cyhoeddi.

## Cael deunydd ac ailddefnyddio deunydd

Arfer 8.9: Rhaid i'r dull o gael deunydd fod yn gymesur yn yr holl amgylchiadau ac yn benodol i bwnc y deunydd ar-lein.

Arfer 8.10: Dylai'r BBC sicrhau nad yw ailddefnyddio cynnwys, hynny yw, defnyddio cynnwys a gafwyd yn wreiddiol at un diben ac a ddefnyddiwyd wedyn gan y BBC at ddiben arall, neu a ddefnyddiwyd mewn cyhoeddiad diweddarach neu wahanol o ddeunydd ar-lein, yn arwain at dresmasu ar breifatrwydd. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gafwyd gan eraill a deunydd y BBC ei hun.

Arfer 8.11: Ni ddylid **ffilmio neu recordio'n ddirybudd** ar gyfer eitemau ar-lein ffeithiol oni bai fod cais am gyfweliad wedi'i wrthod neu nad yw wedi bod yn bosibl gwneud cais am gyfweliad, neu fod rheswm da dros gredu y caiff ymchwiliad ei lesteirio os cysylltir â'r gwrthrych yn agored, a bod cyfiawnhad dros gyfweld yn ddirybudd. Fodd bynnag, fel arfer gall y BBC gyfweld, ffilmio neu recordio pobl yn y newyddion heb rybudd ymlaen llaw pan fyddant mewn mannau cyhoeddus.

(Gweler "arferion i'w dilyn" 8.15)

**Ystyr "ffilmio neu recordio'n ddirybudd"**

Mae ffilmio neu recordio'n ddirybudd yn cyfeirio at ffilmio neu recordio cyfweliad neu ymgais i gyfweld rhywun, neu gyhoeddi bod galwad yn cael ei ffilmio neu ei recordio at ddibenion cyhoeddi, heb unrhyw rybudd ymlaen llaw. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys barn y bobl neu 'vox-pops' (samplu barn aelodau'r cyhoedd ar hap).

Arfer 8.12: Gall y BBC recordio galwadau ffôn rhwng y BBC a'r parti arall os ydynt, ar ddechrau'r alwad, wedi dweud pwy ydynt, wedi egluro pwrpas yr alwad a bod yr alwad yn cael ei recordio a'i bod yn bosibl y caiff ei chynnwys mewn cyhoeddiad o ddeunydd ar-lein (os yw hynny'n wir) oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â gwneud un neu ragor o'r arferion hyn. Os daw'n amlwg yn ddiweddarach y bydd galwad sydd wedi'i recordio'n cael ei chyhoeddi ar-lein (ond na chafodd hynny ei egluro i'r parti arall ar adeg yr alwad) yna rhaid i'r BBC gael cydsyniad gan y parti arall cyn ei chyhoeddi, oni bai fod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny.

(Gweler "arferion i'w dilyn" 7.14 ac 8.13 i 8.15)

Arfer 8.13: Dim ond os oes cyfiawnhad dros hynny y dylid cael deunydd mewn modd dirgel. Fel arfer, ni fydd cyfiawnhad dros hynny oni bai fod:

- tystiolaeth prima facie o stori sydd er budd y cyhoedd; a
- bod lle rhesymol i amau y gellid cael tystiolaeth berthnasol bellach; a
- bod hynny'n angenrheidiol er mwyn hygrededd a dilysrwydd y deunydd ar-lein.

(Gweler "arferion i'w dilyn" 7.14, 8.12, 8.14 ac 8.15)

**Ystyr "cael deunydd mewn modd dirgel"**

Pan geir deunydd heb yn wybod i'r unigolyn dan sylw. Er enghraifft, defnyddio lensys hir neu declynnau recordio, yn ogystal â gadael camera neu declyn recordio heb neb i ofalu amdano ar eiddo preifat heb gael cydsyniad llawn a gwybodus y preswylwyr neu eu hasiant. Gall hefyd gynnwys recordio neu dynnu sgrinlun o sgyrsiau ffôn, fideo neu destun yn ddiarwybod i'r parti arall, neu barhau â recordiad yn fwriadol pan fydd y parti arall yn meddwl ei fod wedi dod i ben.

Arfer 8.14: Dim ond pan fydd cyfiawnhad dros hynny y dylid cyhoeddi deunydd a gafwyd mewn modd dirgel.

Arfer 8.15: Gellir cyfiawnhau cael deunydd mewn modd dirgel neu ffilmio neu recordio'n ddirybudd at ddibenion adloniant os yw'n rhan annatod o'r adloniant ac nad yw'n golygu tresmasu'n sylweddol ar breifatrwydd fel ei fod yn achosi annifyrrwch, gofid neu embaras sylweddol. Ni ddylid cyhoeddi'r deunydd a gafwyd o ganlyniad heb gael cydsyniad y rheini sy'n gysylltiedig. Fodd bynnag, os na ellir adnabod yr unigolyn a/neu'r corff yn y deunydd ar-lein, ni fydd angen cael cydsyniad ar gyfer cyhoeddi.

(Gweler "arferion i'w dilyn" 7.14 ac 8.11 i 8.14)

## Dioddefaint a thrallod

Arfer 8.16: Ni ddylai'r BBC gael na chyhoeddi deunydd sy'n cynnwys pobl sydd wedi'u dal mewn argyfwng, rhai sydd wedi bod mewn damwain neu'r rhai sy'n dioddef trasiedi bersonol, hyd yn oed mewn man cyhoeddus, os yw hynny'n arwain at dresmasu ar breifatrwydd, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny neu fod y bobl sy'n gysylltiedig wedi rhoi cydsyniad.

Arfer 8.17: Ni ddylid rhoi pwysau ar bobl sydd mewn trallod i gyfrannu at ddeunydd ar-lein neu gymryd rhan mewn cyfweliadau, oni bai fod cyfiawnhad dros hynny.

Arfer 8.18: Dylai'r BBC ofalu nad yw'n datgelu pwy yw rhywun sydd wedi marw neu sydd wedi dioddef oherwydd damwain neu drosedd treisiol, oni bai a hyd nes ei bod yn amlwg bod y perthynas agosaf wedi cael gwybod am y digwyddiad neu oni bai fod cyfiawnhad dros hynny.

Arfer 8.19: Dylai'r BBC geisio lleihau'r gofid posibl i ddioddefwyr a/neu berthnasau wrth wneud neu gyhoeddi deunydd ar-lein sydd â'r bwriad o archwilio digwyddiadau yn y gorffennol sy'n cynnwys trawma i unigolion (gan gynnwys troseddu) oni bai fod cyfiawnhad dros wneud fel arall. Mae hyn yn berthnasol i ail-greu dramatig a dramâu ffeithiol, yn ogystal â deunydd ffeithiol ar-lein.

Yn benodol, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylai dioddefwyr byw a/neu deuluoedd agos y rheini y mae eu profiad i'w gynnwys yn y deunydd ar-lein gael gwybod am y cynlluniau ar gyfer y deunydd ar-lein a'r bwriad i'w gyhoeddi, hyd yn oed os yw'r digwyddiadau neu'r deunydd sydd i'w gyhoeddi wedi bod ar gael i'r cyhoedd yn y gorffennol.

## Pobl dan un ar bymtheg oed a phobl sy'n agored i niwed

Arfer 8.20: Dylai'r BBC roi sylw penodol i breifatrwydd pobl dan un ar bymtheg oed. Ni fyddant yn colli eu hawl i breifatrwydd oherwydd enwogrwydd neu enw drwg eu rhieni, er enghraifft, neu oherwydd digwyddiadau yn eu hysgolion.

Arfer 8.21: Pan fydd deunydd ar-lein yn cynnwys unigolyn dan un ar bymtheg oed neu unigolyn agored i niwed mewn ffordd sy'n tresmasu ar breifatrwydd, rhaid cael cydsyniad lle bo hynny'n briodol gan:

- lle bynnag y bo modd, yr unigolyn sydd dan sylw; a
- rhiant, gwarcheidwad neu unigolyn arall sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn in loco parentis (yn achos unigolion dan un ar bymtheg oed); neu
- unigolyn sydd â'r prif gyfrifoldeb am ei ofal (yn achos person agored i niwed nad yw'n gallu rhoi cydsyniad)

oni bai fod y cynnwys yn ddibwys neu'n annadleuol a bod y cyfranogiad yn fach, neu fod cyfiawnhad dros fwrw ymlaen heb gael cydsyniad.

Arfer 8.22: Ni ddylid holi pobl dan un ar bymtheg oed a phobl agored i niwed am faterion preifat heb gael cydsyniad rhiant, gwarcheidwad neu berson arall sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn in loco parentis (yn achos pobl dan un ar bymtheg oed), neu berson sydd â'r prif gyfrifoldeb am eu gofal (yn achos person agored i niwed), oni bai fod cyfiawnhad dros fwrw ymlaen heb gael cydsyniad.

**Ystyr "pobl agored i niwed"**

Mae hyn yn amrywio, ond gallai gynnwys y bobl sydd ag anawsterau dysgu, pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, pobl sy'n galaru, pobl a gafodd anaf i'w hymennydd neu sydd â mathau o ddementia, pobl sydd wedi dioddef trawma, pobl sy'n wael eu hiechyd neu sydd â salwch terfynol.

# A4. Gweithdrefnau


Atodiad 4A: Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri safonau cynnwys

Atodiad 4B: Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd

Atodiad 4C: Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys y BBC.

# A5. Asesiadau o'r effaith

## Asesiad o'r effaith

A5.1 Mae Ofcom yn cydnabod bod y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud yn gallu sicrhau gwerth sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gallu arwain at gostau sylweddol i'n rhanddeiliaid. Mae asesiadau effaith yn ffordd werthfawr o asesu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y dewiswyd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Maent yn rhan o'r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau.

A5.2 Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal a chyhoeddi asesiad o effaith cynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall effeithiau penderfyniadau polisi rydym yn bwriadu eu gwneud ac i ystyried a fyddai'r penderfyniadau hynny'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.

A5.3 Fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal asesiadau effaith ar gyfer y rhan fwyaf o'n penderfyniadau polisi ac mae ganddo ddisgresiwn o ran sylwedd a ffurf asesiad effaith. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu a chyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.[74]

A5.4 Fel y nodir ym mharagraff 3.6 o'n canllaw asesu effaith, bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen i ni gynnal asesiad effaith yn dibynnu ar natur y cynnig rydym yn ei gyflwyno, yn benodol (i) a oes rhaid i Ofcom weithredu mewn ffordd benodol; a (ii) a yw cynnig unigol yn gweithredu polisi neu broses sydd eisoes wedi bod yn destun asesiad effaith. Enghraifft o senario lle na fydd angen asesiad effaith fel rheol yw pan fydd deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn ymyrryd (er y gallwn gynnal asesiad effaith lle mae gennym ddisgresiwn ynghylch yr union ffordd rydym yn ymyrryd). Mewn achosion lle na fyddwn yn cynnal asesiad effaith fel rhan o ymgynghoriad, byddwn yn esbonio pam.

A5.5 Rydym wedi ystyried effeithiau ein bwriad i weithredu'r gofynion statudol yn yr ymgynghoriad hwn ac wrth baratoi'r Cod drafft. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

a) manteision tebygol a mesurau diogelu ar gyfer cynulleidfaoedd, gan gyfrannu at effeithiolrwydd ein cynigion yn gyffredinol o ran cyflawni ein hamcanion;
b) a yw effeithiau ein cynigion ar y BBC yn gymesur.

## Effeithiau ar y BBC

A5.6 Fel yr amlinellwyd uchod, mae ein cylch gwaith rheoleiddio mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC yn newid o gael y pŵer i gyhoeddi barn ar gydymffurfiad y BBC â'i Ganllawiau Golygyddol ei hun, i gael pwerau gorfodi llawn newydd dros ddeunyddiau ar-lein penodol y BBC o dan ein Cod newydd ac mewn perthynas â'r Cod Tegwch. Effaith bosibl y newid hwn yr ydym yn ei asesu yn yr atodiad hwn.

A5.7 Yn gyffredinol, nid ydym yn credu y bydd y Cod a'r gweithdrefnau arfaethedig, sy'n rhoi'r newid hwn ar waith, yn rhoi baich sylweddol ar y BBC. Y rheswm am hyn yw nad yw'r Cod yn cyflwyno safonau newydd nad yw'r BBC eisoes yn cydymffurfio â nhw wrth iddo gydymffurfio â'i ddeunydd ar-lein. Mae ei Ganllawiau Golygyddol, sy'n berthnasol ar hyn o

[74] Ofcom, Canllawiau Asesu Effaith, 2023.

bryd i'w gynnwys ar-lein, ar-alw a darlledu, eisoes yn ystyried y Cod Darlledu ac maent yn fwy manwl ac yn fwy cyfyngedig mewn rhai mannau. Mae'r Cod newydd yn cyd-fynd yn agos â'r Cod Darlledu gan fod y ddau god yn seiliedig ar yr un amcanion safonau ac mae'n rhaid i Ofcom baratoi'r Cod gan roi sylw penodol i'r amcan o fod yn gyson â'r Cod Darlledu, fel sy'n briodol.

A5.8 Gan fod ein cynigion yn y Cod yn adlewyrchu gofynion y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, rydym o'r farn bod unrhyw effeithiau'n deillio o'r dyletswyddau yn y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru yn hytrach nag o'n cynigion. Serch hynny, rydym wedi dadansoddi rhai costau a risgiau posibl i'r BBC yn fanylach isod.

## Costau a risgiau

### Ymgyfarwyddo gan y BBC a gwelliannau posibl i'w brosesau cwyno

A5.9 Yn ein barn ni, mae'n debygol y bydd y BBC yn wynebu rhywfaint o gostau untro wrth ymgyfarwyddo â'r Cod a dogfennau cysylltiedig ac ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'w Ganllawiau Golygyddol yn dilyn y newid i'n cylch gwaith. Rydym wedi ceisio adlewyrchu'r Cod Darlledu a'i weithdrefnau cwyno cysylltiedig, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, er mwyn lleihau'r effaith a'r baich rheoleiddio ar y BBC, felly rydym yn disgwyl i unrhyw gostau untro o'r fath fod yn isel iawn. Dylai'r BBC hefyd fod yn gyfarwydd â chynnwys y Cod Tegwch.

A5.10 Efallai y bydd angen i'r BBC hefyd wneud diwygiadau cyfyngedig i'w brosesau delio â chwynion a'i ddeunyddiau cysylltiedig. Er enghraifft:

- diweddaru ei fframwaith cwynion i adlewyrchu cylch gwaith rheoleiddio newydd Ofcom dros ddeunydd ar-lein y BBC, yn enwedig mewn perthynas â'r canlynol;
    - y terfyn amser ar gyfer gwneud cwyn i'r BBC gan ystyried cynnig Ofcom o dan y gweithdrefnau cwyno drafft, sef pan fydd y BBC yn gwneud newidiadau sylweddol i gynnwys neu amlygrwydd ei ddeunydd ar-lein ar ôl iddo gael ei bostio am y tro cyntaf, caiff Ofcom drin dyddiad y newidiadau hyn fel y dyddiad "postio cyntaf" at ddibenion y cyfyngiadau amser ar gyfer gwneud cwyn i Ofcom[75]; ac
    - adlewyrchu'r posibilrwydd newydd y gall Ofcom ystyried rhoi sancsiwn mewn perthynas â deunydd ar-lein pan fydd achos difrifol, bwriadol, ailadroddus neu ddi-hid o dorri'r Cod; a/neu
- ddiwygio ei dempledi ymateb i gwynion a'i wybodaeth ar-lein i adlewyrchu cylch gwaith rheoleiddio newydd Ofcom.

### Cynnydd posibl yn y llwyth gwaith yn sgil mwy o gyswllt ag Ofcom

A5.11 Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod lefel ymgysylltiad presennol y BBC ag Ofcom ynghylch ei ddeunydd ar-lein yn gymharol gyfyngedig. Er enghraifft, rhwng 2017/18 a 2024/25 dim ond saith barn a roddodd Ofcom ynghylch a oedd y BBC wedi glynu wrth Ganllawiau Golygyddol perthnasol y BBC yn ei ddeunydd ar-lein (dim ond tri o'r rhain a oedd wedi

[75] Ar hyn o bryd, mae Fframwaith Cwynion y BBC yn nodi y dylai achwynwyr "wneud cwyn cyn pen 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd y cynnwys ei ddarlledu neu ei gyhoeddi ar bbc.co.uk neu ar un o safleoedd cyfryngau cymdeithasol y BBC" ac "os byddwch yn cwyno am gynnwys sydd wedi'i gyhoeddi ar hyn o bryd ar un o wefannau'r BBC, dylech ei wneud cyn pen 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan ymddangosodd ar-lein am y tro cyntaf. Mae'n bosibl y gwnaiff y BBC ystyried cwynion a ddaw i law ar ôl hynny ond dim ond os yw'n fodlon bod rheswm da dros yr oedi, bod y mater y cwynwyd amdano yn ddifrifol, o'i farnu yn erbyn safonau golygyddol y BBC, a'i bod yn ymarferol ac yn gost-effeithiol ymchwilio iddo a dod i benderfyniad teg yn ei gylch.

canfod nad oedd wedi gwneud hynny). Ar ben hynny, yn 2024/25, dim ond 60 o achosion deunyddiau ar-lein gwnaeth Ofcom eu hasesu, gan gau 58 heb unrhyw gamau pellach (o'i gymharu â 157 o achosion yn ymwneud â chynnwys darlledu neu ar-alw y BBC).[76]

A5.12 Mae'r Trefniant Ar-lein presennol eisoes yn darparu ffordd i gynulleidfaoedd wneud cwyn i Ofcom am ddeunydd ar-lein y BBC. Er y byddwn yn symud o oruchwylio i orfodi deunydd ar-lein y BBC o dan y drefn reoleiddio newydd, nid oes gennym dystiolaeth ar hyn o bryd y byddai hyn yn debygol o newid nifer y cwynion yn sylweddol. Os felly, mae'n dilyn nad yw lefel yr ymgysylltu rhwng y BBC ac Ofcom yn debygol o newid yn sylweddol chwaith. Byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn ond nid ydym yn credu ar hyn o bryd y bydd y drefn reoleiddio newydd yn cynyddu llwyth gwaith y BBC yn sylweddol.

A5.13 Er gwaethaf hyn, mae'n bosibl y bydd ein cynnig i ddiwygio ein gweithdrefnau sancsiynau fel eu bod yn berthnasol i achosion o dorri'r Cod a'r Cod Tegwch mewn deunydd ar-lein y BBC, yn ogystal â thorri'r Cod Darlledu, yn arwain at ymgysylltiad ychwanegol ag Ofcom mewn achosion yn ymwneud â sancsiynau. Fodd bynnag, rydym yn nodi, fel yr amlinellir uchod, mai dim ond tair barn a ddaeth i'r casgliad nad oedd y BBC wedi dilyn ei Ganllawiau Golygyddol yn ei ddeunydd ar-lein rhwng 2017/18 a 2024/25. Hyd yn oed pe bai achosion o'r fath yn cael eu trin fel achosion o dorri'r Cod neu'r Cod Tegwch arfaethedig, ni fyddent o reidrwydd yn cael eu hystyried ar gyfer sancsiwn; dim ond achosion difrifol, bwriadol, di-hid, neu ailadroddus o dorri'r Cod fyddai'n gymwys. Felly, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd ein cynigion yn cynyddu llwyth gwaith y BBC yn sylweddol.

A5.14 Yn gyffredinol, rydym o'r farn nad yw'r newid o oruchwylio i orfodi yn debygol o effeithio'n sylweddol ar lwyth gwaith y BBC o ran ymgysylltu ag Ofcom ar gwynion, gan fod y gweithdrefnau sylfaenol yn eithaf tebyg.

## Asesu hawliau

A5.15 Fel awdurdod cyhoeddus, rhaid i Ofcom weithredu'n unol â'i ddyletswyddau cyfraith gyhoeddus i weithredu'n gyfreithlon, yn rhesymol ac yn deg, ac mae'n anghyfreithlon i Ofcom weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.[77]

A5.16 Rhaid i unrhyw ymyrraeth â hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol gael ei rhagnodi gan y gyfraith, dilyn nod dilys a bod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Rhaid i'r ymyrraeth fod yn gymesur â'r nod dilys a geisir ac yn cyfateb i angen cymdeithasol dybryd.

A5.17 Wrth gynnal ein hasesiad hawliau o'n cynigion, rydym wedi mynd i'r afael â'r effeithiau hawliau perthnasol ar ddefnyddwyr, y BBC a phobl eraill ac rydym wedi ystyried i ba raddau y gallai ein cynigion ymyrryd â hawliau penodol yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

A5.18 Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod yr Egwyddorion a'r Rheolau rydym yn eu cynnig ym mhob adran o'r Cod drafft, a'n dull arfaethedig o orfodi'r Cod Tegwch, yn cynrychioli cydbwysedd teg rhwng sicrhau gwarchodaeth ddigonol i gynulleidfaoedd a hawliau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol cynulleidfaoedd a'r BBC, a phartïon eraill sydd â diddordeb, fel sy'n berthnasol. Dylai ein Hegwyddorion a'n Rheolau arfaethedig egluro beth yw bwriad y

[76] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofcom 2024-25, t202
[77] Adran 6, Deddf Hawliau Dynol 1998.

Cod a helpu'r BBC i wneud y penderfyniadau angenrheidiol a sicrhau bod ei ddeunydd ar-lein yn cydymffurfio â chyfreithiau perthnasol y DU.

## Rhyddid mynegiant

A5.19 Fel y nodwyd uchod, rhaid i unrhyw ymyrraeth â'r hawl o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fod yn gymesur â'r nod dilys a ddilynir ac yn cyfateb i angen cymdeithasol dybryd. Drwy gydol y broses, mae Ofcom wedi ystyried yn ofalus effaith y Cod ar hawliau Erthygl 10 y BBC a chynulleidfaoedd.

A5.20 Rydym o'r farn bod unrhyw ymyrraeth yn gyfyngedig, a bod ein cynigion yn bodloni gofynion Erthygl 10(2) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel rhai sydd wedi'u rhagnodi gan y gyfraith, wrth fynd ar drywydd nod dilys a'u bod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Y Ddeddf, y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, a'r Cod fel y'u nodir yw'r gyfraith berthnasol at ddibenion Erthygl 10(2). Mae'r nodau dilys perthnasol a ddilynir yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn atal anhrefn neu droseddu, er budd diogelwch y cyhoedd ac er mwyn diogelu iechyd neu foesau, a diogelu hawliau pobl eraill. Mae'r rhain yn cael eu cyflawni drwy sicrhau safonau deunydd ar-lein y BBC, sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyfer rhaglenni sy'n diogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol, sicrhau bod newyddion cywir a diduedd ar gael, a cheisio cynnal trafodaeth ddemocrataidd deg a chyfartal yn neunyddiau ar-lein y BBC er budd cymdeithas yn gyffredinol drwy fynnu bod gwylwyr yn cael amrywiaeth o safbwyntiau a fydd wedyn yn gallu cymryd rhan ar sail gwybodaeth mewn prosesau democrataidd.

A5.21 Rydym wedi rhoi sylw penodol i'r rhwymedigaeth benodol yn y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru bod yn rhaid i Ofcom, wrth baratoi'r Cod, "…ystyried, yn benodol, y canlynol: (a) pob un o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 319(4) o Ddeddf Cyfathrebu 2003…", sy'n cynnwys rhoi sylw "yn benodol ac i'r graddau y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn berthnasol i sicrhau amcanion y safonau, i […] (f) y dymunoldeb o gynnal annibyniaeth rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglenni". Rydym hefyd wedi rhoi sylw i nod y Cod i gadw ymddiriedaeth yn y BBC, yn enwedig ym maes didueddrwydd dyladwy.

A5.22 Am yr holl resymau uchod, mae Ofcom yn dod i'r casgliad dros dro bod unrhyw ymyrraeth â rhyddid mynegiant o'n Cod arfaethedig yn gymesur â'r nod dilys a ddilynir, sy'n cyfateb i angen cymdeithasol dybryd ac yn gyffredinol yn gyfiawn.

## Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd

A5.23 Wrth baratoi'r Cod drafft, rydym wedi ystyried yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd, ac rydym o'r farn bod unrhyw ymyrraeth â'r hawl hon yn gyfyngedig, yn gymesur, a bod ein cynigion yn bodloni gofynion Erthygl 9(2) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel rhai sy'n cael eu rhagnodi gan y gyfraith, ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd ac er mwyn diogelu trefn gyhoeddus, iechyd neu foesau. Rydym wedi ystyried effaith rhai rheolau drafft ar gynnwys crefyddol o dan ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (paragraffau A5.37-A5.39 isod).

## Preifatrwydd

A5.24 Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi'r hawl i barchu bywyd preifat a theuluol unigolyn. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r wybodaeth rydym yn ei chasglu gan achwynwyr mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC. O ganlyniad, nid yw ein cynigion yn arwain at unrhyw angen am asesiad manwl pellach mewn perthynas â phreifatrwydd.

A5.25 Mae'r Cod Tegwch yn cydbwyso hawliau Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i bobl dan ddeunaw oed ac unigolion neu sefydliadau eraill sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC neu y mae deunydd ar-lein y BBC yn effeithio arnynt yn uniongyrchol â hawliau Erthygl 10 y BBC a chynulleidfaoedd i dderbyn a rhannu gwybodaeth heb ymyrraeth ddiangen. Gan fod Canllawiau Golygyddol y BBC, sy'n rhoi cyfrif am yr egwyddorion, y rheolau a'r arferion perthnasol sydd i'w dilyn o dan y Cod Tegwch, eisoes yn berthnasol i ddeunydd ar-lein y BBC, nid yw ein dyletswydd o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru i gymhwyso'r Cod Tegwch i ddeunydd ar-lein y BBC (i'r graddau rydym yn penderfynu bod y safonau'n berthnasol) yn arwain at unrhyw angen am asesiad manwl pellach mewn perthynas â phreifatrwydd.

# Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

## Y Cyd-destun Cyfreithiol

A5.26 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A5.27 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ("Deddf 1998") hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i ystyried y dymuniad i hyrwyddo cysylltiadau da ar draws amrywiaeth o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae adran 75(2) o Ddeddf 1998 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw i ba mor ddymunol yw hybu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gred grefyddol, barn wleidyddol neu grŵp hil. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.[78]

A5.28 I'n helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan Ddeddf 2010 a Deddf 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac yn benodol a fyddant yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu'n effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.

A5.29 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydym yn ystyried yr effeithiau posibl yn ehangach ac nid dim ond mewn perthynas â'r grwpiau hynny o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau asesu effaith[79]).

A5.30 Yn benodol, mae adran 3(4) o'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol dan yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pa mor agored i niwed yw plant a phobl eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;
- anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel; a

[78] Ofcom, Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon ar gyfer Ofcom, 2014
[79] Ofcom, Canllawiau Asesu Effaith, 2023.

- gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

A5.31 Rydym yn edrych ar yr effaith y mae ein polisi'n debygol o'i chael ar bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, waeth beth fo'u cefndir a'u hunaniaeth.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A5.32 Rydym wedi ystyried yn ofalus effeithiau ein cynigion ynghylch y Cod a'r gweithdrefnau cysylltiedig ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig ac unrhyw risgiau posibl o wahaniaethu, yn ogystal ag effeithiau ar gyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Rydym hefyd wedi ystyried effeithiau ehangach ar grwpiau eraill, fel pobl o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol a grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant.

### Effaith Gadarnhaol

A5.33 Rydym o'r farn y bydd y Cod yn cael effaith gadarnhaol ar ein gallu i ddiogelu defnyddwyr deunydd ar-lein y BBC rhag niwed drwy newid ein cylch gwaith dros ddeunydd ar-lein y BBC o oruchwylio cydymffurfiad y BBC â'i Ganllawiau Golygyddol i orfodi safonau, drwy'r Cod ac o dan y Cod Tegwch. Mae'r safonau hyn yn cael eu mynegi mewn rheolau sy'n diogelu defnyddwyr rhag iaith casineb a deunydd difrïol sydd wedi'i anelu at grwpiau neu gymunedau, yn ogystal â rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus (gan gynnwys deunydd sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion gwarchodedig, neu a allai fod yn niweidiol i blant).

A5.34 Er na fydd y cam hwn o reidrwydd yn cynyddu'r safonau y mae'r BBC eisoes yn dal ei hun iddynt drwy ei Ganllawiau Golygyddol, sydd eisoes yn ymdrin â'r un cysyniadau â'r Cod a'r Cod Tegwch, bydd yn rhoi mwy o gymhelliant i'r BBC barhau i gynnal a chadw a bodloni ei safonau yn ogystal â darparu llwybr ychwanegol ar gyfer gwneud iawn i'r rheini y mae deunydd ar-lein y BBC yn effeithio'n negyddol arnynt.

### Effaith Niwtral

A5.35 Bydd unrhyw fesurau diogelu presennol yn ein gweithdrefnau cwyno presennol, h.y. ynghylch pobl ag anableddau, yn dal ar gael i unigolion sydd eisiau cwyno i ni am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y drefn reoleiddio newydd.

A5.36 Ar ôl asesu'n ofalus, nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar grwpiau penodol o bobl yng Ngogledd Iwerddon sy'n debygol o gael eu heffeithio mewn ffordd wahanol i weddill y DU.

### Effaith Negyddol

A5.37 Mae Adran Un (Amddiffyn pobl dan ddeunaw oed) y Cod Deunydd Ar-lein yn cynnwys rheolau sy'n ymwneud ag amcan y safonau o dan adran 319(2)(a) bod pobl o dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu. Er nad yw'r Cod arfaethedig yn cynnwys rheol gyfatebol i Reol 1.27 yn y Cod Darlledu sy'n cynnwys cyfyngiad ar arddangosiadau o ddadreibio, arferion yr ocwlt a'r goruwchnaturiol (yr honnir ei bod yn wir), ystyrir y byddai Rheol 1.2 arfaethedig yn mynd i'r afael ag unrhyw niwed posibl sy'n deillio o gynnwys o'r fath (gweler paragraff 3.16 uchod). Mae Adran Dau (Niwed a thramgwydd) o'r Cod hefyd yn cynnwys rheolau sy'n ymwneud ag amcan y safonau o dan adran 319(2)(a) (a ddisgrifir uchod) ac adran 319(2)(f) sy'n defnyddio safonau a dderbynnir yn gyffredinol er mwyn rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag deunydd tramgwyddus a niweidiol. Er nad yw'r Cod arfaethedig yn cynnwys rheol

gyfatebol i Reolau 2.6 a 2.8 yn y Cod Darlledu sydd hefyd yn cynnwys cyfyngiadau ar arddangosiadau o ddadreibio, yr ocwlt, y goruwchnaturiol, dewiniaeth, neu arferion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r dibenion hynny, ystyrir y byddai Rheolau 2.1 a 2.2 arfaethedig yn mynd i'r afael ag unrhyw niwed posibl sy'n deillio o gynnwys o'r fath (gweler paragraff 3.32 uchod). Felly, gallai cymhwyso Rheolau 1.2, 2.1 a 2.2 fod yn wahaniaethol o bosibl i bobl sy'n glynu wrth gredoau a/neu grefyddau penodol.

A5.38 Mae Ofcom o'r farn bod unrhyw effaith niweidiol neu ymyrraeth ag Erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd) a achosir drwy ddehongli rheolau o'r fath yn bodloni gofynion Erthygl 9(2) fel rhai a ragnodir gan y gyfraith, er mwyn cyflawni nod dilys ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Y Ddeddf, y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru, a'r Cod fel y'u nodir yw'r gyfraith berthnasol at ddibenion Erthygl 9(2). Mae'r nodau dilys perthnasol a ddilynir yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd ac er mwyn diogelu trefn gyhoeddus, iechyd neu foesau. Mae'r rhain yn cael eu cyflawni drwy sicrhau safonau deunydd ar-lein y BBC sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy'n diogelu pobl dan ddeunaw oed, sicrhau bod lefel briodol o gyfrifoldeb yn cael ei harfer mewn perthynas ag eitemau crefyddol ar-lein, ac atal camfanteisio amhriodol ar unrhyw dueddiad cynulleidfaoedd i gael eitemau crefyddol ar-lein. Rydym hefyd o'r farn bod y cynigion hyn ar gyfer dehongli rheolau o'r fath yn ffordd gymesur o gyflawni'r nodau hynny, gan fod y cyfyngiadau hyn eisoes wedi'u cynnwys yn y Cod Darlledu y mae'n rhaid i ni ystyried yr amcan o gynnal cysondeb â nhw, fel y bo'n briodol, o dan y Cytundeb Fframwaith wedi'i ddiweddaru. Rydym hefyd yn nodi bod y BBC eisoes yn gosod cyfyngiadau tebyg yn ei Ganllawiau Golygyddol ei hun, felly nid yw'r rheolau hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar y math o gynnwys sydd wedi'i gynnwys yn neunydd ar-lein y BBC.[80]

A5.39 Er bod cydymffurfio â'r Cod yn debygol o gynyddu costau rheoleiddio'r BBC (gweler uchod), rydym yn hyderus bod y costau hyn yn dal yn fach ac na fyddai'r costau hynny'n cael eu trosglwyddo'n anghymesur i gwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol a/neu'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Y rheswm am hyn yw bod y BBC eisoes yn cydymffurfio â'i Ganllawiau Golygyddol ei hun sy'n fwy manwl mewn mannau na'r Cod, ac mae'r Canllawiau Golygyddol hynny eisoes yn rhoi cyfrif am yr amcanion safonau perthnasol y mae'r Cod yn gosod safonau i'w cyflawni. Nid ydym chwaith (fel yr amlinellir uchod) yn rhagweld y bydd y newid yn rôl reoleiddio Ofcom dros ddeunyddiau ar-lein y BBC yn effeithio'n sylweddol ar lwyth gwaith y BBC.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

- **Cwestiwn 27:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein hasesiad o'r effaith, ein hasesiad o hawliau, neu ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb? Rhowch wybodaeth neu dystiolaeth i ategu eich barn.

A5.40 Gall Ofcom ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau ar gais, e.e. PDF hygyrch, print bras, hawdd ei ddeall, recordiad sain neu Braille. Os byddwch yn rhoi gwybod i ni pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi ac ym mha fformat, byddwn yn ystyried y cais ac yn ymateb o fewn 21 diwrnod.

[80] Gweler Canllawiau Golygyddol y BBC ar Grefydd (5.4.66 – 5.4.68) a Dadreibio, yr Ocwlt a'r Goruwchnaturiol (5.4.69 – 5.5.71).

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

## Y Cyd-destun Cyfreithiol

A5.41 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei chydnabod yn swyddogol yng Nghymru. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon hefyd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n rheoleiddio ac yn monitro ein gwaith. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Gymraeg wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisïau sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru'n benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU).[81]

A5.42 Os yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydym yn ystyried effaith bosibl cynnig polisi ar (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo greu neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol. Mae'r adran ganlynol yn darparu ein hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

A5.43 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[82] Er mwyn rhoi hyn ar waith, mae'n rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.[83] Yn unol â hynny, rydym wedi ystyried:

- effaith bosibl y Cod arfaethedig a'r gweithdrefnau ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- effaith bosibl y Cod arfaethedig a'r gweithdrefnau ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- sut byddai modd llunio ein cynigion er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

A5.44 Wrth lunio ein cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, lle bo hynny'n berthnasol ac i'r graddau y mae gennym ddisgresiwn i wneud hynny wrth arfer ein swyddogaethau, rydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A5.45 Rydym o'r farn nad yw ein cynigion yn cael unrhyw effeithiau niweidiol hysbys ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac nid ydynt ychwaith yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ar gyfer siaradwyr Cymraeg, rydym yn disgwyl y bydd ein cylch gwaith ehangach dros ddeunydd ar-lein y BBC o fudd drwy ddal y BBC yn annibynnol i safonau penodol ar gyfer ei ddeunydd ar-lein, gan gynnwys ar ran defnyddwyr Cymraeg ei ddeunydd ar-lein Cymraeg, fel BBC Cymru Fyw. Bydd y Cod a'r gweithdrefnau cysylltiedig i gyd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan roi cyfle cyfartal i ddefnyddwyr Cymraeg ddefnyddio a deall y cod newydd. Ar hyn o bryd, gall defnyddwyr Cymraeg wneud cwyn i Ofcom yn Gymraeg am ddeunydd ar-lein y BBC (fel y gallant i'r BBC). Bydd y cyfle cyfartal

[81] Gweler Safonau 84-89 o'r Hysbysiad cydymffurfio (yn Gymraeg) a'r Compliance notice (yn Saesneg). Mae Adran 7
o Ddogfen Cyngor Arfer Da Comisiynydd y Gymraeg yn darparu cyngor a gwybodaeth bellach ar sut mae'n rhaid i gyrff gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

[82] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

[83] hysbysiad cydymffurfio (yn Gymraeg) compliance notice (yn Saesneg)

hwn yn parhau o dan ein cylch gwaith estynedig, yn ogystal â'n dull o ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyhoeddi canlyniadau ymchwiliadau sydd ynddynt eu hunain yn berthnasol i Gymru.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

- **Cwestiwn 28:** Ydych chi'n cytuno bod y Cod a'r gweithdrefnau arfaethedig yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam, gan gynnwys sut rydych yn ystyried y gellid eu diwygio i gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol, neu ddim effeithiau niweidiol neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

# A6. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

A6.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno'ch barn a'ch sylwadau am y materion a godwyd yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 27 Awst 2026.

A6.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yma. Cewch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A6.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i bbcomc@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl 27 Awst 2026.

A6.4 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

> anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai bara mwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
> gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb, a'i lwytho yn syth ar YouTube (neu wefan letya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A6.5 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn ni (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A6.6 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A6.7 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A6.8 Byddai'n ddefnyddiol pe bai eich ymateb yn cynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 9. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai modd i chi esbonio pam rydych chi'n arddel eich safbwyntiau, a beth fyddai effaith cynigion Ofcom yn eich barn chi.

A6.9 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i bbcomc@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A6.10 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn helpu pobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A6.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych chi am i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A6.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono'n gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Fodd bynnag, mater i Ofcom yw penderfynu a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio. Weithiau, mae'n bosibl y byddwn yn credu bod angen cyhoeddi ymateb cyfan neu ran ohono, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n gyfrinachol (er enghraifft, er mwyn i ni allu egluro ein penderfyniadau a bod pobl yn gallu deall ein rhesymeg neu er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol).

Pan fydd hyn yn digwydd (ac nad yw'r wybodaeth berthnasol eisoes ar gael i'r cyhoedd), byddwn fel arfer yn egluro ein bwriad i gyhoeddi gwybodaeth o'ch ymateb yn gyntaf ac yn rhoi cyfle i chi godi pryderon ynghylch cyhoeddi'r wybodaeth honno. Yn gyffredinol, byddwn yn gwneud ein gorau i ddatrys unrhyw wrthwynebiadau sydd gennych drwy ddeialog adeiladol. Os byddwn yn dal yn credu bod angen i ni gyhoeddi eich ymateb cyfan neu ran ohono a'ch bod yn parhau i wrthwynebu hynny, byddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i chi cyn ei gyhoeddi.

A6.13 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd datgelu ymlaen llaw, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb â'r adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A6.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A6.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad fis Tachwedd 2026.

A6.16 Gallwch gofrestru i gael diweddariadau drwy'r post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A6.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 7.

A6.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y ffordd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed syniadau ynghylch sut gallai Ofcom ofyn yn fwy effeithiol am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A6.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road

Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A7. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

1. Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i gael gwybod a ydym ar y trywydd iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

2. Byddwn yn dweud yn glir gyda phwy rydym yn ymgynghori, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
3. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd, gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.
4. Wrth bennu hyd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried natur ein cynigion a'u heffaith bosibl. Byddwn bob amser yn nodi'n glir y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion.
5. Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif bwynt cyswllt os oes gennych chi farn am y ffordd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
6. Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

7. Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion ar ein gwefan yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i lywio'r penderfyniadau hyn.

# A8. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau dros hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych chi am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwy'n deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os ydw i wedi anfon fy ymateb drwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw eich ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), a byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi caled)

# A9. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Dywedwch wrthym sut y daethoch ar draws yr ymgynghoriad hwn.**

- ☐ E-bost gan Ofcom
- ☐ Wedi'i weld ar y cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan Ofcom
- ☐ Wedi dod o hyd iddo ar wefan arall
- ☐ Wedi clywed amdano ar y teledu neu'r radio
- ☐ Wedi darllen amdano mewn papur newydd neu gylchgrawn
- ☐ Wedi clywed amdano mewn digwyddiad
- ☐ Rhywun wedi dweud wrthyf amdano neu wedi'i rannu â mi
- ☐ Arall (rhowch fanylion)

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

- **Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer Adran Un?
- **Cwestiwn 2:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein dull gweithredu o adlewyrchu mesurau diogelu perthnasol ar gyfer pobl dan ddeunaw oed yn yr amgylchedd ar-lein?
- **Cwestiwn 3:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ffactorau perthnasol y gallem fod eisiau eu hystyried wrth ddatblygu ein canllawiau ar ddefnyddio'r rheolau hyn?
- **Cwestiwn 4:** Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Un?
- **Cwestiwn 5**: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer Adran Dau?
- **Cwestiwn 6:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y rhestr arfaethedig o ffactorau cyd-destunol (nad ydynt yn gynhwysfawr) a restrir o dan "ystyr cyd-destun" yn Adran Dau?
- **Cwestiwn 7**: Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Dau?
- **Cwestiwn 8**: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer Adran Tri?
- **Cwestiwn 9**: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynnig i ddefnyddio canllawiau i helpu i egluro sut gallai ffactorau cyd-destunol sy'n ymwneud â Rheolau 3.1, 3.2 a 3.3 fod yn berthnasol i ddeunydd ar-lein? A oes unrhyw feysydd eraill yn Adran Tri y credwch y gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol eu hategu â chanllawiau?
- **Cwestiwn 10**: Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Tri?
- **Cwestiwn 11**: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer Adran Pedwar?
- **Cwestiwn 12**: Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Pedwar?
- **Cwestiwn 13**: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer Adran Pump?
- **Cwestiwn 14:** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i roi "eitem ar-lein" yn lle "rhaglen" yn y rheolau hyn? Os nad ydych chi, eglurwch pam.
- **Cwestiwn 15:** Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu arfaethedig Ofcom ar gyfer cadw didueddrwydd dyladwy ar draws cyfres o eitemau ar-lein sydd â chysylltiad golygyddol wedi'u cymryd gyda'i gilydd? Os nad ydych chi, eglurwch pam.

- **Cwestiwn 16:** A oes unrhyw feysydd yn Adran 5 y credwch y gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol eu hategu â chanllawiau?
- **Cwestiwn 17**: Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Pump?
- **Cwestiwn 18**: Ydych chi'n cytuno â dull gweithredu cyffredinol Ofcom ar gyfer Adran Chwech?
- **Cwestiwn 19:** A oes unrhyw feysydd yn Adran Chwech y credwch y gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol eu hategu â chanllawiau?
- Cwestiwn 20: Oes gennych chi ragor o sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adran Chwech?
- **Cwestiwn 21**: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y ffordd mae Ofcom yn bwriadu defnyddio'r Cod Tegwch a nodir o dan Adrannau 7 ac 8 o'r Cod Darlledu, mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC?
- **Cwestiwn 22:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig i gysoni'r Gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys deunydd ar-lein y BBC â'r gweithdrefnau cyfatebol ar gyfer torri'r Cod Darlledu?
- **Cwestiwn 23:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein dehongliad arfaethedig o ran pryd mae deunydd ar-lein y BBC yn cael ei "bostio am y tro cyntaf"?
- **Cwestiwn 24:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig i gysoni'r Gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri'r Cod Tegwch mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC â'r gweithdrefnau cyfatebol ar gyfer torri'r Cod Tegwch o dan adrannau 7 ac 8 y Cod Darlledu?
- **Cwestiwn 25:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynnig i ddefnyddio'r un gweithdrefnau sancsiynau ar gyfer achosion o dorri'r Cod ag ar gyfer achosion o dorri'r Cod Darlledu drwy ddiwygio'r gweithdrefnau sancsiynau presennol?
- **Cwestiwn 26:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig i'r mathau o sancsiynau a allai fod ar gael i Ofcom ar ôl i'r BBC dorri
- safonau cynnwys, neu'r Cod Tegwch mewn perthynas â deunydd ar-lein y BBC?
- **Cwestiwn 27:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein hasesiad o'r effaith, ein hasesiad o hawliau, neu ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb? Rhowch wybodaeth neu dystiolaeth i ategu eich barn.
- **Cwestiwn 28:** Ydych chi'n cytuno bod y Cod a'r gweithdrefnau arfaethedig yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Os ydych chi'n anghytuno, eglurwch pam, gan gynnwys sut rydych yn ystyried y gellid eu diwygio i gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol, neu ddim effeithiau niweidiol neu lai o effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.